|-------------------------------|---|----------------------------------|------------------|--|----------------------------|
| 10. Opsiynau Plas Tan y Bwlch | <p>PENDERFYNWYD</p> <ul style="list-style-type: none"> - o ystyried nifer y staff a allai o bosibl gael eu heffeithio, y dylai'r awdurdod ddechrau'r broses o ymgynghori'n ffurfiol â staff a'r Undebau Llafur ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch. - bod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch, ynghyd â Chadeiryddion ac Is-gadeirydd yr Awdurdod, yn ystyried modelau busnes amgen dros y tri mis nesaf (gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau eraill), i asesu faint o swyddi y gellir eu harbed. - y dylai'r Awdurdod ystyried y mater ymhellach yn ei gyfarfod ym mis Medi, oni bai bod cyfarfod Awdurdod arbennig yn cael ei alw cyn y dyddiad hwnnw. - yn y cyfamser, y dylid cytuno mewn egwyddor, y dylai'r gwelliannau arfaethedig, a gymeradwywyd yn flaenorol gan yr Awdurdod, fynd yn eu blaenau, er mwyn gosod y ganolfan yn y sefyllfa orau bosibl i barhau â rhyw fath o fodel busnes amgen neu ar gyfer partner gydag eraill. Mae hyn yn destun penderfyniad gan Fwrdd Plas Tan y Bwlch ynghyd â'r Cadeiryddion a'r Is-gadeirydd o ran pa elfennau o'r gwaith ail-ddatblygu ddylai fynd ymlaen. | Symud ymlaen fel y penderfynwyd. | PW/GIJ | <p>Cwblhawyd proses ymgynghori gydag aelodau staff perthnasol a thrafodwyd y canlyniadau gydag Aelodau'r Awdurdod.</p> <p>Mae model busnes amgen wedi cael ei drafod. Bydd trafodaethau pellach gyda'r Aelodau yn cael eu cynnal yn ystod cyfarfodydd Bwrdd Plas Tan y Bwlch.</p> <p>Diweddariad: Cytunwyd ar fodel busnes amgen ac mae wrthi'n cael ei weithredu.</p> | NA |



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 23.09.2020

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|--|---|------------------------|------------------|---|----------------------------|
| 8(2) Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd John Pughe Roberts | PENDERFYNWYD y dylid cyflwyno adroddiad i gyfarfod o Weithgor yr Aelodau i'w gynnal yn gynnar ym mis Rhagfyr 2020. | I baratoi'r adroddiad. | JC | Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Gweithgor Aelodau ar yr 2il o Ragfyr 2020. CWBLHAWYD | IA |
| 11. Penodi Aelodau i wasanaethu ar Bwyllgorau, Paneli, Gweithgorau a Chynrychiolaeth Allanol | PENDERFYNWYD i lenwi'r swyddi gwag sy'n weddill ar ôl penodiad yr Aelod newydd o Lywodraeth Cymru. | I baratoi'r adroddiad. | GIJ | Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ar y 9fed o Ragfyr 2020. CWBLHAWYD | IA |



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|-------------------------------------|---|------------------------|------------------|--|----------------------------|
| 19. Diweddariad ar Blas Tan y Bwlch | PENDERFYNWYD y dylid cyflwyno adroddiad i Gyfarfod Arbennig o'r Awdurdod ym mis Hydref i'r Aelodau ystyried ymhellach opsiynau ar gyfer Plas Tan y Bwlch. Yr adroddiad i gynnwys ystod o senarios o ran deiliadaeth yn ogystal ag opsiynau ar gyfer Plas Tan y Bwlch pe bai cyfnod clo pellach yn digwydd. | I baratoi'r adroddiad. | GIJ | Cyflwynwyd yr adroddiad i Gyfarfod Arbennig o'r Awdurdod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2020. CWBLHAWYD | IA |



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 23.10.2020

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|--|---|--------------------------------------|------------------|--|----------------------------|
| 6. Achos Busnes dros barhau gyda llety Gwely a Brechwast ym Mhlas Tan y Bwlch. | PENDERFYNWYD fod Bwrdd Plas Tan y Bwlch yn cyflwyno adroddiad cynnydd i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau er mwyn sicrhau bod pob Aelod o'r Awdurdod yn derbyn gwybodaeth am y datblygiadau . | I ddarparu'r adroddiadau diweddarau. | GIJ | Bydd trefniadau adrodd yn cael eu rhoi ar waith. CWBLHAWYD | IA |

| | |
|----------------------|--|
| CYFARFOD | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| DYDDIAD | 9 Rhagfyr 2020 |
| TEITL | AELODAETH PWYLLGORAU |
| ADRODDIAD GAN | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol |
| PWRPAS | Penodi Aelodau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod |

1. **CRYNODEB**

- 1.1 Yn dilyn ymddiswyddiad Ms Elinor Gwynn, mae angen i'r Awdurdod benodi Aelod i lenwi'r swyddi gwag canlynol, a adawyd yn wag yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 23 Medi 2020 i aros am benodiad Aelod Llywodraeth Cymru newydd.
- 1.2 Atgoffir yr Aelodau bod cyfansoddiad y Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau wedi'i drefnu fel bod y gyfran o Aelodau Awdurdod Lleol ac Aelodau wedi eu penodi gan Lywodraeth Cymru ar yr un raddfa ag ar yr Awdurdod ei hun (2:1), cyn belled ag y bo hyn yn ymarferol wrth weithio gyda rhifau cyfan.

2. **ARGYMHELLIAD - Penodi Aelodau i'r swyddi gwag canlynol:-**

(i) **PWYLLGOR**

Pwyllgor Safonau (3 Aelod o'r Awdurdod – cyfnod o 4 blynedd mewn swydd)
(1 cyfarfod y flwyddyn)

Penodir gan yr Awdurdod Lleol (2) 1) Cyng. Alwyn Gruffydd
2) Mr. Philip Capper

Penodir gan Lywodraeth Cymru (1) 1) **Swydd Wag**

Aelodau Annibynnol (3) 1) Mrs Sharon Warnes
2) Mrs Rachael Leah Jane Davies
3) Mr Martin James Hughes

(ii) **GWEITHGOR**

Cyd-Weithgor Lleol (4 Aelod)
(2 gyfarfod y flwyddyn)

Penodir gan yr Awdurdod Lleol (3) 1) Cyng. Ifor Glyn Lloyd
2) Cyng. Elwyn Edwards
3) Cyng. Judith Humphreys

Penodir gan Lywodraeth Cymru (1) 1) **Swydd Wag**

(iii) **GRWPIAU TASG A GORFFEN**

- (a) **Strategaeth Addysg** (5 Aelod)
Cynghorwyr Alwyn Griffiths, Judith Humphreys;
Ms. Tracey Evans, Mr. Neil Martinson, **Swydd Wag**.

- (b) **Cyfathrebu** (4 aelod)
Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd;
Ms. Tracey Evans, Mr. Neil Martinson, **Swydd Wag**.

EITEM RHIF 11

| | |
|----------------------|---|
| CYFARFOD | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| DYDDIAD | 9fed Rhagfyr 2020 |
| TEITL | DIWEDDARIAD AR GYLLIDEB 2020/21 |
| ADRODDIAD GAN | Pennaeth Cyllid |
| PWRPAS | Hysbysu Aelodau ynghylch trosglwyddiadau sylweddol Hysbysu Aelodau ynghylch y cynnydd yn erbyn y cyllidebau refeniw a chyfalaf a'r sefyllfa derfynnol a ragwelir ar gyfer y flwyddyn ariannol. |

1. CEFNDIR

- 1.1 Mae'r adroddiad ar y gyllideb yn cynnwys crynodeb o'r cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig 2020-21 ar gyfer saith mis cyntaf y flwyddyn ariannol h.y. 1 Ebrill hyd 31 Hydref 2020.
- 1.2 Eleni, hyd yma, nid oes unrhyw lithriad na thanwariant o flwyddyn ariannol 2019-20 wedi eu cynnwys yn y gyllideb net ddiwygiedig.
- 1.3 Mae Rhan 4 o'r adroddiad yn dangos y cynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn y gyllideb refeniw net a rhagamcan o'r sefyllfa ar gyfer diwedd y flwyddyn.
- 1.4 Mae'r Awdurdod wedi derbyn gwybodaeth am arian grant ychwanegol o dan gynllun Tirweddau Cynladwy Lleoedd Cynladwy (SLSP). Grant cyfalaf sydd ar gael mewn dwy ran gwerth £830,800 a £710,800 yr un ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Nodwyd y penawdau prosiect perthnasol o dan Eitem 14 i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 18 Tachwedd 2020 ac maent wedi eu cynnwys yma yn Atodiad 2. Mae'n ofynnol defnyddio'r grantiau hyn yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol ac unrhyw gais am grant i'w gyflwyno erbyn diwedd Chwefror 2021 fan bellaf.

Mae'r grantiau yn cynnwys cyfraniad o 10% tuag at orbenion yr Awdurdod. Cafodd y cyfraniad hwn ei glustnodi gan y Tim Rheoli yn bennaf ar gyfer ariannu swydd am amser penodol.

- 1.5 Gwnaed hefyd ddyraniad o arian grant ar gyfer SLSP (blaenoriaethau adferiad natur ac adferiad Cofid). O safbwynt Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, mae hyn yn golygu:

£275,214 (refeniw) wedi ei ddyrannu i feysydd penodol
£314,530 (cyfalaf) heb ei ddyrannu i feysydd penodol
£589,744

Caiff y swm refeniw sef £275,214 ei ddyrannu fel a ganlyn:

| Maes | (£) | Manylion |
|--|------------|--|
| Natur & Bioamrywiaeth | 77,000 | Ymestyn cyfnod cyflogaeth 2 swyddog sydd ar y funud yn ymwneud â chynlluniau grant fydd yn dod i ben yn ystod y flwyddyn ariannol. |
| Rheoli Cynefinoedd ac Ymwelwyr | 73,000 | Cynyddu oriau Cydlynedd Gwirfoddolwyr a chyflogi pump aelod staff tymhorol / dan hyfforddiant. |
| Cyfathrebu | 35,000 | Cyflogi un swyddog ychwanegol i drosglwyddo negeseuon allweddol yn ymwneud â rheoli Eryri yn gynaladwy. |
| Sherpa a Thrafnidiaeth | 60,000 | Cynyddu cefnogaeth i'r gwasanaeth bws Sherpa ac ymestyn cefnogaeth swyddog am 12 mis wrth weithredu rhan gyntaf yr adroddiad rheoli trafndiaeth. |
| Safleoedd yn Eryri (ym mherchnogaeth y Parc) | 30,000 | Creu swydd newydd i wella rheolaeth safle, profiadau ymwelwyr a digarboneiddio stad. |

Ar gyfer 2020/21 & 2021/22 y mae'r arian hwn ac mae'n rhaid ei ddefnyddio i gyd cyn diwedd Mawrth 2022. Rhagwelir derbyn yr arian rhwng Ionawr a Mawrth 2021.

2. CYLLIDEB REFENIW DDIWYGIEDIG 2020/21

- 2.1 Cafodd y Gyllideb Net Wreiddiol ei chymeradwyo gan yr Awdurdod ar 5 Chwefror 2020. Gellir gweld effaith trosglwyddiadau i /o'r cronfeydd wrth gefn yn ystod 2020/21 yng ngholofnau "Trosglwyddiadau" yn y tabl isod :-

| Meysydd Gwasanaeth | Cyllideb Net Wreiddiol (£) | Trosgl. cynt (£) | Trosgl. newydd (£) | Cyllideb Net Ddiwygiedig (£) |
|--|---|---------------------------------|-----------------------------------|---|
| Cynllunio a Rheoli Tir | 2,440,830 | 35,010 | 2,800 | 2,478,640 |
| Corfforaethol | 3,323,957 | 40,923 | 7,200 | 3,372,080 |
| Balansau, Cronfeydd wrth Gefn a Darpariaethau | 10,000 | 0 | -10,000 | 0 |
| Cyfanswm Gwariant i Wasanaethau | 5,774,787 | 75,933 | 0 | 5,850,720 |
| Llog ar falansau | -23,000 | 0 | 0 | -23,000 |
| Refeniw yn ariannu gwariant Cyfalaf | 1,795,767 | -5,063 | -9,672 | 1,781,032 |
| Addasiad Taliadau Cyfalaf | -567,800 | 0 | 0 | -567,800 |
| Cyllideb Net | 6,979,754 | 70,870 | -9,672 | 7,040,952 |
| ARIANNWYD O | | | | |
| Grant y Parc Cenedlaethol | 3,745,263 | | | 3,745,263 |
| Lefi Awdurdodau Cyfansoddol | 1,248,420 | | | 1,248,420 |
| | 4,993,683 | | | 4,993,683 |
| Cyfraniadau o gronfeydd wrth gefn: | 1,986,071 | 70,870 | -9,672 | 2,047,269 |
| Cyllideb Net Ddiwygiedig | 6,979,754 | | | 7,040,952 |

- 2.2 Mae dadansoddiad manwl o'r gyllideb net ddiwygiedig fesul gwasanaeth (fel yr oedd ar 31 Hydref 2020) i'w gweld yn Atodiad 1.
- 2.3 Mae'r gostyngiad net o £9,672 yn y golofn trosglwyddiadau newydd yn cynrychioli addasiad i'r gyllideb wreiddiol ar gyfer gwaith ar "Bwlch Mawr – Brithdir" a arianwyd allan o grant a dderbyniwyd gan Llywodraeth Cymru yn 2019/20.

3. CYLLIDEB GYFALAF DDIWYGIEDIG

- 3.1 Dangosir y gyllideb net ddiwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf hyd at 31 Hydref 2020 yn y tabl canlynol. Nid yw'n cynnwys y prosiectau a arianwyd allan o grantiau cyfalaf ac y manylir arnynt yn Atodiad 2 gan nad ydynt yn ymddangos fel ffigurau cyllideb yn y system ariannol ar hyn o bryd.

| Meysydd Gwasanaeth | Cyllideb Gros Wreiddiol (£) | Incwm Grant (£) | Cyllideb Net Wreiddiol (£) | Trosogl. cynt (£) | Trosogl. newydd (£) | Cyllideb Net Ddiwygiedig (£) |
|---|--|--------------------------------|---|----------------------------------|------------------------------------|---|
| Cynllunio a Rheoli Tir | | | | | | |
| Prosiectau Mynediad | 10,000 | 0 | 10,000 | 0 | 0 | 10,000 |
| Wardeniaid - Cerbydau | 14,000 | 0 | 14,000 | 0 | 0 | 14,000 |
| Cynlluniau Treftadaeth Ddiwylliannol | 96,280 | 0 | 96,280 | 0 | 0 | 96,280 |
| Treftadaeth Treflun Dolgellau | 638,850 | -444,530 | 194,320 | 0 | 0 | 194,320 |
| Carneddau - Data LiDAR (grant LI. C.) | 70,527 | 0 | 70,527 | 0 | 0 | 70,527 |
| Carneddau - Llwybrau (grant LI. C.) | 48,660 | 0 | 48,660 | 0 | 0 | 48,660 |
| Mynediad (grant LI. C.) | 25,000 | 0 | 25,000 | 0 | 0 | 25,000 |
| Arsyllfa Symudol (grant LI.C.) | 75,000 | 0 | 75,000 | 0 | 0 | 75,000 |
| Llyn Cynwch (grant LI.C) | 30,000 | 0 | 30,000 | 0 | 0 | 30,000 |
| Bwlch Mawr- Brithdir (grant LI.C) | 60,000 | 0 | 60,000 | 0 | -9,672 | 50,328 |
| Brithdir - Pen Ceunant (grant LI.C) | 70,000 | 0 | 70,000 | 0 | 0 | 70,000 |
| Gorseddau (grant LI.C) | 75,000 | 0 | 75,000 | 0 | 0 | 75,000 |
| Nant Gwynant (grant LI.C.) | 40,000 | 0 | 40,000 | 0 | 0 | 40,000 |
| Cadair Idris (grant LI.C) | 100,000 | 0 | 100,000 | 0 | 0 | 100,000 |
| Llyn Llywelyn (grant LI.C) | 30,000 | 0 | 30,000 | 0 | 0 | 30,000 |
| Llwybr Gwyrffai (grant LI.C) | 15,000 | 0 | 15,000 | 0 | 0 | 15,000 |
| Corfforaethol | | | | | | |
| Systemau gwybodaeth - Rhaglen | | | | | | |
| Amnewid. | 72,340 | 0 | 72,340 | 0 | 0 | 72,340 |
| Safle Gwe (grant LI. C.) | 103,800 | 0 | 103,800 | 0 | 0 | 103,800 |
| Cynllun Partneriaeth y Wyddfa (Grant LI. C.) | 66,680 | 0 | 66,680 | 0 | -20,000 | 46,680 |
| Cynllun Dehongli'r Wyddfa (grant LI.C.) | 0 | 0 | 0 | 0 | 20,000 | 20,000 |
| Pwyntiau Trydan i Geir (Grant LI. C.) | 10,000 | 0 | 10,000 | 9,825 | 0 | 19,825 |
| Boileri'r Pencadlys | 30,000 | 0 | 30,000 | 1,931 | 0 | 31,931 |
| Trefniadau Arbed Ynni (grant LI.C.) | 38,000 | 0 | 38,000 | -32,349 | 0 | 5,651 |
| Tech. Gwybodaeth at ddefnydd | | | | | | |
| Rheolaeth Datblygu (Grant LI. C.) | 20,000 | 0 | 20,000 | -15,800 | 0 | 4,200 |
| Dol Idris (cynllun grant TAIS) | 0 | 0 | 0 | 3,292 | 0 | 3,292 |
| Nant Peris (cynllun grant TAIS) | 0 | 0 | 0 | 8,411 | 0 | 8,411 |
| Can. Ogwen (cynllun grant TAIS) | 0 | 0 | 0 | 7,114 | 0 | 7,114 |
| Gorsafoedd Ail-gyflenwi Dwr (grant LI.C.) | 0 | 0 | 0 | 12,042 | 0 | 12,042 |
| Plas Tan y Bwlch | 238,840 | 0 | 238,840 | 0 | 0 | 238,840 |
| Betws y Coed (grant LI.C) | 90,000 | 0 | 90,000 | 2,075 | 0 | 92,075 |
| Hafod Eryri (grant LI.C. 18/19) | 98,620 | 0 | 98,620 | -1,604 | 0 | 97,016 |
| Hafod Eryri (grant LI.C. 19/20) | 73,700 | 0 | 73,700 | 0 | 0 | 73,700 |
| | 2,240,297 | -444,530 | 1,795,767 | -5,063 | -9,672 | 1,781,032 |

3.2 Mae'r gostyngiad net o £9,672 yn y golofn trosglwyddiadau newydd yn cynrychioli'r addasiad i'r gyllideb wreiddiol fel y nodwyd yn gynharach.

4. GOBLYGIADAU ADNODDAU

4.1 Mae'r Tîm Rheoli o'r farn y bydd y gyllideb refeniw angen ei chwyddo gyda chyfraniad o'r gronfa wrth gefn ar gyfer risgiau penodol – hyn er mwyn cwrdd â chostau diswyddo ym Mhlas Tan y Bwlch. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r cynnydd hyd at 31 Hydref 2020 yn erbyn y gyllideb, a'r sefyllfa fel y'i rhagwelir erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (fel y trafodwyd gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth a'r Cyfarwyddwyr perthnasol). Pwysleisir bod y rhagamcan hwn o'r ffigurau yn agored i gael eu newid.

| Meysydd Gwasanaeth | Cyllideb Net Dd'gedig (£) | Gwariant Net hyd yma (£) | Tafluniad diwedd blwyddyn (£) | Gwanhaniaeth a ragwelir (£) |
|--|---------------------------------|--------------------------------|--|-----------------------------------|
| Cynllunio a Rheoli Tir | 2,478,640 | 1,963,271 | 2,483,640 | -5,000 |
| Corfforaethol | 3,372,080 | 1,352,657 | 3,585,680 | -213,600 |
| Balansau, Wrth Gefn a Darpariaethau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm Gwariant i Wasanaethau | 5,850,720 | 3,315,928 | 6,069,320 | -218,600 |
| Llog a Enillwyd ar Gronfeydd Dros Ben | -23,000 | -7,302 | -13,000 | -10,000 |
| Cyfraniad refeniw ar wariant cyfalaf | 1,781,032 | 452,813 | 1,781,032 | 0 |
| Addasiad Taliadau cyfalaf | -567,800 | -331,217 | -567,800 | 0 |
| Cyllideb Refeniw Net | 7,040,952 | 3,430,222 | 7,269,552 | -228,600 |
| Rhagolwg balans Net (+) / diffyg (-) ar gyfer 2020/21 | | | | -228,600 |
| WEDI EI ARIANNU O | | | | |
| Grant Parc Cenedlaethol | 3,745,263 | | | |
| Lefi Awdurdodau Cyfansoddol | 1,248,420 | | | |
| Cyfr. o gronfeydd wrth gefn | 2,047,269 | | | |
| Cyllideb Net | 7,040,952 | | | |

4.2 I grynhoi, y sefyllfa a ragwelir ar gyfer diwedd y flwyddyn yw balans diffygiol o **£228,600**. Mae hyn oherwydd amcangyfrif cyfredol y costau diswyddo ym Mhlas Tan y Bwlch. Byddid yn ariannu'r costau hyn allan o'r gronfa wrth gefn ar gyfer risgiau penodol. Os bydd arian tanwariant ar gael i'w ddefnyddio erbyn diwedd y flwyddyn, hwn gaiff ei ddefnyddio gyntaf.

Dyma'r eglurhâd manwl o'r sefyllfa a ragdybir ar gyfer diwedd y flwyddyn a'r addasiadau a ddaw yn ei sgil, gan ganolbwyntio yn benodol ar symiau o £10,000 a throsodd.

4.3 **Corfforaethol:** Y balans terfynnol a amcangyfrifir ar gyfer y gyfarwyddiaeth yw gorwariant o **£213,600**. Y prif amrywiadau fel a ganlyn:

Plas Tan y Bwlch : rhagdybir y bydd y diffyg net yn £253,000. Mae hyn yn cynnwys costau diswyddo.

Meysydd Parcio : rydym yn amcangyfrif diffyg o £42,000 yn yr incwm a dderbynnir.

Cyfleusterau Ymwelwyr : rhagwelir gorwariant o £10,600 o ganlyniad i gollu incwm rhent.

Canolfannau Gwybodaeth : mae'r Rheolwraig Twristiaeth Cynladwy yn rhagweld y bydd y Canolfannau Gwybodaeth yn gweithredu o fewn eu cyllideb eleni.

Cyfieithu : rhagwelir tanwariant o tua £32,000 o ganlyniad i ddefnyddio cyfieithwyr allanol yn hytrach na chyflogi cyfieithydd.

Cyfreithiol : ar hyn o bryd mae achos Hillside yn parhau heb ei ddatrys oherwydd er bod yr Awdurdod wedi ennill yr apêl, mae perchennog Hillside yn bwriadu herio'r penderfyniad. Mae costau o tua £58,000 wedi ei wario ar yr achos hyd yma a dylid gallu gwneud cais am ad-daliad, fodd bynnag, ni ellir cadarhau hynny ar hyn o bryd.

Rheolaeth Corfforaethol : rhagwelir tanwariant o £32,000 yn bennaf oherwydd bod y swydd weinyddol newydd ynghlwm wrth y Tîm Rheoli yn wag am o leiaf 9 mis o'r flwyddyn ariannol gyfredol, gweddill o £7,400 ar y prosiectau "unwaith ac am byth" a chyllidebau teithio a chynhaliaeth heb eu defnyddio.

4.4 **Cynllunio a Rheoli Tir:** Yn gyffredinol, mae'r amrywiadau cyllid a ragwelir yn golygu gorwariant bach o £5,000.

Yr Ysgwrn : Mae'r cynllun CLT (Cronfa Loteri Treftadaeth) wedi derbyn estyniad amser hyd Ionawr 2021, ac mae'r pwyslais ar wario yn unol â phroffil y prosiect erbyn hynny.

Disgwylir i gyllideb yr Ysgwrn sydd arwahân i'r cynllun CLT fod o fewn y gyllideb o ganlyniad i'r cymorth grant a dderbyniwyd o ffynonellau amrywiol.

Treftadaeth Ddiwylliannol : mae'r cyfraniad a gyllidebwyd ar gyfer cynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau yn gostwng ac oherwydd hynny mae rhagor o arian ar gael ar gyfer cyllideb "adeiladau mewn perygl". Deellir bod ymrwymadau yn ymwneud â thri eiddo yn y flwyddyn gyfredol a bod unrhyw arian dros ben i gael ei glustnodi ar gyfer gwaith ar Blas Nannau fel rhan o brosiect grant "Harlech ac Ardudwy" Llywodraeth Cymru.

Cynllunio : yn gyffredinol amcangyfrifir tanwariant o £20,000. Fodd bynnag, mae asesiad ar y gweill o'r modd y gellir gwella technoleg gwybodaeth ar gyfer y gwasanaeth cynllunio, ac mae'r Pennaeth Gwasanaeth ar hyn o bryd

yn dymuno cadw'r arian tanwariant hwn hyd nes bydd y costau perthnasol wedi eu cadarnhau.

Cadwraeth, Coed ac Amaeth : yn gyffredinol, ar hyn o bryd rhagwelir gorwariant bychan.

Fforestydd Glaw Celtaidd (LIFE) – mae'r Rheolwr Prosiect yn dawel hyderus o gyflawni'r targed gwariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol er bod o leiaf un aelod o'i staff yn gadael.

- 4.5 **Balansau, Arian wrth Gefn a Darpariaethau**: Mae'r balans gwaelodlin gwreiddiol sef £10,000 ar gyfer chwyddiant wedi ei ddyrannu yn llawn.
- 4.6 **Costau cyflogau**: Roedd y cynnydd mewn cyflogau wedi ei gytuno eisoes a'i gynnwys yn y gyllideb sylfaenol.
- 4.7 **Llogau**: Mae cyfraddau llog wedi syrthio cymaint fel bod y rhagolygon tua £13,000 yn erbyn y gyllideb.
- 4.8 **Cyfalaf**: Roedd y prif wariant net hyd ddiwedd Hydref ar y canlynol:

- | | |
|-----------------------------|----------|
| • Cynllun Treflun Dolgellau | £182,255 |
| • Cynllun LiDAR (Carneddau) | £46,340 |
| • Boeleri'r prif swyddfeydd | £45,874 |

5. **Trosglwyddiadau Rhwng Cyllidebau Gwerth Dros £30,000 i Sylw'r Awdurdod.**

- 5.1 Mae Rhan 3 o Reoliadau Cyllidol yr Awdurdod yn nodi'r angen i gyflwyno adroddiad i'r Awdurdod neu i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y trosglwyddiadau gwerth rhwng £30,000 a £100,000 rhwng cyllidebau, os nad ydynt wedi eu cymeradwyo'n flaenorol gan yr Awdurdod. Hefyd, mae angen cymeradwyaeth yr Awdurdod ar gyfer unrhyw drosglwyddiad sydd werth £100,000 neu ragor.

Nid oes unrhyw drosglwyddiadau perthnasol yn ystod y cyfnod hyd at 31/10/2020.

6. **ARGYMHELLIAD**

6.1 **Nodi cynnwys yr adroddiad.**

- 6.2 **Cymeradwyo'r camau a fwriedir neu awgrymu i'r gwrthwyneb. Yn bennaf, defnydd o'r arian wrth gefn ar gyfer risgiau penodol fel y nodwyd ym mharagraff 4.2**

PAPURAU CEFNDIR

Dim

Atodiad 1

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyllideb Ddiwygiedig 2020/21 ar 31 Hydref 2020**

| | Cyllideb Sylfaenol £ | Trosgl. cynt £ | Trosgl. newydd £ | Cyllideb Net Ddiwygiedig £ |
|---|----------------------------|----------------------|------------------------|-------------------------------------|
| CYNLLUNIO A RHEOLI TIR | | | | |
| Cadwraeth, Coed ac Amaeth | 412,410 | -11,460 | 0 | 400,950 |
| Awyr Dywyll | 22,300 | 0 | 0 | 22,300 |
| ENRaW | 0 | 13,410 | 0 | 13,410 |
| SMS - Mawndir Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 |
| SMS - Eden | 0 | 0 | 0 | 0 |
| SMS - Uwch Gwyrfai | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Grid Cenedl. - Maentwrog (Dwyrain) | 91,160 | 0 | 0 | 91,160 |
| Grid Cenedl. - Maentwrog (Gorllewin) | 3,260 | 0 | 0 | 3,260 |
| Grid Cenedl. - Terfynau Traddodiadol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| LIFE - Coedwigoedd Glaw Celtaidd | 74,860 | 0 | 0 | 74,860 |
| Partneriaeth Tirwedd y Carneddau | -3,250 | 0 | 0 | -3,250 |
| RhMMAMG | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mynediad Cyhoeddus | 104,060 | -6,130 | 0 | 97,930 |
| Tim Y Wyddfa | 282,750 | 6,220 | 0 | 288,970 |
| Wardeniaid - Cyffredinol | 221,820 | 2,220 | 0 | 224,040 |
| Wardeniaid - Gogledd | 252,070 | 5,810 | 0 | 257,880 |
| Wardeniaid - De | 233,370 | 5,640 | 0 | 239,010 |
| Archeoleg | 59,230 | 1,130 | 0 | 60,360 |
| Treftadaeth Diwylliannol | 104,040 | 2,350 | 0 | 106,390 |
| Treftadaeth Treflun Dolgellau | 31,240 | 0 | 0 | 31,240 |
| Ysgwrn | 67,800 | 1,220 | 2,800 | 71,820 |
| Ysgwrn (cynllun CDL) | 15,000 | 0 | 0 | 15,000 |
| Cynllunio | 468,710 | 14,600 | 0 | 483,310 |
| Is-gyfanswm wedi'i gario ymlaen | 2,440,830 | 35,010 | 2,800 | 2,478,640 |
| CORFFORAETHOL | | | | |
| Costau Aelodau | 103,510 | 0 | 0 | 103,510 |
| Cefnogaeth yr Awdurdod | 83,540 | 1,380 | 0 | 84,920 |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 724,927 | -89,460 | -11,810 | 623,657 |
| Eiddo | 185,650 | 2,010 | 13,580 | 201,240 |
| Cyfreithiol | 51,210 | 1,090 | 0 | 52,300 |
| Gweinyddol a Gofal Cwsmer | 215,970 | 4,640 | 1,230 | 221,840 |
| Cyfieithu | 108,140 | 2,210 | 0 | 110,350 |
| Personel a Hyfforddiant | 106,320 | 1,960 | 0 | 108,280 |
| Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen | 1,579,267 | -76,170 | 3,000 | 1,506,097 |

Atodiad 1 (parhâd)

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyllideb Ddiwygiedig 2020/21 ar 31 Hydref 2020**

| | Cyllideb Waelodlin £ | Trosgl. cynt £ | Trosgl. newydd £ | Cyllideb Net Ddiwygiedig £ |
|--|----------------------------|-------------------|------------------------|-------------------------------------|
| Is-gyfansymiau a Ddygwyd Ymlaen | | | | |
| CYNLLUNIO A RHEOLI TIR | 2,440,830 | 35,010 | 2,800 | 2,478,640 |
| CORFFORAETHOL | 1,579,267 | -76,170 | 3,000 | 1,506,097 |
| Pencadlys | 226,850 | 350 | 0 | 227,200 |
| Systemau Gwybodaeth | 301,630 | 5,640 | 0 | 307,270 |
| Cyllid | 161,100 | 4,050 | 0 | 165,150 |
| Canolfan Astudio Plas Tan y Bwlch | 331,410 | 12,520 | 0 | 343,930 |
| Ymgysylltu | 409,250 | 8,700 | 0 | 417,950 |
| Safle Gwe Newydd | 39,600 | 0 | 0 | 39,600 |
| Ymgysylltu Â Phobl Ifanc (grant Ll.C.) | 55,500 | 0 | 0 | 55,500 |
| Llwybrau Llesiant (grant Ll.C.) | 40,000 | 0 | 0 | 40,000 |
| Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau | 247,730 | 78,703 | 0 | 326,433 |
| Mynydda Diogel | 30,000 | 0 | 0 | 30,000 |
| Canolfannau Gwybodaeth | 143,060 | 5,570 | 0 | 148,630 |
| Llyn Tegid | -21,970 | 0 | 0 | -21,970 |
| Meysydd Parcio | -426,700 | 1,560 | 4,200 | -420,940 |
| Clirio Ysbwriel | 19,510 | 0 | 0 | 19,510 |
| Traffig a Chludiant | 5,000 | 0 | 0 | 5,000 |
| Cyfleusterau Ymwelwyr | 182,720 | 0 | 0 | 182,720 |
| | 3,323,957 | 40,923 | 7,200 | 3,372,080 |
| BALANSAU | 10,000 | 0 | -10,000 | 0 |
| CYFANSWM | 5,774,787 | 75,933 | 0 | 5,850,720 |
| Llog a Enillwyd | -23,000 | 0 | 0 | -23,000 |
| Refeniw yn Ariannu Gwariant Cyfalaf | 1,795,767 | -5,063 | -9,672 | 1,781,032 |
| Addasiad Taliadau Cyfalaf | -567,800 | 0 | 0 | -567,800 |
| | 6,979,754 | 70,870 | -9,672 | 7,040,952 |
| WEDI EI ARIANNU O | | | | |
| Grant Parc Cenedlaethol | 3,745,263 | | | 3,745,263 |
| Lefi Awdurdodau Cyfansoddol | 1,248,420 | | | 1,248,420 |
| Tros o'r cronfeydd wrth gefn | 1,986,071 | 70,870 | -9,672 | 2,047,269 |
| Cyllideb Net | 6,979,754 | | | 7,040,952 |

Atodiad 2

| Prosiect | Thema | Arian Grant (£000)* |
|---|-------|---------------------|
| Prynu 2 gerbyd trydan i ychwanegu at Fflyd Werdd APCE | D | 77 |
| Gwella effeithlonrwydd gwres ac inswleiddio mewnol Pencadlys APCE | D | 247.5 |
| Paneli Solar ar gyfer Pencadlys APCE | D | 165 |
| Cerbyd trydan ac unedau gwefru beic | D TG | 38.5 |
| Astudiaeth dichonoldeb Trac Beicio Llyn Tegid | TG | 33 |
| Llwybr Morfa Dyffryn | TG | 103 |
| Cerbydau Hybrid / Trydan Gwasanaeth Wardeinio | D | 55 |
| Astudiaeth dichonoldeb mynediad diogel Cwm Rhwyddfwr | TG | 16.5 |
| Gwella Isadeiledd a Dehongli Yr Ysgwrn | TG | 60 |
| Peiriannau Cynnal a Chadw Mynediad Cyhoeddus | TG | 18.8 |
| Ailosod Glanfa Llyn Nantlle | TG | 16.5 |
| Pryniant Tir Posib: Rheolaeth gynaliadwy ardal o fioamrywiaeth hanfodol | D | Hyd at/ 253 |
| Yr Ysgwrn: Pecyn o welliannau i'r isadeiledd ymwelwyr presennol | TC AC | 95 |
| Buddsoddiad TGC i alluogi staff i weithio o bell | AC | 95.5 |
| Gwaith Cadwraeth Coed yn ardaloedd coedwigoedd o nodwedd ar draws y PC (Conwy, y Bala, Dolgellau, Tywyn, Dinas Mawddwy + 2) | D | 30 |
| Covid, Rheolaeth Ymwelwyr: Buddsoddiad mewn lleoliadau allweddol - pwyntiau saniteiddio, arwyddion ychwanegol, offer gwarchod personol, astudiaeth parcio a thrafnidiaeth, 3 peiriant solar di-gyffwrdd talu ac arddangos i gefnogi cynhyrchu incwm | AC | 56.3 |
| Meithrinfa Goed: Darparu adnoddau lleol ar gyfer parhad bioamrywiaeth yn yr ardal | D | 65 |
| Gwaith atgyweirio allweddol ar lwybrau Yr Wyddfa a mannau arall wedi i ddifrod stormydd ddigwydd | ST | 116 |
| CYFANSWM | | 1,541.6 |
| <p>* Mae'r Swm yn cynnwys hyd at 10% o'r costau gweithredu. Thema: D - Datgarboneiddio TC - Twristiaeth Gynaliadwy AC - Adferiad Covid</p> | | |

| | |
|----------------------|--|
| CYFARFOD | Awdurdod |
| DYDDIAD | 9fed Rhagfyr 2020 |
| TEITL | DOGFENNAU YMGYNGHORI YN YMWNEUD Â CHYD BWYLLGORAU CORFFORAETHOL: 1) RHEOLIADAU AR GYFER SEFYDLU CYD BWYLLGORAU CORFFORAETHOL (CJCS) 2) RHEOLIADAU CYNLLUNIO GWLAD A THREF (CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL) (CYMRU) 2021: RHEOLIADAU YN SEFYDLU'R DREFN AR GYFER DARPARU CYNLLUNIAU DATBLYGU STRATEGOL A MATERION PERTHNASOL |
| ADRODDIAD GAN | Jonathan Cawley, Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir |
| PWRPAS | Caniatau i Aelodau roi sylwadau ar yr ymateb drafft a baratowyd gan swyddogion Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar ran y 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol ac sydd yn ymwneud â'r ddwy ddogfen ymgynghori uchod gan Lywodraeth Cymru. |

1. CEFNDIR

- Mae'r papur hwn yn ymwneud â dau bapur ymgynghori cydamserol gan Lywodraeth Cymru. Oherwydd eu natur strategol a maint yr amser a gafwyd i ymateb iddynt, gofynnir am sylwadau gan Aelodau cyn cyflwyno'r ymateb i Lywodraeth Cymru. Y dyddiad olaf yw 4ydd Ionawr 4th 2021.
- Mae 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru yn aml yn mabwysiadu agwedd gydlynol wrth ymateb i ddogfennau ymgynghori, yn enwedig y rhai sydd yn strategol eu natur. Y tro hwn, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (APCBB) sydd yn arwain y gwaith o baratoi ymateb drafft.
- Adeg llunio'r adroddiad hwn, nid oedd ymateb drafft APCBB wedi dod i law, er fy mod yn deall y bydd yn barod cyn cyfarfod yr Awdurdod. Byddaf yn anfon y ddau ymgynghoriad drafft yn unigol i Aelodau unwaith y derbyniad hwy. Caiff sylwadau ar y ddwy ddogfen gan Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod eu trosglwyddo i swyddogion APCBB ar gyfer yr ymateb terfynnol y cytunir arno.

5. Beth yw cynnwys y dogfennau ymgynghori?

- Mae Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a gyflwynwyd i'r Senedd ym mis Tachwedd 2019 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer creu – trwy gyfrwng rheoliadau –

cyfrwng ar gyfer cydweithredu rhanbarthol cyson rhwng prif gynghorau, sef Pwyllgorau Cyd Gorfforaethol neu CJC's. Nôd Llywodraeth Cymru yw bod y CJC's yn darparu trefniadau rhanbarthol cyson, cryf ac atebol ar gyfer cynllunio defnydd tir, cynllunio trafndiaeth strategol a datblygu economaidd. Rôl Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fydd ymdrin â'r mater cyntaf yn unig – sef cynllunio defnydd tir strategol (gyda chynllunio trafndiaeth strategol a datblygu economaidd yn faterion i'r Cynghorau Sir ymdrin â hwy). Yn benodol, bydd y gwaith cynllunio defnydd tir strategol yn golygu creu Cynlluniau Datblygu Strategol (sef cynlluniau datblygu rhanbarthol a fydd yn llunio rhan o'r cynllun defnydd tir statudol h.y. yn ddaearyddol byddant uwchlaw'r Cynlluniau Datblygu Lleol ond islaw Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru).

7. Mae'r Bil yn caniatáu hyblygrwydd o safbwynt y maes a gynrychiolir gan CJC, ac mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi gweithio gydag Arweinwyr Llywodraeth leol er mwyn deall beth yw eu hól troed dewisol ar gyfer y CJC's rhanbarthol a sefydlir o dan y bedair cyfres gyntaf hyn o Reoliadau Sefydliad (un ar gyfer pob un o'r 4 rhanbarth).
8. Fe ysgrifennodd Arweinwyr grŵp gwleidyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) at y Gweinidog ym mis Mawrth 2020 i egluro barn llywodraeth leol y dylai'r ôl troed ar gyfer y CJC's o fewn y Rheoliadau Sefydliad hyn fod wedi eu seilio ar ddaearyddiaeth y bargeinion dinasoedd a thŵf presennol. Felly, yn unol â dewis cyntaf llywodraeth leol, mae'r Rheoliadau Sefydliad wedi eu llunio i adlewyrchu'r cais hwn fel a ganlyn:

| Ardal CJC | Prif Gynghorau 'Cyfansoddol' | Awdurdodau Parciau Cenedlaethol* |
|------------------|---|---|
| Canolbarth | Cyngor Sir Ceredigion Cyngor Sir Powys | APC Bannau Brycheiniog |
| De Orllewin | Cyngor Sir Caerfyrddin Cyngor Bwrdeistref Sirol Glyn Nedd Port Talbot Cyngor Sir Penfro Cyngor Sir Abertawe | APC Bannau Brycheiniog APC Arfordir Sir Benfro |
| Gogledd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyngor Sir Dinbych Cyngor Sir Fflint Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ynys Môn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | APC Eryri |
| De Orllewin | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont-ar-Ogwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cyngor Dinas Caerdydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil Cyngor Sir Mynwy Cyngor Dinas Casnewydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg | APC Bannau Brycheiniog |

* Gan fod y Rheoliadau Sefydliad yn cynnwys elfennau perthnasol i gynllunio strategol, mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth y pwyllgor gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer y Parc Cenedlaethol hwnnw. Mae'r Parciau Cenedlaethol wedi eu cynnwys yma i ddangos eu bod yn aelodau.

9. Yn gyfredol, mae dwy ddogfen ymgynghori sydd yn berthnasol i CJC's, sef:
 - a. Rheoliadau ar gyfer sefydlu Cyd Bwyllgorau Corfforaethol (CJC's)
 - b. Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021: Rheoliadau sydd yn sefydlu'r drefn ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol a materion perthynol (Dyddiad olaf 4ydd Ionawr)

10. Rheoliadau ar gyfer sefydlu Cyd Bwyllgorau Corfforaethol (CJC's) (gweler y papur yn Atodiad A):

11. Mae'r ddogfen ymgynghori gyntaf yn gosod allan y trefniadau cyfansoddol a llywodraethol yn ogystal â dyletswyddau'r CJC - caiff y rhai hyn eu hegluro yn y Rheoliadau yn ymwneud â'u sefydlu. Tra bo Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn gosod allan beth fydd y Rheoliadau yn ei ddarparu er mwyn sefydlu CJC's yn effeithlon, nid yw'r rhoi manylion am y gweithrediadau penodol na'r modd y caiff ei reoli. Gwneir hyn trwy gyfrwng y Rheoliadau.
12. Mae Rhan 5 o'r Bil yn darparu ar gyfer dau ddull o sefydlu CJC's trwy gyfrwng Rheoliadau:
 - Trwy gymhelliad dau brif gyngor neu ragor. Gall dau brif gyngor neu ragor wneud cais am i'r Gweinidogion Cymreig lunio Rheoliadau ar gyfer sefydlu CJC yn eu hardal mewn perthynas ag unrhyw ddyletswyddau y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae'r Bil yn egluro sut i wneud hyn ac unrhyw amodau sydd eu hangen.
 - Trwy gymhelliad Gweinidogion Cymreig. Gall y Gweinidogion Cymreig sefydlu CJC i ymarfer gweithrediadau heb unrhyw gais gan brif gynghorau, ond mewn perthynas â gweithrediadau penodol neu feysydd penodol sydd wedi eu nodi ar flaen y Bil.
13. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â sefydlu CJC's drwy'r ail ddull sef trwy gymhelliad Gweinidogion Cymreig. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar y Rheoliadau drafft y cyfeirir atynt fel y Rheoliadau Sefydliad.

14. Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021 (gweler y papur yn Atodiad B):

15. Mae'r ail bapur ymgynghori yn ymgorffori cynnwys y ddeddfwriaeth israddol sydd ei hangen i sefydlu trefn ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol (SDPs) ledled Cymru gan Gyd Bwyllgorau Corfforaethol (CJC's) a materion perthynol. Mae hyn ychydig yn fwy gweithdrefnol ei natur ac yn cynnig bod cynhyrchu Cynlluniau Datblygu Strategol gan y CJC yn dilyn yn fras yr un broses â'n Cynllun Datblygu Lleol presennol.

16. Casgliad

17. Bwriedir i'r CJC's fod yn gyfrwng ar gyfer cydweithio rhanbarthol cyson. Nôd Llywodraeth Cymru yw iddynt ddarparu trefniadau rhanbarthol cyson, cryf ac atebol ar gyfer cynllunio defnydd tir strategol, cynllunio trafndiaeth strategol a datblygu economaidd. Bydd rôl yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cynnwys defnydd tir strategol yn unig, ac yn amlwg bydd yn rhan o CJC Gogledd Cymru ar y materion hyn, fydd yn cynnwys yn bennaf cyhyrchu Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth. Caiff yr ymateb drafft i'r papurau ymgynghori uchod eu hanfon ymlaen i Aelodau unwaith y byddant yn dod i law, a hynny cyn cyfarfod yr Awdurdod.

Argymhellion

Bod Aelodau yn darllen ac yn cyflwyno sylwadau ar yr ymateb drafft a baratowyd gan APC Bannau Brycheiniog ar ran y 3 Parc Cenedlaethol yng Nghymru (caiff yr adroddiad ei ddsbarthu ar wahân i'r adroddiad hwn ond cyn cyfarfod yr Awdurdod) ac yn ymwneud â'r ddau ymgynghoriad canlynol:

- a) Rheoliadau ar gyfer sefydlu Cyd Bwyllgorau Corfforaethol (CJCs) – dyddiad olaf 4ydd Ionawr 2021**
- b) Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021**



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Rheoliadau i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig
(CBCau)

Dyddiad cyhoeddi: 12 Hydref 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 4 Ionawr 2021

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

| | |
|--|---|
| Trosolwg | Cynigir sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau) drwy reoliadau er mwyn arfer nifer o swyddogaethau prif gynghorau. Hoffem gael eich barn am fanylion y rheoliadau i sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. |
| Sut i ymateb | Ymgynghoriad ysgrifenedig, electronig yw hwn. Gellir dod o hyd i gwestiynau mewn manau priodol ym mhob adran ac ar ddiwedd y ddogfen ymgynghori hon. Mae croeso ichi ddewis sut y byddwch yn ymateb, gallwch: gwblhau'r ffurflen ar-lein; lawrlwytho'r ffurflen a'i llenwi â llaw a'i phostio atom yn y cyfeiriad a ddarperir; neu ei hanfon drwy e-bost. |
| Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig | Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill. |
| Manylion cyswllt | Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: Is-adran Trawsnewid a Phartneriaethau Llywodraeth Leol Cyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: LGPartnerships@llyw.cymru |
| Hefyd ar gael yn Saesneg yn: | Gellir gweld y ddogfen ymgynghori hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn gov.wales/consultations . |

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth i chi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut y maent yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gellir comisiynu'r gwaith hwn i'w wneud gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau cyhoeddedig hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu ar brosesu data (o dan amgylchiadau penodol)
- i ofyn i'ch data gael eu dileu (o dan amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (o dan amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
[Gwefan ICO](#)

Cynnwys

| | |
|---|----|
| Rhagair gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol..... | 7 |
| ADRAN UN – Cyflwyniad | 9 |
| Beth yw Cyd-bwyllgorau Corfforedig? | 9 |
| Y cefndir..... | 9 |
| Y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)..... | 10 |
| Yr ymgynghoriad hwn..... | 11 |
| ADRAN DAU – Sut yr aethpwyd ati i lunio’r rheoliadau | 12 |
| Yr egwyddorion a ddilynwyd | 12 |
| Ymgysylltu â rhanddeiliaid a chydgyhyrchu | 12 |
| Dull o bennu ardal pob Cyd-bwyllgor Corfforedig | 13 |
| Cynnwys y Rheoliadau Sefydlu..... | 15 |
| Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol | 15 |
| ADRAN TRI – Trefniadau llywodraethu a threfniadau cyfansoddiadol Cyd-bwyllgorau Corfforedig.... | 16 |
| Cyfansoddiad..... | 16 |
| Aelodaeth | 16 |
| Trefniadau pleidleisio | 17 |
| Is-bwyllgorau | 18 |
| Rheolau sefydlog | 19 |
| Cod ymddygiad..... | 19 |
| Atebolrwydd aelodau | 19 |
| Craffu a llywodraethu..... | 19 |
| Pwerau ategol..... | 20 |
| ADRAN PEDWAR – Materion ariannol, cyllido a chyllidebol..... | 21 |
| ADRAN PUMP – Materion staffio a gweithlu ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig | 24 |
| Telerau ac amodau | 24 |
| Trosglwyddo Ymgymeriadau, Diogelu Cyflogaeth a Throsglwyddo Staff | 25 |
| Swyddogion Gweithredol | 25 |
| Rheolau Sefydlog | 26 |
| Undebau Llafur | 27 |
| ADRAN CHWECH – Y swyddogaethau sydd i’w harfer gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig | 28 |
| Cyflawni swyddogaethau | 29 |
| Y dull o drosglwyddo’r gallu i arfer y swyddogaethau hyn | 30 |
| ADRAN SAITH - Cyd-bwyllgorau Corfforedig a’u dyletswyddau fel Corff Cyhoeddus..... | 32 |
| ADRAN WYTH – Gweithredu | 33 |
| Canllawiau | 33 |
| Cyffredinol..... | 34 |
| ADRAN NAW – Dogfennau Ategol..... | 35 |

| | |
|--|----|
| Aseiad Effaith Rheoleiddiol..... | 35 |
| Aseiad Effaith Integredig..... | 35 |
| Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad | 37 |

Rhagair gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Bydd ein byd, ar ôl Covid-19, yn wahanol. Mae'r pandemig wedi gorfodi gwasanaethau cyhoeddus a phob lefel o lywodraeth yng Nghymru i wneud pethau'n wahanol. Er bod y pandemig Covid-19 wedi bod yn drychinebus ac yn niweidiol mewn nifer o ffyrdd, mae gweithwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol ledled Cymru wedi dangos arloesedd, creadigrwydd a hyblygrwydd arbennig a hoffem adeiladu ar hyn.

Mae cydweithredu wedi bod yn nodwedd allweddol yn yr ymateb i Covid-19 a bydd yn rhan allweddol o'n hadferiad hefyd.

Fel rhan o'r dull gweithredu hwn, hoffwn gydlynu trefniadau llywodraethu rhanbarthol a chael gwared ar rywfaint o'r cymhlethdod sydd ynghlwm â nhw – cryfhau atebolrwydd democrataidd lleol drwy sicrhau mai aelodau etholedig lleol sy'n gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd am wasanaethau llywodraeth leol, er lles dinasyddion a chymunedau.

Bydd y rheoliadau hyn yn sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, fel y darperir ar eu cyfer yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd.

Mae model y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn adeiladu ar y gorau sydd eisoes wedi'i gyflawni wrth ddatblygu trefniadau rhanbarthol mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae'n dysgu o brofiad mewn manau eraill yn y DU ac yn y byd ehangach. Rwyf yn benderfynol o ddiogelu a datblygu gallu awdurdodau lleol i ymgysylltu â chymunedau lleol a gweithio mor lleol ag sy'n bosibl. Rydym wedi dysgu o brofiad mai'r ffordd orau o amddiffyn ein gallu i weithredu'n lleol yw pan ellir ategu gweithredu lleol drwy weithredu rhanbarthol lle mae natur y gwasanaeth yn mynnu hyn a lle mae angen rhannu adnoddau prin.

Mae angen inni sicrhau bod gennym drefniadau rhanbarthol cyson, gwydn ac atebol i gyflawni'r gwaith o gynllunio defnydd tir yn strategol, cynllunio trafndiaeth yn strategol a datblygu economaidd. Roeddem yn cydweithio â'n partneriaid llywodraeth leol i roi'r dull gweithredu hwn ar waith cyn y pandemig Covid-19, ond nawr mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn chwilio am ffyrdd i helpu Cymru i adfer.

Nid yw cydweithredu yn rhywbeth newydd i lywodraeth leol. Mae prif gynghorau wedi bod yn cydweithredu'n effeithiol ar amrywiaeth o feysydd ers tro. Bydd nifer o'r dulliau cydweithredu hyn yn hawdd i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu mabwysiadu. Gydag eraill, mae angen dull gweithredu cyson mewn gwahanol rannau o Gymru a byddant yn parhau i ddefnyddio'r trefniadau llywodraethu presennol.

Fodd bynnag, bydd sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy'r rheoliadau hyn yn cynnig mwy o gydlyniaeth a llai o gymhlethdod o ran y trefniadau llywodraethu rhanbarthol ar gyfer arfer y tri maes swyddogaeth a gynigir. Bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cynnig cyfleoedd i symleiddio'r trefniadau cydweithredu presennol ac yn rhoi'r eglurder a'r cysondeb y mae prif gynghorau wedi bod yn gofyn amdanynt. Y nod yw lleihau cymhlethdod a dyblygu ymdrechion ac adnoddau. Rwy'n gobeithio y bydd sefydlu'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig hyn hefyd yn sbarduno'r gwaith o ddatblygu a gweithredu trefniadau cydweithredol ar draws llywodraeth leol, lle mae cynllunio a chyflawni rhanbarthol yn gwneud synnwyr, gan eu defnyddio fel ffordd o

gynyddu canlyniadau pobl Cymru i'r eithaf drwy gynnal atebolrwydd democrataidd lleol, lleihau cymhlethdod a defnyddio adnoddau yn y ffordd orau.

Mae Arweinwyr a swyddogion llywodraeth leol wedi cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu'r cynigion Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r rheoliadau hyn o'r dechrau ac rwyf wedi croesawu a gwerthfawrogi eu mewnbwn. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch am y gwaith ymgysylltu adeiladol sydd wedi llywio'r Bil a'r rheoliadau hyn. Rwy'n ymrwymedig i barhau i weithio gyda llywodraeth leol ar roi'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar waith a'u datblygu ymhellach, ac edrychaf ymlaen at glywed eich barn drwy'r broses ymgynghori hon fel y gallwn sicrhau ein bod yn gwneud hyn yn iawn.

Julie James AS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

ADRAN UN – Cyflwyniad

Beth yw Cyd-bwyllgorau Corfforedig?

Yn wahanol i strwythurau cyd-bwyllgor eraill sy'n bodoli mewn statud, bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrrff corfforedig ar wahân a all gyflogi staff, dal asedau a chyllidebau, ac ymgymryd â swyddogaethau. Pan gaiff Cyd-bwyllgor Corfforedig ei sefydlu, caiff swyddogaethau penodol eu breinio ynddo.

Bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rhoi i lywodraeth leol ddull mwy cyson o lywodraethu rhanbarthol, cynllunio a darparu gwasanaethau yn strategol; gan gynnig ffordd brif gynghorau gydweithredu a gweithio ar raddfa er mwyn cynllunio a chyflawni swyddogaethau strategol allweddol y bydd eu hangen i ymateb i'r pandemig Covid-19 diweddar ac adfer ohono. Bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn adeiladu ar yr ymddygiadau, yr ymrwymadau a'r cydberthnasau cydweithredol newydd a welwyd yn ystod y cyfnod hwn, gan helpu i ddatblygu'r gwaith o drawsnewid gweithio sefydliadol ymhellach a sicrhau'r datblygiad hwn. Bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn helpu i gydlynu'r modd y darperir gwasanaethau rheng flaen unigol yn y gymuned gyda'r camau cydweithredol a strategol sy'n ofynnol yn rhanbarthol er mwyn ysgogi adferiad, ailadeiladu ac ail-fuddsoddi mewn economïau lleol modern.

Y cefndir

Dechreuodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol drafod y cysyniad o Gyd-bwyllgorau Corfforedig ag Arweinwyr Llywodraeth leol drwy'r Gweithgor Llywodraeth Leol¹ (y Gweithgor) yn gynnar yn 2019. Roedd y Gweithgor hwn wedi'i sefydlu yn dilyn ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl² yn 2018. Amcan y Gweithgor oedd datblygu dyfodol cynaliadwy i lywodraeth leol a gwasanaethau lleol gan osgoi'r broses gynhwysfawr o uno prif gynghorau a oedd wedi'i hamlinellu yn y Papur Gwyrdd a'i gwrthwynebu gan lywodraeth leol.

Fel rhan o hyn, edrychodd y Gweithgor ar y trefniadau gweithio rhanbarthol presennol mewn llywodraeth leol a'r awydd am ragor o gydweithredu yn y dyfodol a'r blaenoriaethau mewn perthynas â hyn.

Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol argymhellion y Gweithgor³. Roedd yr argymhellion yn cwmpasu nifer o feysydd gan gynnwys gwasanaethau a rennir, uno gwirfoddol, pwerau a hyblygrwydd, amrywiaeth mewn llywodraeth leol, a'r agenda parch gan y naill at y llall.

Roedd un o'r argymhellion allweddol yn ymwneud â'r awydd cyffredin i greu dull cyson o weithio'n rhanbarthol a fyddai'n cadw atebolrwydd democrataidd lleol, yn sicrhau cyflawniad cyson ac yn symleiddio trefniadau cydweithredol; cysondeb o ran cyflawni; a symleiddio trefniadau cydweithredol:

¹ Crëwyd y Gweithgor Llywodraeth Leol i ddatblygu agenda ddiwygio a rennir er mwyn sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau a ddarperir yn lleol drwy strwythurau a phrosesau priodol o fewn fframwaith atebolrwydd democrataidd

² [Canlyniad yr Ymgynghoriad - Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl](#)

³ [Argymhellion y Gweithgor Llywodraeth Leol](#)

Y Gweithgor Llywodraeth Leol – Argymhelliad 3: Y dylai Gweinidogion Cymru gynnwys darpariaethau ym Mil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ar gyfer dull cyson o weithio'n rhanbarthol.

Er mwyn sicrhau bod yr argymhelliad hwn yn cael ei gyflawni, sefydlwyd Is-grŵp Llywodraeth Leol Cyngor Partneriaeth Cymru⁴ i arwain a goruchwyllo'r gwaith hwn.

Y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Roedd y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (y Bil) a gyflwynwyd gerbron y Senedd ym mis Tachwedd 2019 yn cynnwys (yn Rhan 5), fel ymateb i argymhellion y Gweithgor, ddarpariaethau i greu, drwy reoliadau, ddull ar gyfer cydweithredu rhanbarthol cyson rhwng prif gynghorau, sef Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae'r darpariaethau hefyd yn galluogi'r prif gynghorau cyfansoddol i wahodd partneriaid o sectorau eraill i gyfrannu at waith Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy broses o gyfethol aelodau.

Caiff y trefniadau cyfansoddiadol a'r trefniadau llywodraethu, ynghyd â swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, eu nodi yn y rheoliadau a fydd yn eu sefydlu. Mae'r Bil yn nodi'r hyn y bydd y rheoliadau'n darparu ar ei gyfer er mwyn sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn manylu ar swyddogaethau penodol Cyd-bwyllgor Corfforedig na'r ffordd y caiff ei lywodraethu. Gwneir hyn i gyd drwy'r rheoliadau.

Mae Rhan 5 o'r Bil yn darparu ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy'r rheoliadau gan ddilyn dau lwybr:

- ar gais dau brif gyngor neu fwy. Gall dau brif gyngor neu fwy wneud cais i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer eu hardaloedd mewn perthynas ag unrhyw rai o'r swyddogaethau maent yn eu harfer. Mae'r Bil yn nodi sut y dylid gwneud hyn ac unrhyw amodau angenrheidiol.
- ar gais Gweinidogion Cymru. Gall Gweinidogion Cymru sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig i arfer swyddogaethau heb gais gan brif gynghorau, ond dim ond mewn perthynas â swyddogaethau penodol neu feysydd swyddogaethol sydd wedi'u nodi yn y Bil.

Mae'r ymgynghoriad hwn mewn perthynas â sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy'r ail lwybr, hynny yw, ar gais Gweinidogion Cymru, mewn perthynas â'r swyddogaethau a nodir yn Adran 6. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar y rheoliadau drafft – y cyfeirir atynt fel y Rheoliadau Sefydlu o hyn ymlaen.

Mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi cadarnhau ei bwriad i gyflwyno rheoliadau i sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig cyntaf – sef un ar gyfer pob un o'r pedwar rhanbarth a ddisgrifir yn Adran Dau isod – erbyn mis Ebrill 2021. Mae'r Bil yn darparu bod yn rhaid ymgynghori cyn y gellir gwneud Rheoliadau Sefydlu ac y gellir ymgynghori cyn i'r Bil gychwyn. Felly, mae'r broses ymgynghori ffurfiol hon yn cael ei

⁴ Crëwyd Is-grŵp Llywodraeth Leol Cyngor Partneriaeth Cymru i ddatblygu rhaglen waith yn seiliedig ar argymhellion y Gweithgor Llywodraeth Leol a materion eraill a oedd yn ymwneud â diwygio llywodraeth leol

chynnal ochr yn ochr â hynt y Bil drwy'r Senedd a bydd yn ddarostyngedig i'r broses honno.

Yr ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar y Rheoliadau Sefydlu drafft a fydd yn creu pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig ledled Cymru i arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio datblygiadau strategol a chynllunio trafndiaeth rhanbarthol; byddant hefyd yn gallu gwneud pethau i hybu llesiant economaidd eu hardaloedd.

Y nod yw sicrhau bod y Rheoliadau Sefydlu hyn yn darparu ar gyfer agweddau craidd y broses o sefydlu a gweithredu'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig, a'u bod yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau penodol pob ardal. Felly mae'n bwysig cydnabod y gallai manylion y broses weithredu amrywio rhwng Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Ar ôl iddynt gael eu sefydlu, a lle bo'r prif gynghorau cyfansoddol yn dymuno iddynt wneud hynny, byddai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gallu arfer swyddogaethau eraill yn y dyfodol. Mae'n bwysig felly bod y Rheoliadau Sefydlu hyn yn darparu'r sylfaen briodol i gefnogi hyn. Byddai unrhyw gynnig i drosglwyddo swyddogaethau yn y dyfodol yn destun ymgynghoriad pellach ac unrhyw ddeddfwriaeth angenrheidiol ar yr adeg honno.

Mae'n bwysig nodi at ddiben yr ymgynghoriad hwn, er bod pedair cyfres ar wahân o Reoliadau Sefydlu, un ar gyfer pob Cyd-bwyllgor Corfforedig, mae cynnwys pob cyfres ar wahân yr un peth i raddau helaeth ac felly rydym yn ymgynghori ar y rheoliadau hynny fel un. Bydd unrhyw gyfeiriad at y Rheoliadau Sefydlu, oni nodir yn wahanol, yn cyfeirio at y pedair cyfres ddrafft o reoliadau. Yn yr un modd, mae'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Aseiad Effaith Integredig yn Adran 9, sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau, wedi cael eu drafftio fel dogfennau unigol sy'n ymwneud â'r pedair cyfres o Reoliadau Sefydlu.

Ynghyd â'r Rheoliadau Sefydlu ar gyfer pob Cyd-bwyllgor Corfforedig bydd cyfres o reoliadau a fydd yn berthnasol i'r holl Gyd-bwyllgorau Corfforedig, ar y cyfan, gan nodi manylion eu trefniadau llywodraethu a'u trefniadau gweinyddol a'r fframwaith deddfwriaethol y byddant yn gweithredu ynddo. Bydd angen rheoliadau o'r fath er mwyn cefnogi'r broses o roi'r Rheoliadau Sefydlu ar waith. Yn y papur ymgynghori hwn, lle y bo angen, cyfeirir at y rhain fel 'Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol'. Ein bwriad yw parhau i weithio gyda llywodraeth leol ar gynnwys y Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol.

Er nad yw'r Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol hyn yn ddarostyngedig i'r ymgynghoriad hwn, er mwyn rhoi'r Rheoliadau Sefydlu mewn cyd-destun, rydym wedi ceisio nodi drwy'r ddogfen yr hyn y gallai'r Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol hynny ddarparu ar ei gyfer, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, ni fwriedir i hyn fod yn ddisgrifiad diffiniol na chynhwysfawr o'r Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol.

ADRAN DAU – Sut yr aethpwyd ati i lunio'r rheoliadau

Yr egwyddorion a ddilynwyd

Mae dwy egwyddor allweddol yn sail i'r gwaith o ddatblygu'r Rheoliadau Sefydlu ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig:

- Dylid trin Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel aelod o'r 'teulu llywodraeth leol' a, lle y bo'n briodol, dylent fod yn ddarostyngedig, i raddau helaeth, i'r un pwerau a dyletswyddau â phrif gynghorau yn y ffordd maent yn gweithredu. Y bwriad yw osgoi, hyd y bo modd, gwneud i Gyd-bwyllgorau Corfforedig wneud pethau mewn ffordd a fyddai'n anghyfarwydd i'r rhai mewn llywodraeth leol neu greu gweithdrefnau, rhwymedigaethau, pwerau ac ati, sy'n newydd ac anghyfarwydd a allai gynyddu'r baich gweinyddol.
- Aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ei hun ddylai benderfynu ar fanylion y ffordd y bydd yn gweithredu'n ymarferol. Bydd yr hyblygrwydd hwn yn galluogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig i amrywio rhwng ardaloedd daearyddol er mwyn diwallu anghenion gwahanol a chyflawni uchelgeisiau gwahanol eu rhanbarth.

Cwestiwn Un yr Ymgynghoriad:

a) Beth yw eich barn ynghylch a ddylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i'r un pwerau a dyletswyddau yn fras â phrif gynghorau?

a) A ydych yn cytuno y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig gael yr un fframwaith llywodraethu a threfniadau gweinyddol, yn fras, â phrif gyngor, cyn belled â bod hyn yn gymesur? Nodwch eich rhesymau.

b) A ydych yn cytuno y dylai aelodau o Gyd-bwyllgorau Corfforedig gael disgrisiwn priodol o ran manylion y trefniadau cyfansoddiadol a gweithredol? Nodwch eich rhesymau.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid a chydgyhyrchu

Mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi cynnal trafodaethau helaeth ynghylch y cynigion Cyd-bwyllgorau Corfforedig ag Arweinwyr Llywodraeth leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a rhanddeiliaid ehangach sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd y bydd datblygu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn effeithio arnynt. Drwy gyd-ddatblygu'r Rheoliadau Sefydlu, ac unrhyw Reoliadau Cymhwysio Cyffredinol cysylltiedig, bwriedir sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn cyflawni'r canlyniadau arfaethedig sef symleiddio strwythurau llywodraethu a sicrhau eu bod yn gyson.

Ymysg y mecanweithiau a ddefnyddiwyd ar gyfer ymgysylltu gwleidyddol roedd:

- Y Gweithgor Llywodraeth Leol
- Cyngor Partneriaeth Cymru
- Is-grŵp Llywodraeth Leol Cyngor Partneriaeth Cymru
- Digwyddiadau CLILC gan gynnwys Bwrdd Gweithredol CLILC, cyfarfodydd Cyngor CLILC, cyfarfodydd rheolaidd rhwng Gweinidogion â CLILC a chyfarfodydd â nifer o Arweinwyr pleidiau gwleidyddol CLILC

- Cyfarfodydd unigol ag Arweinwyr prif gynghorau
- Arweinwyr prif gynghorau mewn grwpiau rhanbarthol

Mae'r Gweinidog a swyddogion hefyd wedi ymgysylltu â Phrif Weithredwyr drwy Gymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE).

Yn ogystal ag ymgysylltu â Phrif Weithredwyr ac ar lefel wleidyddol, mae swyddogion hefyd wedi bod yn cydweithio i gyd-ddatblygu'r manylion sydd wedi llywio'r rheoliadau hyn. Mae gwaith ymgysylltu o'r fath wedi bod yn fuddiol ac wedi'i groesawu gan Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol er mwyn sicrhau bod y rheoliadau'n diwallu anghenion prif gynghorau, yn ychwanegu gwerth ac nad ydynt yn torri ar draws trefniadau eraill yn anfwriadol.

Rydym wedi ymgysylltu'n weithredol â'r Grŵp Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol mewn perthynas â chyd-ddatblygu rheoliadau sy'n ymwneud â materion llywodraethu, archwilio, safonau a chraffu Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Mae Cymdeithas Trysoryddion Cymru wedi bod yr un mor gysylltiedig â'r gwaith o ystyried manylion cyfundrefnau ariannol a chyllido Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Mae swyddogion llywodraeth leol a CLILC hefyd wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â swyddogion Llywodraeth Cymru ar y swyddogaethau a gaiff eu trosglwyddo i Gyd-bwyllgor Corfforedig. Mae cyfleoedd a goblygiadau'r model Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi cael eu trafod yn fanwl er mwyn helpu i gyd-ddatblygu'r Rheoliadau Sefydlu ac unrhyw Reoliadau Cymhwysio Cyffredinol.

O fis Mawrth 2020 arafodd y pandemig Covid-19 y gwaith ymgysylltu hwn oherwydd blaenoriaethau oedd â mwy o frys iddynt i gefnogi llywodraeth leol i gynllunio a darparu gwasanaethau hanfodol, yn enwedig ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Gwnaethom ailddechrau ymgysylltu â llywodraeth leol ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig ym mis Gorffennaf gydag Arweinwyr, Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE), CLILC a swyddogion llywodraeth leol, gan gynnwys arweinwyr y Grŵp Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol a Chymdeithas Trysoryddion Cymru a hefyd arbenigwyr swyddogaeth-benodol mewn meysydd megis trafndiaeth a chynllunio.

Mae Is-grŵp Llywodraeth Leol Cyngor Partneriaeth Cymru wedi goruchwylio'r broses gyfan, gan ddarparu perchenogaeth ar y cyd rhwng Gweinidogion a llywodraeth leol.

Dull o bennu ardal pob Cyd-bwyllgor Corfforedig

Mae'r Bil yn caniatáu hyblygrwydd o ran yr ardal y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ei chwmpasu, ac mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi gweithio gydag Arweinwyr llywodraeth leol i ddeall y patrwm daearyddol yr hoffent ei weld ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig rhanbarthol a gaiff eu rhoi ar waith o dan y pedair cyfres gyntaf hyn o Reoliadau Sefydlu. Roedd yn bwysig cytuno ar y patrwm hwn â llywodraeth leol er mwyn darparu llinell sylfaen gytunedig ar gyfer gweithio rhanbarthol y gallwn adeiladu arni gyda'n gilydd yn y dyfodol.

Ysgrifennodd Arweinwyr pleidiau gwleidyddol CLILC at y Gweinidog ym mis Mawrth 2020 i nodi barn llywodraeth leol y dylaipatrwm Cyd-bwyllgorau Corfforedig o fewn y Rheoliadau Sefydlu hyn fod yn seiliedig ar ddaearyddiaeth y bargeinion dinesig a thwf presennol.

Felly, yn unol â'r ffafriaeth a fynegwyd gan lywodraeth leol, mae'r Rheoliadau Sefydlu wedi cael eu llunio i adlewyrchu'r cais hwn fel a ganlyn:

| Ardal CBC | Prif Gyngorau Cyfansoddol | Awdurdodau Parciau Cenedlaethol* |
|------------------|---|---|
| Y Canolbarth | Cyngor Sir Ceredigion Cyngor Sir Powys | Bannau Brycheiniog |
| Y De-orllewin | Cyngor Sir Caerfyrddin Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot Cyngor Sir Penfro Cyngor Sir Abertawe | Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro |
| Y Gogledd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir y Fflint Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ynys Môn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Eryri |
| Y De-ddwyrain | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cyngor Caerdydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Cyngor Sir Fynwy Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd (a elwir gan amlaf yn Gyngor Dinas Casnewydd) Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg | Bannau Brycheiniog |

* Gan fod y Rheoliadau Sefydlu yn cynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud â Chynllunio Strategol, mae'r rheoliadau yn darparu y dylai aelodaeth y pwyllgor gynnwys cynrychiolaeth o Awdurdod Parc Cenedlaethol y Parc Cenedlaethol hwnnw. Mae'r Parciau Cenedlaethol wedi cael eu cynnwys yma er mwyn dangos yr aelodaeth hon.

Cwestiwn Dau yr Ymgynghoriad:

Mae Arweinwyr llywodraeth leol wedi cytuno mai'r ardaloedd hyn yw'r rhai mwyaf priodol ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig er mwyn adlewyrchu'r swyddogaethau a roddir iddynt gan y Rheoliadau Sefydlu hyn. A oes gennych unrhyw sylwadau neu arsylwadau am ardaloedd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyn mewn perthynas â'u swyddogaethau neu ddatblygiad Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y dyfodol?

Cynnwys y Rheoliadau Sefydlu

Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn cwmpasu:

- Y prif drefniadau llywodraethu a chyfansoddiadol
- Materion ariannol, cyllido a chyllidebol
- Darpariaethau ar gyfer staffio a gweithlu
- Y swyddogaethau a gaiff eu harfer gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Fodd bynnag, gan y gallai'r meysydd hyn orgyffwrdd i ryw raddau, nodir na fydd y rheoliadau yn adlewyrchu'r penawdau hyn yn uniongyrchol. Serch hynny, at ddiben yr ymgynghoriad ar y Rheoliadau Sefydlu, mae'r ymgynghoriad wedi cael ei osod yn erbyn y pedwar pennawd eang canlynol.

Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, cynigir y bydd Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol i gyd-fynd â'r Rheoliadau Sefydlu a'u cefnogi. Bydd cynnwys y rheoliadau hynny yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn a thrafodaethau parhaus â llywodraeth leol. Yn yr un modd â'r Rheoliadau Sefydlu, bydd yr egwyddorion allweddol yn Adran Dau yn sail i'r Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol, yn enwedig awydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gael eu trin fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol'.

Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn nodi *beth* y gall pob Cyd-bwyllgor Corfforedig ei wneud a rhai o'r agweddau allweddol ar eu trefniadau llywodraethu, ariannol a staffio. Bydd y Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol yn ymdrin â manylion *sut* y byddant yn gweithio, a ble a sut y bydd deddfwriaeth llywodraeth leol bresennol yn gymwys iddynt.

Cwestiwn Tri yr Ymgynghoriad:

- a) A ydych yn cytuno â'r dull o ddatblygu'r rheoliadau ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel yr amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn? Nodwch eich rhesymau.***
- b) Rydym wedi nodi drwy gydol y ddogfen hon yr hyn sy'n debygol o gael ei gynnwys yn y Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn. Er nad y Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol yw pwnc yr ymgynghoriad hwn, er mwyn llywio eu datblygiad a oes gennych unrhyw farn am unrhyw beth arall a ddylai gael ei gwmpasu?***

ADRAN TRI – Trefniadau llywodraethu a threfniadau cyfansoddiadol Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn darparu'r strwythur cyfansoddiadol craidd i alluogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i sefydlu ei hun. Bydd angen i'r strwythur hwn gael ei ategu gan fanylion pellach yn y Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol, er enghraifft mewn unrhyw gymhwysiad arfaethedig (gydag addasiad neu hebdo) o ddeddfwriaeth llywodraeth leol berthnasol.

Cyfansoddiad

Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn nodi y bydd pob Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cynnwys nifer o brif gynghorau ac y bydd ardaloedd y prif gynghorau gyda'i gilydd yn ffurfio ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig (ardaloedd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a nodwyd yn Adran Dau). Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn darparu y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael ei redeg gan bwyllgor o'i aelodau ac mai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau a gaiff eu harfer ganddo a gwneud y penderfyniadau angenrheidiol er mwyn cyflawni'r swyddogaethau hynny. Bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn atebol i'w brif gynghorau cyfansoddiadol. Bydd ei aelodau'n adrodd yn ôl i'r prif gynghorau hynny a byddant yn ymateb i gwestiynau a chraffu. Fodd bynnag, bydd gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig bwerau wedi'u dirprwyo iddo a bydd yn gwneud penderfyniadau amserol heb fod angen i'w brif gynghorau cyfansoddiadol gadarnhau hynny.

Aelodaeth

Yn unol â gofynion Rhan 5 o'r Bil, a thrafodaethau blaenorol ac ymgynghoriad â llywodraeth leol, mae'r Rheoliadau Sefydlu yn darparu y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cynnwys Arweinwyr (a ddiffinnir yn y rheoliadau fel prif aelodau gweithrediaethau) y cynghorau cyfansoddiadol. Bydd pob aelod yn aelod o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig nes y daw ei gyfnod fel Arweinydd y cyngor cyfansoddiadol i ben.

Bydd yr Arweinwyr yn penderfynu a fydd cynrychiolwyr ychwanegol o'u cynghorau cyfansoddiadol neu sefydliadau eraill yn cael gwahoddiad i fod yn aelodau o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae'r Rheoliadau Sefydlu felly'n rhoi'r hyblygrwydd i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gyfethol aelodau o'r fath i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fel y mae'n pennu sy'n angenrheidiol ac yn briodol i arfer ei swyddogaethau'n effeithiol. Bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gallu pennu / cytuno ar delerau aelodaeth unrhyw aelod cyfetholedig – e.e. hawliau pleidleisio, rôl, cyfraniad at gyllid ac ati.

Lle bydd y dasg o baratoi Cynllun Datblygu Strategol yn un o swyddogaethau Cyd-bwyllgor Corfforedig, ac os bydd unrhyw ran o Barc Cenedlaethol o fewn ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig, rhaid i'r rheoliadau ddarparu bod aelodaeth y pwyllgor yn cynnwys cynrychiolaeth o Awdurdod Parc Cenedlaethol y Parc Cenedlaethol hwnnw. Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn cynnwys rhoi swyddogaethau'r Cynllun Datblygu Strategol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a gaiff eu sefydlu. Mae'r Rheoliadau Sefydlu felly'n darparu y dylai aelodaeth pob un o'r pedwar Cyd-bwyllgor gynnwys cynrychiolydd o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol perthnasol.

Cyfrifoldeb yr Awdurdod Parc Cenedlaethol perthnasol (neu'r awdurdodau yn achos Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru) fydd enwebu'r cynrychiolydd priodol o blith Cadeirydd neu Is-gadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Gadeirydd

Pwyllgor Cynllunio'r Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae aelodaeth yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, fel y nodir yn y Rheoliadau Sefydlu, wedi'i rhagnodi (ac felly'n gyfyngedig) i arfer swyddogaethau Cynllun Datblygu Strategol y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn unig. Fodd bynnag, gall Cyd-bwyllgor Corfforedig benderfynu cyfethol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, o dan ba delerau bynnag fel y gwêl yn briodol, er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni swyddogaethau eraill os bydd yn dymuno gwneud hynny.

Cwestiwn Pedwar yr Ymgynghoriad:

- a) A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig o bennu aelodaeth Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys cyfethol aelodau ychwanegol? Nodwch eich rhesymau.**
- b) Beth yw eich barn am y rôl a gynigir ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, fel y disgrifir uchod?**

Cynigir y bydd y Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol yn gwahardd staff Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ffurfiol rhag bod yn aelod o Gyd-bwyllgor Corfforedig, un o'i brif gynghorau nac Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae'r dull gwahardd hwn yn gyson â'r rhai sy'n ymwneud â gwahardd staff prif gynghorau mewn perthynas ag aelodaeth prif gynghorau.

Trefniadau pleidleisio

Caiff Cyd-bwyllgor Corfforedig ei sefydlu ar sail 'un bleidlais fesul aelod'. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau Sefydlu hefyd yn darparu y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig, ar ôl iddo gael ei sefydlu, yn gallu mabwysiadu gweithdrefnau pleidleisio amgen os bydd yn dymuno gwneud hynny.

Wrth ddatblygu'r Rheoliadau Sefydlu, ystyriwyd a ddylid cael lleiafswm neu uchafswm o aelodau (gan gynnwys aelodau cyfetholedig) ar Gyd-bwyllgor Corfforedig. Er mwyn sicrhau bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig mor hyblyg â phosibl, nid ystyriwyd y byddai hyn yn briodol. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau Sefydlu yn darparu bod Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi'i gyfyngu o ran nifer yr aelodau cyfetholedig sydd â phleidleisiau, ond dim ond i'r graddau na chaiff nifer y pleidleisiau y gall aelodau cyfetholedig eu bwrw fod yn uwch na nifer y pleidleisiau a fwrir gan aelodau'r cyngor neu, mewn perthynas â swyddogaethau cynllunio strategol, aelodau'r cyngor ac aelod(au) y Parc Cenedlaethol.

Mae'r Rheoliadau Sefydlu hefyd yn darparu y dylid cael cworwm o ddim llai na 70% o'r aelodau sydd â hawl i bleidleisio. 25% yw'r cworwm ar gyfer prif gynghorau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, wrth ystyried cworwm ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig, teimlwyd y dylid ei osod ar lefel ddigon uchel er mwyn cydbwysu'r angen i'r Cyd-bwyllgor allu arfer ei swyddogaethau yn effeithiol a'r angen i sicrhau bod penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cynrychioli mwyafrif yr aelodau sydd â hawl i bleidleisio. Bydd hyn yn sicrhau atebolrwydd democrataidd yr holl aelodau sydd â hawl i bleidleisio.

Cwestiwn Pump yr Ymgynghoriad:

- a) Beth yw eich barn am y dull arfaethedig o 'un bleidlais fesul aelod' a'r hyblygrwydd i Gyd-bwyllgorau Corfforedig fabwysiadu gweithdrefnau pleidleisio amgen?**
- b) Beth yw eich barn am y cworwm arfaethedig ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig?**
- c) Beth yw eich barn am y dull arfaethedig ar gyfer hawliau pleidleisio aelodau cyfetholedig o Gyd-bwyllgor Corfforedig?**

Is-bwyllgorau

Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn darparu y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gallu sefydlu is-bwyllgorau i'w gefnogi i arfer ei swyddogaethau os bydd yn dymuno gwneud hynny.

Mater i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd penderfynu a yw'n dymuno cael is-bwyllgorau a phwy fydd yn eistedd arnynt. Fodd bynnag, efallai y bydd yn rhesymol disgwyl (er nad yw'n ofynnol) i Gyd-bwyllgor Corfforedig gael is-bwyllgor ar gyfer pob un o'i brif swyddogaethau ac y gallai'r is-bwyllgorau hyn ymgysylltu'n eang a chynnwys amrywiaeth o randdeiliaid perthnasol.

Gan gadw hyn mewn cof, bydd yn bosibl i is-bwyllgorau Cyd-bwyllgor Corfforedig gynnwys aelodau o'r prif gynghorau cyfansoddol heblaw'r rhai sy'n aelodau o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ei hun – er enghraifft, aelod perthnasol neu ddeiliad portffolio perthnasol o weithrediaeth y prif gyngor – er y dylai fod yn bosibl i hyn ddigwydd, yn enwedig, er enghraifft, pan fo'r Arweinydd yn aelod perthnasol hefyd.

Gellir gwahodd/cyfethol sefydliadau partner eraill i fod yn aelodau o is-bwyllgorau os bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dymuno gwneud hynny. Eto, mater i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd penderfynu a chytuno ar y partneriaid a gaiff eu cyfethol.

Cwestiwn Chwech yr Ymgynghoriad:

- a) Beth yw eich barn am alluogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gyfethol aelodau eraill a/neu benodi pobl i eistedd ar is-bwyllgorau?**

Bydd canllawiau statudol (a gyhoeddir o dan ran 5 o'r Bil) yn rhoi rhagor o gyngor i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ar ystyried cyfranogiad ehangach partneriaid yn eu gwaith. Y bwriad, fel yr amlinellir yn adran saith, yw i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn gymwys i Gyd-bwyllgorau Corfforedig fel y maent i'w cynghorau cyfansoddol ac felly bydd yn arbennig o bwysig ystyried y ffyrdd o weithio mewn perthynas â chydweithredu, cyfranogiad a defnyddio dull gweithredu integredig.

Cwestiwn Saith yr Ymgynghoriad:

- a) Ydych chi'n cytuno y byddai'r dull o gyfethol aelodau yn golygu bod modd cael mwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid yng ngwaith Cyd-bwyllgor Corfforedig?**
- b) Beth allai fod ei angen i gefnogi aelodau Cyd-bwyllgor Corfforedig i gynnwys ac ymgysylltu â rhanddeiliaid priodol yn eu gwaith?**

Rheolau sefydlog

Cynigir y bydd y Rheoliadau Sefydlu yn ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig wneud rheolau sefydlog ar gyfer rheoleiddio ei drafodion a'i fusnes. Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn cynnwys rhai gofynion craidd ar gyfer rheolau sefydlog, er enghraifft rheoleiddio gweithdrefnau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, byddem yn disgwyl y gallai unrhyw fanylion pellach o ran yr hyn y byddai'n rhaid i'r rheolau sefydlog ddarparu ar ei gyfer gael eu nodi yn y Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol, er enghraifft prosesau penodi staff neu ffyrdd o ddelio â materion camymddwyn.

Cod ymddygiad

Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig fabwysiadu cod ymddygiad ar gyfer ei aelodau a'i staff. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, gellir darparu ar gyfer manylion cynnwys cod o'r fath yn y Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn awdurdodau perthnasol at ddibenion Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, a fydd yn dod â nhw o fewn y fframwaith moesegol ar gyfer llywodraeth leol y mae'r Ddeddf yn ei sefydlu. Byddai hyn hefyd yn eu rhoi o fewn cwrmpas Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Cwestiwn Wyth yr Ymgynghoriad:

- a) A ydych yn cytuno y dylai aelodau a staff Cyd-bwyllgor Corfforedig fod yn ddarostyngedig i God Ymddygiad ac y dylai'r cod fod yn debyg i'r hyn a geir mewn Prif Gynghorau? Nodwch eich rhesymau.**
- b) Beth yw eich barn am fabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau cyfetholedig?**
- c) A ddylai pob aelod cyfetholedig fod yn ddarostyngedig i'r cod, h.y. y rhai sydd â'r hawl i bleidleisio a'r rhai nad oes ganddynt hawl i bleidleisio?**

Atebolrwydd aelodau

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gorff corfforedig yn ei rinwedd ei hun a bydd yr aelodau yn gwneud penderfyniadau ar swyddogaethau sy'n perthyn iddyn nhw yn unig. Yng ngoleuni hyn, os bydd hawliad neu achos cyfreithiol, rydym o'r farn y byddai'n amhriodol i atebolrwydd gael ei neilltuo/dosrannu i bob cyngor cyfansoddol. Felly dylai fod yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig indemnio ei aelodau (cael ei indemniad ei hun) ar gyfer y penderfyniadau a wneir ganddo. Y Cyd-bwyllgor Corfforedig ddylai fod yn atebol, yn hytrach nag aelodau unigol, cyflogeion neu bobl eraill sy'n cyflawni swyddogaethau ar ei ran. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, mae'n debygol y caiff materion o'r fath eu cynnwys yn y Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol.

Craffu a llywodraethu

Wrth gyflwyno'r cynigion ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ystyrir ei bod yn bwysig bod strwythur a dull gweithredu Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ceisio cynnal a chefnogi atebolrwydd democrataidd llywodraeth leol.

Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn darparu ei bod yn ofynnol i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig roi trefniadau craffu priodol ar waith. Dylai trefniadau o'r fath fod yn ôl disgrisiwn y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Bydd y Rheoliadau Sefydlu hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig gael Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Drwy'r Rheoliadau Cymhwys Cyffredinol, ac yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, bydd yn angenrheidiol sicrhau bod gan unrhyw bwyllgor craffu y pwerau a'r camau diogelu priodol, fel y nodir yn adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000; a hefyd y gofynion perthnasol i gymryd i ystyriaeth farn y cyhoedd a dyletswydd ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig i ymateb, er enghraifft adran 21B o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac adran 62 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Credwn hefyd y dylai'r Rheoliadau Cymhwys Cyffredinol gynnwys darpariaeth fel nad yw unrhyw bwyllgor craffu yn cynnwys aelod o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (nac un o'i is-bwyllgorau), y gallai gynnwys aelodau (gan gynnwys aelodau anweithredol) o'r prif gynghorau cyfansoddol, y bydd pwyllgorau craffu yn gallu cael cyngor annibynnol gan arbenigwyr ac y dylai aelodaeth geisio ystyried cydbwysedd gwleidyddol y prif gynghorau cyfansoddol.

Yn ogystal â chael trefniadau craffu, credwn y byddai'n briodol i waith Cyd-bwyllgor Corfforedig gael ei oruchwylio'n fwy cyffredinol. Mae Adran Pedwar isod, er enghraifft, yn cynnwys materion sy'n ymwneud â Chyd-bwyllgorau Cyffredinol a'r Archwilydd Cyffredinol.

Hefyd, efallai y byddai'n briodol i Gyd-bwyllgor Corfforedig gael yr un gyfundrefn perfformiad a llywodraethu â phrif gynghorau, fel y nodir yn Rhan 6 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), er enghraifft drwy hunanasesu ei berfformiad yn flynyddol a cheisio safbwyntiau allanol ar ei berfformiad drwy banel o gymheiriaid. Byddai hyn yn cael ei drafod yn y Rheoliadau Cymhwys Cyffredinol.

Pwerau ategol

Er mwyn cyd-fynd â'r swyddogaethau penodol a drosglwyddir i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, mae'r Rheoliadau Sefydlu hefyd yn rhoi'r pŵer iddo wneud unrhyw beth i hwyluso'r gwaith o arfer ei swyddogaethau, neu unrhyw beth sy'n ffafriol iddynt neu'n gysylltiedig â nhw.

ADRAN PEDWAR – Materion ariannol, cyllido a chyllidebol

Mae'r dull o ymdrin â materion ariannol, cyllido a chyllidebol yn y rheoliadau wedi cael ei ddatblygu i adlewyrchu trafodaethau ag Is-grŵp Cyllid y Cyngor Partneriaeth a'r Is-grŵp Dosbarthu, gyda Chymdeithas Trysoryddion Cymru a chynrychiolwyr o'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

Datblygwyd y rheoliadau hyn yn unol â'r Canllaw Arfer Da ar Gyllid Neilltuedig ar gyfer Llywodraeth Leol a'r canllawiau yn y Llawlyfr Deddfwriaeth ar asesu (a gwneud darpariaeth ar gyfer) goblygiadau ariannol deddfwriaeth sylfaenol.

Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn gwneud darpariaethau sy'n ymwneud â chyllido cyd-bwyllgor corfforedig. Yn fras, mae'r Rheoliadau Sefydlu yn gwneud darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig gyfrifo ei ofyniad cyllidebol, nodi sut y bodlonir y gofyniad hwnnw a byddai'n ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gadw cyfrifon cywir.

Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig gyfrifo ei ofynion cyllido ar gyfer pob blwyddyn ariannol i gynnwys y symiau sy'n ofynnol er mwyn arfer ei swyddogaethau; yn ogystal ag ar gyfer argyfyngau, cronfeydd wrth gefn a rhwymedigaethau sy'n weddill. Y bwriad yw bod yn rhaid i Gyd-bwyllgor Corfforedig gael ei gyllido'n ddigonol i gyflawni ei swyddogaethau/gweithgareddau penodedig, gan gynnwys gwariant sy'n gysylltiedig â chostau gweinyddol a gorbenion.

Wrth gyfrifo ei ofynion cyllido mae'r Rheoliadau Sefydlu yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ystyried unrhyw symiau y mae'n amcangyfrif y bydd yn eu cael gan ffynonellau heblaw ei gynghorau cyfansoddol a'i aelodau Parc Cenedlaethol. Os bydd y gwariant amcangyfrifedig ar gyfer pob blwyddyn flynyddol yn fwy na'r cyllid a geir gan ffynonellau eraill, bydd hyn yn ffurfio gofyniad cyllidebol y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gytuno ar ei ofyniad cyllidebol yn flynyddol erbyn 14 Chwefror cyn y cyfnod ariannol perthnasol. Mae hyn er mwyn cydlynu â phroses gosod cyllideb y prif gyngor.

Yn ymarferol, bydd y prif gynghorau cyfansoddol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ddarparu gofyniad cyllidebol dangosol neu dros dro er mwyn hwyluso eu paratodau cyllidebol eu hunain. Er na ddarperir ar gyfer hyn yn y rheoliadau, gall y prif gynghorau cyfansoddol ofyn am hwn erbyn 30 Tachwedd cyn y cyfnod ariannol perthnasol (yn unol ag arferion presennol) a dylai Cyd-bwyllgor Corfforedig fod yn barod ar gyfer hyn.

Fodd bynnag, ni fydd yn bosibl i Gyd-bwyllgor Corfforedig osod ei gyllideb yn y ffordd hon yn ystod ei flwyddyn weithredu gyntaf. Mae'n bosibl hefyd y bydd yn anodd i Gyd-bwyllgor Corfforedig ganfod beth fydd ei gyllideb gychwynnol gan y bydd yn dibynnu ar ei ddyhead i arfer ei swyddogaethau yn ystod ei flwyddyn gyntaf. Cynigir felly y dylai'r Rheoliadau Sefydlu ddarparu amserlen fwy rhesymol i osod y gofyniad cyllidebol ar gyfer y flwyddyn gyntaf, hynny yw, o fewn deufis ar ôl y cyfarfod cyntaf.

Nid yw'r Rheoliadau Sefydlu yn rhagnodi unrhyw fformiwla fel sail ar gyfer cyllido Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn darparu y bydd y Cyd-

bwyllgor Corfforedig yn penderfynu sut y caiff y gofyniad cyllidebol ei fodloni gan y prif gynghorau cyfansoddol (neu gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r prif gynghorau cyfansoddol yn achos swyddogaethau cynllunio strategol).

Os na all y cynghorau cyfansoddol ac aelod(au) Awdurdod y Parc Cenedlaethol gytuno ar y swm sy'n daladwy, mae'r Rheoliadau Sefydlu yn darparu y bydd y symiau sy'n daladwy gan y prif gynghorau cyfansoddol (a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol) yn cael eu pennu yn ôl cyfarwyddyd Gweinidogion Cymru.

Cwestiwn Naw yr Ymgynghoriad

- a) Beth yw eich barn am y dull arfaethedig o bennu gofynion cyllidebol Cyd-bwyllgor Corfforedig?**
- b) Beth yw eich barn am yr amserlenni a gynigir (gan gynnwys ar gyfer y flwyddyn gyntaf) ar gyfer pennu'r gofynion cyllidebol a fydd yn daladwy gan y prif gynghorau cyfansoddol?**

Y Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd y corff atebol ar gyfer y cyllid a ddarperir gan brif gynghorau cyfansoddol a/neu gyllid a geir yn uniongyrchol o ffrydiau ariannu eraill.

Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn galluogi Cyd-bwyllgor Corfforedig i dalu tuag at wariant yr aethpwyd iddo neu yr eir iddo mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau fel y pennir ganddo. Gall Cyd-bwyllgor Corfforedig godi ffioedd sy'n ymwneud â'i swyddogaethau penodedig hefyd. Mae'r rheoliadau hefyd yn galluogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig i ddarparu cymorth ar ffurf grant neu gyfraniadau, gan gynnwys cymorth ad-daladwy, er mwyn cefnogi swyddogaethau a arferir ganddynt.

Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gadw cofnodion cyfrifyddu cywir a pharatoi cyfrifon blynyddol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru. Cynigir y bydd y cyfarwyddiadau hyn a'r Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol yn sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i d dulliau gwrthbwysio arferol prif gynghorau – gan gynnwys y dyletswyddau a'r rheolau ariannol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau fod yn ddarbodous wrth wario, sy'n cael eu goruchwyllo a'u gwirio gan Brif Swyddog Cyllid Cyfrifol, ac i sicrhau tryloywder a chyhoeddi cyfrifon blynyddol. Er enghraifft, gallai'r Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig ddilyn arferion (cyfrifyddu) priodol fel y rhai a nodir yng Nghod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig, fel y'i diwygir neu y'i hailgyhoeddir o bryd i'w gilydd.

Caiff y cyllid gan brif gynghorau cyfansoddol ei gadw a'i reoli gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Cynigir y bydd y Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig reoli'r cyllid o dan yr un trefniadau rheoli ariannol â chyrrff llywodraeth leol yng Nghymru. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, bod yn ddarostyngedig i drefniadau cyfrifyddu ac archwilio priodol, fel y nodir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, a chan gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol gorfodol y Sector Cyhoeddus. Bydd dull gweithredu o'r fath yn darparu sicrwydd annibynnol a gwrthrychol o ran effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Drwy'r Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol, y bwriad yw y bydd yr holl benderfyniadau am gyllid a wneir gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael eu hadolygu drwy archwiliad allanol blynyddol, a fydd yn dadansoddi cost a budd ac yn asesu i ba raddau y mae adnoddau wedi cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau. Bydd hyn yn ychwanegol at y gofynion perfformiad a llywodraethu a nodir yn rhan 6 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) y bwriedir iddynt fod yn gymwys hefyd.

Cwestiwn Deg yr Ymgynghoriad

- a) A ydych yn cytuno y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion â phrif gynghorau o ran arferion cyfrifyddu? Nodwch eich rhesymau.**

- b) A ydych yn cytuno y dylai manylion am y ffordd y dylai Cyd-bwyllgor Corfforedig reoli ei arferion cyfrifyddu gael eu cynnwys yn y Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol? Os nad ydych yn cytuno, beth arall fyddai angen ei gynnwys yn y Rheoliadau Sefydlu?**

ADRAN PUMP – Materion staffio a gweithlu ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Mae'r dull o ymdrin â materion staffio a gweithlu wedi cael ei ddatblygu i adlewyrchu'r trafodaethau yn Is-grŵp Llywodraeth Leol y Cyngor Partneriaeth a gyda Chyfarwyddwyr Adnoddau Dynol prif gynghorau ac yn adlewyrchu'r egwyddorion allweddol a nodwyd yn Adran Dau.

Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn darparu y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gallu cyflogi a recriwtio staff yn eu rhinwedd eu hunain; gwneud trefniadau i osod staff at wasanaeth Awdurdodau datganoledig eraill yng Nghymru a gosod staff at wasanaeth y Cyd-bwyllgor Corfforedig; ac ymgymryd â secondiadau (i mewn ac allan) er mwyn galluogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gyflawni eu swyddogaethau. Y bwriad yw y bydd hyblygrwydd i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig benderfynu ar ei ddull staffio, ac y bydd y dull hwnnw yn datblygu dros amser wrth i Gyd-bwyllgorau Corfforedig o bosibl ymgymryd â rhagor o swyddogaethau gweithredol ynghyd â swyddogaethau strategol.

Fel rhan o'r dull o drin Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol', bydd y Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol yn ceisio sicrhau y bydd y darpariaethau mewn cyfraith sy'n ymwneud â staffio, sy'n gymwys i brif gynghorau, yn gymwys i Gyd-bwyllgorau Corfforedig hefyd. Mae'n bwysig yn hyn o beth bod unrhyw ddeddfwriaeth a gymhwysir i Gyd-bwyllgorau Corfforedig yn darparu unrhyw hawliau angenrheidiol ar gyfer yr unigolyn, a rhwymedigaethau arno, (neu nad yw'n gosod hawliau neu rwymedigaethau llai) sut bynnag y caiff ei gyflogi gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig (cyflogi'n uniongyrchol, ar secondiad, ar fenthyg, contract ac ati.).

Y bwriad yw y bydd y manylion sy'n sail i gyflogi neu fenthyca staff yn rhan o'r Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol gyda'r nod o sicrhau bod swyddogion Cyd-bwyllgor Corfforedig, fel unigolion a gyflogir yn gyhoeddus:

- yn ddarostyngedig i'r un gofynion / gofynion tebyg o ran tryloywder / atebolrwydd ac ati, â chyflogeion prif gynghorau neu unrhyw benodiadau cyhoeddus eraill
- yn cael buddiannau tebyg neu'r un buddiannau â swyddogion prif gynghorau
- yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau / cyfyngiadau tebyg ar weithgareddau gwleidyddol (bydd yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gael cod ymddygiad ar gyfer cyflogeion).
- wedi'u hindemnio i gyflawni eu dyletswyddau ar ran y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Telerau ac amodau

Ni fwriedir i'r telerau ac amodau ar gyfer staff a gyflogir gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig gael eu gadael i ddisgresiwn y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn llwyr fel y cânt i brif gyngor. Felly mae'r Rheoliadau Sefydlu yn darparu y dylai staff a gyflogir gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig gael eu penodi ar yr un telerau ac amodau neu rai tebyg (gan gynnwys amodau ynghylch taliadau cydnabyddiaeth) â swyddogion un o'r

prif gynghorau cyfansoddol sy'n gwneud yr un dyletswyddau neu rai tebyg. Bydd materion o'r fath yn cael eu penderfynu gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Y nod yw sicrhau nad yw Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn mabwysiadu trefniadau sy'n wahanol iawn i'r mwyafrif o'u prif gynghorau cyfansoddol, gan gefnogi'r gallu i gyfnewid staff a chydweithredu lle y bo'n bosibl. Bydd y dull gweithredu hwn hefyd yn sicrhau na chaiff Cyd-bwyllgor Corfforedig ei ddefnyddio fel dull o erydu (neu yn wir chwyddo) strwythurau cyflog drwy drosglwyddo staff / swyddogaethau i Gyd-bwyllgor Corfforedig, a phan fydd gwriad / gwahaniaeth bydd yn sicrhau bod y gwriad / gwahaniaeth hwnnw yn glir a thryloyw.

Lle na ddarperir ar ei gyfer fel arall o fewn y telerau ac amodau mabwysiedig, bwriad y polisi yw y bydd y Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig baratoi, yn flynyddol, ddatganiad yn nodi polisiâu'r awdurdod ar daliad cydnabyddiaeth ei brif swyddogion, taliad cydnabyddiaeth ei gyflogeion sydd ar y cyflog isaf a'r gydberthynas rhwng taliad cydnabyddiaeth ei brif swyddogion a thaliad cydnabyddiaeth ei gyflogeion nad ydynt yn brif swyddogion.

Trosglwyddo Ymgymeriadau, Diogelu Cyflogaeth a Throsglwyddo Staff

Mae'r Rheoliadau Sefydlu drafft yn darparu lle y bydd aelod o staff a benodir gan Gyd-bwyllgor Corfforedig wedi cael ei drosglwyddo i Gyd-bwyllgor Corfforedig o gyngor cyfansoddol, bydd egwyddorion Trosglwyddo Ymgymeriadau, Diogelu Cyflogaeth yn gymwys.

Nid rhagbennu a ddylai Cyd-bwyllgor Corfforedig gyflogi'n uniongyrchol y staff sydd eu hangen i gyflawni swyddogaeth yw diben hyn – mater i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig benderfynu arno o hyd fydd natur y staffio (cyflogedig, ar fenthyg neu wedi'i gontractio).

Mae'r dull gweithredu hwn yn unol â'r Cod Ymarfer ar Faterion y Gweithlu⁵ (a adwaenir hefyd fel y 'cod dwy haen'). Bwriedir i'r cod dwy haen gael ei gymhwyso i Gyd-bwyllgor Corfforedig ei hun, drwy'r Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol, ac i unrhyw gydberthynas rhwng prif gyngor â Chyd-bwyllgor Corfforedig yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau (ac eithrio achosion a gwmpesir fel arall gan y rheoliadau).

Cwestiwn Un ar Ddeg yr Ymgynghoriad:

Beth yw eich barn am y dull arfaethedig o ymdrin â materion staffio a gweithlu?

Swyddogion Gweithredol

Bydd y Rheoliadau Sefydlu yn ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig benodi nifer o "swyddogion gweithredol" statudol, sef Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid, Swyddog Monitro a Phrif Swyddog Llywodraethu. Y bwriad yn yr achos hwn yw i Gyd-bwyllgor Corfforedig allu cyflogi staff, comisiynu gwasanaethau'n uniongyrchol neu fenthyca staff perthnasol oddi wrth gyngor cyfansoddol i gyflawni'r rolau hyn yn ôl yr hyn a benderfynir gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

⁵ https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/cylchlythyr-cod-ymarfer-ar-faterion-gweithlu_0.pdf

Byddai'r manylion am rolau a chyfrifoldebau'r Swyddogion Gweithredol hyn yn debyg i'r rolau mewn prif gynghorau ac, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, mae'n debygol y byddai'r manylion yn cael eu cynnwys yn y Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol. Er enghraifft:

- **Prif Weithredwr** – Mae'n debygol y bydd y Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol yn darparu y bydd Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ddarostyngedig i'r un rheolau, gweithdrefnau a thrafodion â Phrif Weithredwr prif gyngor. Bydd taliad cydnabyddiaeth Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ddarostyngedig i'r un trefniadau â Phrif Weithredwr prif gyngor, h.y. yn ddarostyngedig i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
- **Swyddog Monitro** – Mae'n debygol y bydd y Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol yn darparu bod Swyddog Monitro Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithredu yn yr un ffordd â'r hyn a amlinellir ar gyfer 'awdurdodau perthnasol' yn adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, neu mewn ffordd debyg i hyn. Gan ddibynnu ar y trefniadau ar gyfer y fframwaith moesegol sy'n ymwneud ag aelodau o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig sy'n aelodau o brif gynghorau neu awdurdodau parciau cenedlaethol ac aelodau cyfetholedig, gall y swyddog hwn hefyd chwarae rôl gyfatebol i'r hyn a nodir yn Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.
- **Prif Swyddog Ariannol** – Mae'n debygol y bydd y Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol a bod yn gyfrifol am weinyddu ei faterion ariannol yn briodol. Bydd y Prif Swyddog Cyllid Cyfrifol yn gyfrifol am adrodd ar brosesau rheoli ariannol a sicrwydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig.
- **Prif Swyddog Llywodraethu** (teitl dros dro) – Mae'n debygol y bydd y Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol yn debygol o darparu ar gyfer rôl y Prif Swyddog Llywodraethu, rôl sy'n cyfateb i Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn prif gynghorau. Fodd bynnag, ni fwriedir iddi fod yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig gael Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ac felly ni fydd y rheoliadau yn cymhwysio / ymestyn unrhyw rai o'r swyddogaethau / rolau perthnasol ym Mesur Llywodraeth Leol 2011 i Brif Swyddog Llywodraethu Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Y bwriad yw y bydd yr holl rolau gweithredol mewn Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael yr un diogelwch ac indemniad statudol â swyddogion statudol prif gynghorau.

Cwestiwn Deuddeg yr Ymgynghoriad:

Beth yw eich barn mewn perthynas â'r gofyniad i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gael neu gael mynediad at "swyddogion gweithredol" statudol"?

Rheolau Sefydlog

Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig fabwysiadu rheolau sefydlog i lywodraethu ei drafodion a'i fusnes (os nad ydynt

wedi'u rheoleiddio gan y Rheoliadau Sefydlu). Gallai rheolau sefydlog o'r fath gynnwys y gweithdrefnau ar gyfer penodi a diswyddo aelod o staff y Cyd-bwyllgor Corfforedig neu gymryd camau disgyblu yn ei erbyn (sut bynnag y cafodd ei benodi). Fodd bynnag, bydd manylion am yr hyn sy'n ofynnol yn y rheolau sefydlog, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, yn cael eu cynnwys yn y Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol.

Undebau Llafur

Mae cydnabyddiaeth o undebau llafur gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn flaenoriaeth Weinidogol. Felly, byddem yn disgwyl i Gyd-bwyllgorau Corfforedig weithio o dan yr un dull Partneriaeth Gymdeithasol â'r hyn sydd rhwng undebau llafur a phrif gynghorau. Byddem yn croesawu barn am sut y gellid cyflawni hyn, naill ai drwy ganllawiau neu drwy fabwysiadu Telerau ac Amodau cynghorau cyfansoddol.

Cwestiwn Tri ar Ddeg yr Ymgynghoriad:

A oes gennych unrhyw farn arall am y ddarpariaeth ar gyfer materion staffio neu faterion y gweithlu o fewn y rheoliadau sefydlu?

ADRAN CHWECH – Y swyddogaethau sydd i'w harfer gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn nodi pa swyddogaethau a fydd yn cael eu harfer gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir.

Yn y lle cyntaf, bydd y pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig yn arfer yr un swyddogaethau:

- Swyddogaeth paratoi, monitro, adolygu ac adolygu Cynllun Datblygu Strategol. Mae'r swyddogaethau hyn wedi'u nodi yn Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd gan y Bil).
- Y swyddogaeth o ddatblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol – hynny yw y swyddogaethau o ddatblygu polisïau ar gyfer trafndiaeth o fewn ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig, i mewn i'r ardal ac oddi yno, a datblygu polisïau ar gyfer rhoi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ar waith. Mae'r swyddogaethau hyn wedi'u nodi yn Neddf Trafnidiaeth 2000.
- Y swyddogaeth llesiant economaidd y darperir ar ei chyfer yn Rhan 5 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Hynny yw, y pŵer i wneud unrhyw beth sy'n debygol o hybu neu wella llesiant economaidd yr ardal yn nhyb y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Bydd hyn yn galluogi'r prif gynghorau, pe baent yn dymuno, i ddatganoli'r dulliau rhanbarthol presennol ar gyfer y bargeinion dinesig a thwf i strwythurau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Er bod y Bil yn darparu bod gwella addysg yn un o'r swyddogaethau y gall Gweinidogion Cymru ei nodi fel un i'w harfer gan Gyd-bwyllgor Corfforedig, ni ddarperir ar gyfer y swyddogaeth hon yn y Rheoliadau Sefydlu hyn. Mae Gweinidogion Cymru wedi bod yn glir bod ystyried rôl Cyd-bwyllgorau Corfforedig o ran gwella addysg yn rhywbeth a fyddai'n datblygu dros amser a bod angen cynnal trafodaethau pellach â phrif gynghorau ynghylch y dull a ddymunir.

Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, caiff cynghorau cyfansoddol y Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyn wneud cais i Weinidogion Cymru roi'r swyddogaeth gwella addysg (neu unrhyw un o'u swyddogaethau eraill) i'w Cyd-bwyllgor Corfforedig unwaith y bydd y darpariaethau perthnasol yn y Bil sy'n galluogi prif gynghorau i wneud cais wedi cychwyn. Yn y dyfodol felly, mae'n bosibl y bydd amrywiaeth rhwng swyddogaethau pob un o'r Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Byddai unrhyw gynigion yn y dyfodol i ychwanegu (gan gynnwys hepgor neu addasu) swyddogaethau prif gynghorau at gylch gwaith Cyd-bwyllgor Corfforedig yn destun ymgynghoriad ffurfiol fel y nodir yn y Bil.

Yn achos y pŵer llesiant economaidd, ac mewn perthynas â swyddogaethau y gall Cyd-bwyllgor Corfforedig eu harfer yn y dyfodol, efallai y bydd angen i Gyd-bwyllgor Corfforedig a'i gynghorau cyfansoddol weithredu'r pwerau yn gydredol. Bydd angen i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gytuno ar broses gyda'i brif gynghorau cyfansoddol ar gyfer sut y gallai hyn weithio yn ymarferol gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i hyn) y gweithgareddau penodol o fewn cwrpas y cytundeb, sut y deuir i gytundeb, sut y caiff ei adolygu a sut y gellir datrys anghydfodau.

Ni ddarperir ar gyfer trefniadau i reoli swyddogaethau cydredol yn y rheoliadau gan mai mater i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd hyn mewn ymateb i anghenion lleol a rhanbarthol ac mae'n unol â'r dull gweithredu i alluogi hyblygrwydd a'r gallu i wneud penderfyniadau lleol lle y bo'n bosibl. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu canllawiau i Gyd-bwyllgorau Corfforedig a'u prif gynghorau cyfansoddol ar y mater hwn.

Mewn perthynas â'r swyddogaeth cynllunio strategol, bydd manylion y gweithdrefnau ar gyfer gwneud ac adolygu cynlluniau datblygu strategol yn cael eu nodi yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021, ac mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn. Os byddwch am fynegi sylwadau am y gweithdrefnau hynny, gwnewch hynny drwy'r ymgynghoriad hwnnw.

Cwestiwn Pedwar ar Ddeg yr Ymgynghoriad:

- a) A yw'n glir pa swyddogaethau y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn eu harfer o ganlyniad i'r rheoliadau sefydlu hyn? Os nad yw, pam?**
- b) A oes angen i'r Rheoliadau Sefydlu ddweud mwy am drefniadau cydredol? Os felly, beth arall sydd ei angen, neu a ddylid gadael hynny i'w benderfynu'n lleol?**
- c) A oes unrhyw swyddogaethau y gallai fod yn briodol eu hychwanegu at gylch gwaith Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y dyfodol? Os oes, pa rai?**

Cyflawni swyddogaethau

Rydym yn bwriadu sicrhau bod Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gallu trefnu i gyflawni ei swyddogaethau fel y gwêl yn dda ac eithrio achosion pan na all Cyd-bwyllgor Corfforedig ddirprwyo penderfyniadau (gweler isod). Gallai hyn fod drwy is-bwyllgorau, swyddogion, Cyd-bwyllgorau Corfforedig eraill, prif gynghorau a chyd-bwyllgorau eraill.

Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn ymdrin yn benodol â rhywfaint o hyn, er enghraifft drwy ddarparu ar gyfer sefydlu is-bwyllgorau a galluogi dirprwyo swyddogaethau iddynt. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd llawer o'r manylion yn cael eu cynnwys yn y Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol. Byddem am sicrhau ei bod yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig gael cynllun dirprwyo tebyg i'r hyn sy'n ofynnol gan brif gynghorau o dan adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mater i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd penderfynu ar gynnwys y cynllun dirprwyo a gallai gynnwys dirprwyo i is-bwyllgorau, aelodau o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a/neu staff a benodir i gyflawni swyddogaethau Cyd-bwyllgor Corfforedig (sut bynnag y cawsant eu penodi).

Rydym eisoes wedi trafod bod y Rheoliadau Sefydlu yn galluogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig i fabwysiadu model is-bwyllgor os byddant yn dymuno gwneud hynny, gan gynnwys dirprwyo rhywfaint o'u swyddogaethau. Mater i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fyddai penderfynu ar drefniadau ei is-bwyllgorau, gan gynnwys aelodaeth a hawliau pleidleisio, fel y gwêl yn dda.

Er bod disgrisiwn cyffredinol o ran yr hyn y gall Cyd-bwyllgor Corfforedig ddewis ei ddirprwyo i is-bwyllgor, rydym o'r farn bod nifer bach o benderfyniadau a ddylai gael eu gwneud gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ei hun. Er enghraifft: cytuno ar gyllidebau;

mabwysiadu neu gymeradwyo cynlluniau neu strategaethau (gan gynnwys y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cynllun Datblygu Strategol); ac ystyried unrhyw adroddiadau sy'n ofynnol o dan statud. Felly, gallai fod yn briodol i'r Rheoliadau Sefydlu atal materion o'r fath rhag cael eu dirprwyo a byddem yn croesawu eich barn am hyn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Cwestiwn Pymtheg yr Ymgynghoriad:

A ydych o'r farn y dylai'r rheoliadau ddarparu i unrhyw beth fod yn benderfyniad a gedwir yn ôl i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn hytrach na chael ei ddirprwyo i is-bwyllgor? Os felly beth?

Y dull o drosglwyddo'r gallu i arfer y swyddogaethau hyn

Bydd y Rheoliadau Sefydlu yn darparu y bydd nifer o swyddogaethau a gaiff eu harfer gan brif gynghorau unigol ar hyn o bryd bellach yn cael eu harfer gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyn.

Bydd yn bwysig deall goblygiadau trosglwyddo'r gallu i arfer y swyddogaethau hyn o ran staff ac adnoddau, ac ystyried sut y gellir trosglwyddo'r swyddogaethau mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Yn unol â'r dull cydgynhyrchu rydym wedi'i fabwysiadu hyd yn hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno gweithio gyda phrif gynghorau, a'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig pan fyddant wedi'u sefydlu, er mwyn cefnogi'r broses drosglwyddo hon.

Fel enghraifft, mae prif gynghorau yn gyfrifol am ddatblygu cynlluniau trafndiaeth lleol a bydd y swyddogaethau o baratoi cynllun trafndiaeth yn cael eu trosglwyddo er mwyn i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ymgymryd â nhw ar lefel ranbarthol - Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd angen rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y broses o drosglwyddo o drefniadau lleol i rai ranbarthol yn un effeithiol.

Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd trosglwyddo gallu i arfer swyddogaeth, ac felly'r pwynt pan fydd yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig arfer y swyddogaeth honno, yn digwydd yn hwyrach na'r pwynt pan gaiff y Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu sefydlu. Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer cyfnod gweithredu ac i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig sefydlu ei hun, fel y trafodir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Ar gyfer cynllunio strategol nid oes trefniadau ar waith ar hyn o bryd ar lefel ranbarthol, felly nid ydynt yn arwain at yr un angen am drefniadau pontio. Bydd disgwyl i Gyd-bwyllgor Corfforedig ddechrau cyflawni'r swyddogaethau hyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a chyn gynted ag y caiff y rheoliadau gweithdrefnol eu gwneud. Mae'n bwysig nodi y bydd prif gynghorau yn cadw eu swyddogaeth bresennol o baratoi cynlluniau datblygu lleol.

Bydd gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig hefyd y swyddogaeth llesiant economaidd o'r adeg y cânt eu sefydlu. Rydym yn cydnabod bod strwythurau a threfniadau presennol yn bodoli'n barod sy'n hybu ac yn annog llesiant economaidd, a mater i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a'i gynghorau cyfansoddol fydd ystyried y broses o drosglwyddo trefniadau ranbarthol presennol, megis y bargeinion dinesig a thwf, os byddant yn dymuno ychwanegu'r gweithgareddau hyn at gylch gwaith eu Cyd-bwyllgor Corfforedig. Fodd bynnag, byddai diddordeb gennym mewn ystyried sut y gallai Llywodraeth Cymru hwyluso neu gefnogi'r broses drosglwyddo yn hyn o beth.

Byddem yn croesawu sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, yn enwedig pa faterion y gallai fod angen eu datrys wrth symud o'r dull Cyd-bwyllgor cyfredol i Gyd-bwyllgor Corfforedig.

Cwestiwn Un ar Bymtheg yr Ymgynghoriad:

Beth yw eich barn am y dull o drosglwyddo'r broses o arfer swyddogaethau i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig?

ADRAN SAITH - Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'u dyletswyddau fel Corff Cyhoeddus

Fel y trafodwyd yn flaenorol, un o'r egwyddorion sylfaenol wrth ddatblygu'r rheoliadau i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yw y dylent gael eu trin fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol' wrth bennu sut y dylent weithredu.

Y bwriad yw y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig hefyd gael eu trin yn fwy cyffredinol fel 'corff cyhoeddus' ac felly byddent yn cael eu cwmpasu o dan nifer o ddarnau presennol o ddeddfwriaeth, neu'n gorfod bodloni dyletswyddau a nodir ynddynt.

Gallai hyn gynnwys, er enghraifft:

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – sy'n darparu ar gyfer un egwyddor ('yr egwyddor datblygu cynaliadwy') i lywio'r gwaith o arfer swyddogaethau cyrff cyhoeddus penodedig i ystyried sut y maent yn diwallu anghenion cenedlaethau presennol heb beryglu cenedlaethau'r dyfodol, er mwyn mynd i'r afael yn well â heriau hirdymor, megis anghydraddoldebau o ran canlyniadau.
- **Deddf Cydraddoldeb 2010** – sy'n ei gwneud yn anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn y bobl hynny sydd â nodwedd warchoddedig o dan Ddeddf 2010. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd 'sylw priodol' (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus) ar gyrff cyhoeddus i sicrhau bod hyrwyddo cyfle cyfartal yn ystyriaeth allweddol pan fyddant yn cyflawni eu swyddogaethau. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (y cynigir ei chychwyn yng Nghymru yn 2021) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodedig i ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.
- **Safonau'r Gymraeg** – sy'n rhoi hawliau gorfodadwy gwell i siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â'r Gymraeg. Maent yn gwneud hyn drwy osod safonau ar sefydliadau mewn perthynas â darparu gwasanaethau, llunio polisiau, gweithrediadau, hyrwyddo a chadw cofnodion.
- **Deddf yr Amgylchedd 1995** – sy'n rhoi dyletswydd ar gyrff penodol i ystyried y dibenion y crëwyd Parciau Cenedlaethol ar eu cyfer.
- **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Adran 6)** – sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo cadernid ecosystemau.
- **Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010** – sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cyfrannu at ddileu tlodi plant, ac ynghylch trefniadau ar gyfer cyfranogiad plant mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt.

Lle bo modd, ac yn ddarostyngedig i ofynion y ddeddfwriaeth berthnasol, caiff y deddfwriaeth berthnasol yn yr achos hwn ei chymhwyso drwy'r Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol yn hytrach na thrwy'r Rheoliadau Sefydlu. Fodd bynnag, byddem yn croesawu eich barn am y dull arfaethedig.

Cwestiwn Dau ar Bymtheg yr Ymgynghoriad:

Beth yw eich barn am wneud Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i ddyletswyddau cyrff cyhoeddus ehangach, fel y disgrifir uchod?

ADRAN WYTH – Gweithredu

Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir gynnal ei gyfarfod cyntaf erbyn diwedd Medi 2021.

Er y bydd modd i Gyd-bwyllgor Corfforedig gyfarfod cyn gynted ag y daw'r Rheoliadau Sefydlu hyn i rym, derbynnir na fydd yn gwbl weithredol ar y diwrnod cyntaf ac y bydd yn cymryd rhywfaint o amser iddo gwneud y penderfyniadau a'r trefniadau angenrheidiol a datblygu ei allu i arfer ei swyddogaethau'n effeithiol.

Er enghraifft, mae'n debygol y bydd y cyfarfodydd cynnar yn canolbwyntio ar faterion megis ethol y cadeirydd a'r is-gadeirydd, penodi swyddogion statudol, mabwysiadu codau ymarfer a rheolau sefydlog, cytuno ar aelodaeth ehangach a strwythurau unrhyw bwyllgorau a rhoi systemau ariannol priodol ar waith.

Mater i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd ystyried pa mor aml i gynnal cyfarfodydd yn unol â'r hyn sy'n briodol i'w ofynion ei hun ac mae'n bosibl y bydd amllder cyfarfodydd yn newid wrth i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ddatblygu a dod yn fwy sefydledig.

Mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi ymrwymo'n flaenorol, mewn trafodaeth ag Is-grŵp Llywodraeth Leol y Cyngor Partneriaeth, i gefnogi llywodraeth leol i sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyn. Yn amodol ar gytundeb, gallai hyn gynnwys helpu gyda Cyd-bwyllgorau Corfforedig â'u costau sefydlu yn y tymor byr fel yr argymhellwyd mewn ymchwil annibynnol a gomisiynwyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn⁶. Efallai hefyd y bydd yn briodol rhoi rhywfaint o gymorth cyn i unrhyw Gyd-bwyllgor Corfforedig gael ei sefydlu er mwyn cefnogi'r broses drosglwyddo.

Cwestiwn Deunaw yr Ymgynghoriad:

- a) Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i barhau i gydweithio'n agos â llywodraeth leol i sefydlu a gweithredu Cyd-bwyllgorau Corfforedig. A oes gennych unrhyw farn ar y ffordd orau o gyflawni hyn?**
- b) Yn eich barn chi, pa ofynion / elfennau craidd sydd angen bod ar waith er mwyn sicrhau bod Cyd-bwyllgor Corfforedig yn weithredol ac yn arfer ei swyddogaethau?**
- c) Yn benodol, beth sydd angen bod ar waith cyn i Gyd-bwyllgor Corfforedig gyfarfod am y tro cyntaf, ar ddiwrnod ei gyfarfod cyntaf ac ar ôl hynny?**

Canllawiau

Cydnabyddir, er nad yw gweithio rhanbarthol yn rhywbeth newydd i lywodraeth leol, bod model y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn newydd. Felly efallai y byddai darparu canllawiau i gefnogi'r broses o sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddefnyddiol. Yn y lle cyntaf, y bwriad fyddai canolbwyntio ar ganllawiau ar y trefniadau

⁶ [Adroddiad ar gydweithio rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru](#)

cyfansoddol, llywodraethu, ariannol a staffio gyda chanllawiau am swyddogaethau penodol yn dilyn yn ddiweddarach pan fyddai angen.

Mae'r dull o ddatblygu'r model Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyd yn hyn wedi bod yn un o gydgyhyrchu a chydweithredu â llywodraeth leol. Y bwriad yw parhau â'r dull hwn wrth roi'r Rheoliadau Sefydlu ar waith a datblygu unrhyw ganllawiau ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Cwestiwn Pedwar ar Bymtheg yr Ymgynghoriad:

- a) A ydych o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau ar sefydlu a gweithredu Cyd-bwyllgorau Corfforedig?**
- b) A oes unrhyw feysydd penodol y dylai'r canllawiau eu cwmpasu?**

Cyffredinol

Cwestiwn Ugain yr Ymgynghoriad:

- a) Beth yw'r ffordd orau i Lywodraeth Cymru gefnogi prif gynghorau i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig?**
- b) A oes meysydd y dylai Llywodraeth Cymru eu blaenoriaethu ar gyfer cymorth?**
- c) A oes unrhyw beth y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig ei wneud/peidio â'i wneud nad yw'r Rheoliadau Sefydlu hyn yn darparu ar ei gyfer ar hyn o bryd?**

ADRAN NAW – Dogfennau Ategol

Er mwyn helpu i asesu effaith bosibl sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel yr amlinellwyd uchod, rydym wedi cyhoeddi'r dogfennau drafft canlynol i gefnogi'r rheoliadau:

- Asesiad Effaith Rheoleiddiol
- Asesiad Effaith Integredig

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn asesu'r costau a'r arbedion posibl, a'r manteision a'r anfanteision sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyn drwy'r rheoliadau.

Mae'r opsiynau a ystyriwyd wrth baratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel a ganlyn:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim. Hynny yw, peidio â rhoi'r polisi ar waith, peidio â gwneud rheoliadau a pheidio â sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Opsiwn 2 – Rhoi'r polisi ar waith a sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy reoliadau.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn canolbwyntio ar gostau gweinyddol craidd sefydlu a gweithredu Cyd-bwyllgor Corfforedig a chyflawni'r swyddogaethau a nodir yn y rheoliadau. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei gyflwyno i adlewyrchu'r cwmphas ar gyfer disgrisiwn lleol y mae'r rheoliadau yn ei ddarparu. Bydd llawer o'r costau o fewn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dibynnu ar y penderfyniadau a wneir gan bob Cyd-bwyllgor Corfforedig o ran y ffordd y mae'n gweithredu ac yn llywodraethu ei hun o fewn yr hyblygrwydd a ganiateir gan y rheoliadau.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol felly'n cyflwyno ystod o gostau amcangyfrifedig a osodir yn unol ag isafswm ac uchafswm posibl sy'n ceisio adlewyrchu'r hyblygrwydd ac sy'n rhoi syniad o'r costau posibl sy'n gysylltiedig â'r amrywiaeth o drefniadau gweinyddol y gallai Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu rhoi ar waith. Ni fu modd asesu'n derfynol yr holl gostau posibl, yn enwedig i bob rhanddeiliad, ond byddem yn disgwyl i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ystyried y costau a'r manteision a'r effeithiau ar randdeiliaid gwahanol cyn gweithredu.

Gellir dod o hyd i ddadansoddiad o'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ym mharagraffau 12-32 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a gellir dod o hyd i ddadansoddiad o'r costau a'r manteision ym mharagraffau 43-145 o'r Asesiad.

Asesiad Effaith Integredig

Mae Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig wedi cael ei gynnal i asesu effeithiau mwyaf sylweddol sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyn drwy'r rheoliadau, yn gadarnhaol ac yn negyddol. Cyhoeddir crynodeb o gasgliadau'r asesiad fel rhan o'r ymgynghoriad hwn ynghyd â manylion am y broses o fonitro a gwerthuso'r cynnig.

Byddem yn croesawu eich barn am gyd-destun y dogfennau hyn, yn enwedig yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn penderfynu a yw'r costau a'r manteision a ddarparwyd yn deg ac yn rhesymol.

Cwestiwn Un ar Hugain yr Ymgynghoriad:

- a) ***A ydych yn cytuno â'n hasesiad o effeithiau tebygol y rheoliadau a'n dull o ymdrin â nhw? Esboniwch eich ymateb.***
- b) ***A oes gennych unrhyw ddata ychwanegol/amgen er mwyn helpu i lywio'r aseiad terfynol o gostau a manteision sydd wedi'i gynnwys yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol? Os oes, rhowch fanylion.***

**Ffurflen
Ymateb i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn Un yr Ymgynghoriad:

- a) *Beth yw eich barn ynghylch a ddylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i'r un pwerau a dyletswyddau yn fras â phrif gynghorau?*
- c) *A ydych yn cytuno y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig gael yr un fframwaith llywodraethu a threfniadau gweinyddol, yn fras, â phrif gyngor, cyn belled â bod hyn yn gymesur? Nodwch eich rhesymau.*
- d) *A ydych yn cytuno y dylai aelodau o Gyd-bwyllgorau Corfforedig gael disgresiwn priodol o ran manylion y trefniadau cyfansoddiadol a gweithredol? Nodwch eich rhesymau.*

Cwestiwn Dau yr Ymgynghoriad:

Mae Arweinwyr llywodraeth leol wedi cytuno mai'r ardaloedd hyn yw'r rhai mwyaf priodol ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig er mwyn adlewyrchu'r swyddogaethau a roddir iddynt gan y Rheoliadau Sefydlu hyn. A oes gennych unrhyw sylwadau neu arsylwadau am ardaloedd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyn mewn perthynas â'u swyddogaethau neu ddatblygiad Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y dyfodol?

Cwestiwn Tri yr Ymgynghoriad:

- a) *A ydych yn cytuno â'r dull o ddatblygu'r rheoliadau ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel yr amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn? Nodwch eich rhesymau.*
- b) *Rydym wedi nodi drwy gydol y ddogfen hon yr hyn sy'n debygol o gael ei gynnwys yn y Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn. Er nad y Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol yw pwnc yr ymgynghoriad hwn, er mwyn llywio eu datblygiad a oes gennych unrhyw farn am unrhyw beth arall a ddylai gael ei gwmpasu?*

Cwestiwn Pedwar yr Ymgynghoriad:

- a) *A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig o bennu aelodaeth Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys cyfethol aelodau ychwanegol? Nodwch eich rhesymau.*

- b) *Beth yw eich barn am y rôl a gynigir ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, fel y disgrifir uchod?*

Cwestiwn Pump yr Ymgynghoriad:

- a) *Beth yw eich barn am y dull arfaethedig o 'un bleidlais fesul aelod' a'r hyblygrwydd i Gyd-bwyllgorau Corfforedig fabwysiadu gweithdrefnau pleidleisio amgen?*
- b) *Beth yw eich barn am y cworwm arfaethedig ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig?*
- c) *Beth yw eich barn am y dull arfaethedig ar gyfer hawliau pleidleisio aelodau cyfetholedig o Gyd-bwyllgor Corfforedig?*

Cwestiwn Chwech yr Ymgynghoriad:

Beth yw eich barn am alluogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gyfethol aelodau eraill a/neu benodi pobl i eistedd ar is-bwyllgorau?

Cwestiwn Saith yr Ymgynghoriad:

- a) *A ydych yn cytuno y byddai'r dull o gyfethol aelodau yn golygu bod modd cael mwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid yng ngwaith Cyd-bwyllgor Corfforedig?*
- b) *Beth allai fod ei angen i gefnogi aelodau Cyd-bwyllgor Corfforedig i gynnwys ac ymgysylltu â rhanddeiliaid priodol yn eu gwaith?*

Cwestiwn Wyth yr Ymgynghoriad:

- a) *A ydych yn cytuno y dylai aelodau a staff Cyd-bwyllgor Corfforedig fod yn ddarostyngedig i God Ymddygiad ac y dylai'r cod fod yn debyg i'r hyn a geir mewn Prif Gynghorau? Nodwch eich rhesymau.*
- b) *Beth yw eich barn am fabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau cyfetholedig?*
- c) *A ddylai pob aelod cyfetholedig fod yn ddarostyngedig i'r cod, h.y. y rhai sydd â'r hawl i bleidleisio a'r rhai nad oes ganddynt hawl i bleidleisio?*

Cwestiwn Naw yr Ymgynghoriad

- a) *Beth yw eich barn am y dull arfaethedig o bennu gofynion cyllidebol Cyd-bwyllgor Corfforedig?*
- b) *Beth yw eich barn am yr amserlenni a gynigir (gan gynnwys ar gyfer y flwyddyn gyntaf) ar gyfer pennu'r gofynion cyllidebol a fydd yn daladwy gan y prif gynghorau cyfansoddol?*

Cwestiwn Deg yr Ymgynghoriad

- a) **A ydych yn cytuno y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion â phrif gynghorau o ran arferion cyfrifyddu? Nodwch eich rhesymau.**
- b) **A ydych yn cytuno y dylai manylion am y ffordd y dylai Cyd-bwyllgor Corfforedig reoli ei arferion cyfrifyddu gael eu cynnwys yn y Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol? Os nad ydych yn cytuno, beth arall fyddai angen ei gynnwys yn y Rheoliadau Sefydlu?**

Cwestiwn Un ar Ddeg yr Ymgynghoriad:

Beth yw eich barn am y dull arfaethedig o ymdrin â materion staffio a materion y gweithlu?

Cwestiwn Deuddeg yr Ymgynghoriad:

Beth yw eich barn mewn perthynas â'r gofyniad i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gael neu gael mynediad at "swyddogion gweithredol" statudol"?

Cwestiwn Tri ar Ddeg yr Ymgynghoriad:

A oes gennych unrhyw farn arall am y ddarpariaeth ar gyfer materion staffio neu faterion y gweithlu o fewn y rheoliadau sefydlu?

Cwestiwn Pedwar ar Ddeg yr Ymgynghoriad:

- a) **A yw'n glir pa swyddogaethau y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn eu harfer o ganlyniad i'r rheoliadau sefydlu hyn? Os nad yw, pam?**
- b) **A oes angen i'r Rheoliadau Sefydlu ddweud mwy am drefniadau cydredol? Os felly, beth arall sydd ei angen, neu a ddylid gadael hynny i'w benderfynu'n lleol?**
- c) **A oes unrhyw swyddogaethau y gallai fod yn briodol eu hychwanegu at gyloch gwaith Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y dyfodol? Os oes, pa rai?**

Cwestiwn Pymtheg yr Ymgynghoriad:

A ydych o'r farn y dylai'r rheoliadau ddarparu i unrhyw beth fod yn benderfyniad a gedwir yn ôl i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn hytrach na chael ei ddirprwyo i is-bwyllgor? Os felly beth?

Cwestiwn Un ar Bymtheg yr Ymgynghoriad:

Beth yw eich barn am y dull o drosglwyddo'r broses o arfer swyddogaethau i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig?

Cwestiwn Dau ar Bymtheg yr Ymgynghoriad:

Beth yw eich barn am wneud Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i ddyletswyddau cyrff cyhoeddus ehangach, fel y disgrifir uchod?

Cwestiwn Deunaw yr Ymgynghoriad:

- a) **Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i barhau i gydweithio'n agos â llywodraeth leol i sefydlu a gweithredu Cyd-bwyllgorau Corfforedig. A oes gennych unrhyw farn ar y ffordd orau o gyflawni hyn?**
- b) **Yn eich barn chi, pa ofynion / elfennau craidd sydd angen bod ar waith er mwyn sicrhau bod Cyd-bwyllgor Corfforedig yn weithredol ac yn arfer ei swyddogaethau?**
- c) **Yn benodol, beth sydd angen bod ar waith cyn i Gyd-bwyllgor Corfforedig gyfarfod am y tro cyntaf, ar ddiwrnod ei gyfarfod cyntaf ac ar ôl hynny?**

Cwestiwn Pedwar ar Bymtheg yr Ymgynghoriad:

- a) **A ydych o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau ar sefydlu a gweithredu Cyd-bwyllgorau Corfforedig?**
- b) **A oes unrhyw feysydd penodol y dylai'r canllawiau eu cwmpasu?**

Cwestiwn Ugain yr Ymgynghoriad:

- a) **Beth yw'r ffordd orau i Lywodraeth Cymru gefnogi prif gynghorau i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig?**
- b) **A oes meysydd y dylai Llywodraeth Cymru eu blaenoriaethu ar gyfer cymorth?**
- c) **A oes unrhyw beth y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig ei wneud/peidio â'i wneud nad yw'r Rheoliadau Sefydlu hyn yn darparu ar ei gyfer ar hyn o bryd?**

Cwestiwn Un ar Hugain yr Ymgynghoriad:

- a) **A ydych yn cytuno â'n hasesiad o effeithiau tebygol y rheoliadau a'n dull o ymdrin â nhw? Esboniwch eich ymateb.**
- b) **A oes gennych unrhyw ddata ychwanegol/amgen er mwyn helpu i lywio'r asesiad terfynol o gostau a manteision sydd wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol? Os oes, rhowch fanylion.**

Cwestiynau am y Gymraeg

Cwestiwn Dau ar Hugain yr Ymgynghoriad:

- a) **Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn eu cael ar y Gymraeg - yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

b) Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn Tri ar Hugain yr Ymgynghoriad:

Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r polisi arfaethedig ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a sut y gellid atal unrhyw effeithiau andwyol o ran y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn Pedwar ar Hugain yr Ymgynghoriad:

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Mae'r ymatebion i ymgynghoriad yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Strategol) (Cymru) 2021

Rheoliadau sy'n pennu'r weithdrefn ar gyfer paratoi Cynlluniau
Datblygu Strategol a materion cysylltiedig

Dyddiad cyhoeddi: 12 Hydref 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 4 Ionawr 2021

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

Trosolwg Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn eich barn ar y dull polisi ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i bennu'r weithdrefn ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol ledled Cymru gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig a materion cysylltiedig. Enw'r Rheoliadau fydd Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

Sut i ymateb Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys cyfres o gwestiynau penodol y byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu eich ymateb iddynt.

Croesewir ymatebion yn Gymraeg neu'n Saesneg, a dylid eu hanfon drwy e-bost neu drwy'r post erbyn **4 Ionawr 2021** fan bellaf.

Gallwch ymateb drwy ddefnyddio un o'r dulliau canlynol:

Ar-lein:

Cwblhewch yr holiadur ar-lein ar dudalen ymgynghoriadau gwefan Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/ymgyngoriadau>

E-bost:

Cwblhewch ffurflen ymateb yr ymgynghoriad sydd ar gael ar dudalen ymgynghoriadau gwefan Llywodraeth Cymru a'i hanfon drwy e-bost i:

planconsultations-b@gov.wales

Post:

Cwblhewch ffurflen ymateb yr ymgynghoriad sydd ar gael ar dudalen ymgynghoriadau gwefan Llywodraeth Cymru a'i hanfon drwy'r post i:

Ymgynghoriad ar Reoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol
Y Gangen Cynlluniau
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) Mawrth 2020:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/llawlyfr-cynlluniau-datblygu-argraffiad-3-mawrth-2020.pdf>

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2005/2839/contents/made>

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2005/2839/contents/made>

Ymgynghoriad ar Reoliadau i bennu Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CCau)

<https://llyw.cymru/ymgyngoriadau>

**Manylion
cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:

E-bost: planconsultations-b@gov.wales

Ffôn: Candice Myers ar 0300 025 3882

**Hefyd ar
gael yn
Saesneg
yn:**

<https://gov.wales/consultations>

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gcontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD

CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Tudalen Gynnwys

| Adran | Tudalen | Paragraff |
|---|---------|-------------|
| 1. Beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn? | 5 | 1.1 |
| 2. Beth yw'r sefyllfa bresennol? | | |
| ▪ Cynlluniau Datblygu Strategol – y fframwaith cyfreithiol presennol | 5 | 2.1 - 2.4 |
| ▪ Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – y cyd-destun a'r goblygiadau i Gynlluniau Datblygu Strategol | 6 | 2.5 - 2.7 |
| ▪ Pam bod angen rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol? | 6 | 2.8 |
| 3. Gwaith a threfniadau ymgynghori yn y dyfodol | | |
| ▪ Canllawiau ar Gynlluniau Datblygu Strategol | 6 - 7 | 3.2 - 3.4 |
| ▪ Cynlluniau Datblygu Lleol Cryno | | 3.5 - 3.6 |
| 4. Beth rydym yn ei gynnig? Y bwriad polisi, cwmpas eang ac egwyddorion rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol | 7 - 8 | 4.1 - 4.4 |
| Cam 1: Y Cynllun Cynnwys Cymunedau (gan gynnwys amserlen ar gyfer paratoi cynlluniau) | 8 - 9 | 4.6 - 4.7 |
| Cam 2: Ymgysylltu Cyn Adneuo | 9 - 10 | 4.8 - 4.11 |
| ▪ Yr alwad am safleoedd ymgeisiol | | |
| ▪ Creu materion ac opsiynau ac ymgysylltu | | |
| Cam 3: Y Strategaeth a Ffefrir – Ymgynghoriad Cyhoeddus Cyn Adneuo a Chrynodeb o'r Ymatebion a Ddaeth i Law | 10 - 11 | 4.12 |
| Cam 4: Y Cynllun Adneuo – Ymgynghoriad Cyhoeddus a Chrynodeb o'r Ymatebion a Ddaeth i Law | 11 - 12 | 4.13 |
| Cam 5: Cyflwyno'r Cynllun Adneuo i'r Cyhoedd ei Archwilio a'i Fabwysiadu | 12 - 13 | 4.14 - 4.20 |
| Cam 6: Monitro, Adolygu a Diwygio | 13 - 14 | 4.21 - 4.23 |
| ▪ Adroddiadau Monitro Blynyddol | | |
| ▪ Y Broses Adolygu a Diwygio | | |
| Materion gweithdrefnol ac ystyriaethau eraill | | |
| ▪ Tynnu Cynllun Datblygu Strategol yn ôl | 14 | 4.24 |
| ▪ Tynnu Cynllun Datblygu Strategol yn ôl heb gyfarwyddyd | 14 - 15 | 4.25 - 4.27 |
| ▪ Ymyriad gan Weinidogion Cymru | 15 | 4.28 |
| Atodiad 1 : Diffiniad Arfaethedig o Gyrrff Ymgynghori Penodol a Chyffredinol | 16 | - |

1. Beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn?

1.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn eich barn ar ein bwriad polisi ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i bennu'r weithdrefn ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol ledled Cymru gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Enw'r Rheoliadau fydd Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Strategol) (Cymru) 2021 ("Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol").

2. Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Cynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Datblygu Strategol – y fframwaith cyfreithiol presennol

2.1 Caiff y broses o baratoi a mabwysiadu Cynlluniau Datblygu Lleol ei llywodraethu gan ddarpariaethau yn Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Nododd Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, fel y'u diwygiwyd ("Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Lleol"), a wnaed o dan y Rhan honno, y weithdrefn ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu lleol gan awdurdodau cynllunio lleol. Hyd yn hyn, mae Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Lleol wedi hwyluso'r broses ar gyfer mabwysiadu 22 o Gynlluniau Datblygu Lleol cychwynnol a thri diwygiad cyntaf i Gynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru.

2.2 Cafodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2005 Gydsyniad Brenhinol ar 6 Gorffennaf 2015. Ymhlith pethau eraill, mae'n diwygio Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 er mwyn cyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol, i'w paratoi gan gyrff llywodraethu o'r enw Paneli Cynllunio Strategol ar sail dull gweithredu gwirfoddol gan ddau Awdurdod Cynllunio Lleol neu fwy neu gyfarwyddyd Gweinidogol. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ychwanegol er mwyn sicrhau bod yn rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol gydymffurfio'n gyffredinol â Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru ac unrhyw Gynllun Datblygu Strategol a baratowyd mewn perthynas â'r ardal ddaearyddol dan sylw. Yn yr un modd, rhaid i'r Cynllun Datblygu Strategol ei hun gydymffurfio â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

2.3 Y bwriad polisi mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Strategol yw cyflwyno dull gweithredu mwy strategol ar gyfer llunio cynlluniau, gan anelu at greu cynlluniau mwy na'r Cynlluniau Datblygu Lleol unigol. Nodwyd bod angen gwella'r ffordd y mae'r system gynllunio yn ymdrin â materion sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol, er mwyn adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau yn yr oes sydd ohoni a sut y byddant yn gwneud hynny yn y dyfodol. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn cynnig ffordd fwy cyson, cost-ffeithiol ac effeithlon o lunio cynlluniau, gyda phenderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud unwaith ar y lefel strategol. Bydd hyn yn golygu y gellir ystyried materion sy'n fwy na materion lleol fel niferoedd tai, dyraniadau tai strategol, safleoedd cyflogaeth strategol, llwybrau seilwaith gwyrdd strategol, seilwaith trafniadaeth ategol sy'n croesi ardaloedd nifer o Awdurdodau Cynllunio Lleol a chynllunio ar gyfer y materion hynny mewn ffordd fwy integredig a chynhwysfawr. Bydd hyn yn arwain at ganlyniadau cynllunio mwy effeithlon ac effeithiol i gymunedau.

2.4 Mae'r ddarpariaeth yn Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 sy'n ymwneud â Chynlluniau Datblygu Strategol yn cynnwys darpariaeth weithdrefnol a phwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru at ddibenion gwneud darpariaethau

gweithdrefnol pellach fel rhan o reoliadau. Yn gryno, mae'r darpariaethau allweddol fel a ganlyn:

- Adran 60H (arolygon)
- Adran 60I (y ddyletswydd i baratoi, cynllunio amcanion, gofynion cydymffurfio ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol, materion y mae'n rhaid i'r Panel Cynllunio Strategol eu hystyried, gofynion Arfarnu Cynaliadwyedd, mabwysiadu/pan ddaw'r cynllun i rym, darpariaethau dyddiadau cwblhau)
- Adran 60J (cymhwyso'r amrywiol ddarpariaethau sy'n gymwys yng nghydestun Cynlluniau Datblygu Lleol at Gynlluniau Datblygu Strategol).

Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – y cyd-destun a'r goblygiadau i Gynlluniau Datblygu Strategol

2.5 Cyflwynwyd y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau i'r Senedd ym mis Tachwedd 2019. Mae'n cyflwyno Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel y dull a ffefrir gan Weinidogion Cymru ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Strategol, yn lle Paneli Cynllunio Strategol. Yn unol â hyn, mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu cyflwyno diwygiadau i'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau a fydd, yn eu tro, yn diwygio Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, fel y caiff y darpariaethau sy'n berthnasol i Gynlluniau Datblygu Strategol eu dyblygu ym mhob ffordd berthnasol, er y byddai hynny o fewn cyd-destun newydd lle byddai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithredu fel yr unig gorff sy'n gyfrifol am eu paratoi.

2.6 Mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy reoliadau. Mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi cadarnhau bwriad Llywodraeth Cymru i sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig cyntaf cyn gynted â phosibl. Bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyn yn cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â pharatoi Cynllun Datblygu Strategol, datblygu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol ac yn ogystal, bydd pŵer ganddynt i hyrwyddo neu wella llesiant economaidd eu hardal.

2.7 Cynhelir ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft sy'n sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar yr un pryd â'r ymgynghoriad hwn. Dim ond ar Reoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol y mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio sylwadau. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau ar y rheoliadau sy'n sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gallwch wneud hynny drwy ddilyn y ddolen isod:

<https://llyw.cymru/ymgyngoriadau>

Pam bod angen Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol?

2.8 Mae angen Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol er mwyn gwneud darpariaethau gweithdrefnol sy'n ategu ac yn hybu'r darpariaethau a nodir yn Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Bydd hyn yn golygu y gall Cyd-bwyllgorau Corfforedig baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol ac y gellir eu gweithredu'n llawn yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.

3. Gwaith a threfniadau ymgynghori yn y dyfodol

3.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer drafftio Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol (gweler Adran 4). Mae'n bwysig nodi y bydd cyfleoedd yn y dyfodol i ymgysylltu ac i ddylanwadu ar ganllawiau a deddfwriaeth yn y dyfodol a fydd yn helpu i baratoi a gweithredu Cynlluniau Datblygu Strategol.

Canllawiau ar Gynlluniau Datblygu Strategol

3.2 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn rhoi canllawiau ymarferol a gweithdrefnol manwl i Awdurdodau Cynllunio Lleol, gan ymhelaethu ar y rheoliadau a'r materion gweithdrefnol a'u hesbonio lle y bo'n berthnasol. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos o hyd ar y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Pennod 10) yn cynnwys canllawiau ar weledigaeth, disgwyliadau a blaenoriaethau polisi'r Llywodraeth ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol. Mae hefyd yn darparu'r cyd-destun ar gyfer paratoi Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol fel y nodir isod:

- Datblygu hierarchaeth cynlluniau, diffiniad o 'gydymffurfiaeth gyffredinol' a'r ddeddfwriaeth berthnasol sy'n gymwys wrth baratoi cynlluniau (paragraffau 2.3-2.21)
- Profion Cadernid – mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Strategol (Tabl 27 tudalen 166)
- Mae Pennod 10: 'Cynlluniau Datblygu Strategol' yn nodi bwriad y Llywodraeth y bydd y Rheoliadau yn adlewyrchu proses y Cynlluniau Datblygu Lleol i raddau helaeth. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Tabl 36 y Llawlyfr) yn nodi, yn ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus, pa reoliadau o blith Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Lleol sy'n annhebygol o fod yn gymwys i Gynllun Datblygu Strategol, yn ogystal ag agweddau allweddol, o ran deddfwriaeth ac o ran cynnwys disgwylidig cynlluniau.

3.3 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn cynnwys argymhellion cadarn o ran cynnwys Cynlluniau Datblygu Strategol a bydd cryn dipyn o'r canllawiau o ran camau allweddol y cynllun, y gweithdrefnau paratoi ac archwilio, gofynion o ran Asesiadau Amgylcheddol Strategol, y profion 'cadernid' a gofynion o ran sail y dystiolaeth yn parhau'n berthnasol i'r broses rydym yn ei chynnig ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol. Y bwriad yw paratoi canllawiau penodol ar Gynlluniau Datblygu Strategol er mwyn helpu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig mewn ffordd sy'n berthnasol i faint Cynllun Datblygu Strategol a'r rheoliadau pan fyddant yn dod i rym.

3.4 Bydd Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau sy'n berthnasol wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol a chynhelir ymgynghoriad cyhoeddus a gwaith ymgysylltu â Chyd-bwyllgorau Corfforedig / Awdurdodau Cynllunio Lleol a rhanddeiliaid allweddol mewn perthynas â'r canllawiau hyn cyn iddynt gael eu cyhoeddi'n ffurfiol. Yn ogystal, rydym yn bwriadu cyhoeddi Canllaw Cymunedol diwygiedig ar gyfer Cynlluniau Datblygu a fydd yn nodi'r hierarchaeth cynlluniau datblygu, y broses baratoi a'r terfynau amser a'r dulliau ymgysylltu yn ystod haf 2021 at ddefnydd cymunedau lleol, busnesau a rhanddeiliaid.

Cynlluniau Datblygu Lleol a gaiff eu paratoi o dan Gynllun Datblygu Strategol

3.5 Yn yr ardaloedd sydd wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Strategol, bydd angen paratoi Cynllun Datblygu Lleol o hyd. Bydd Cynlluniau Datblygu Lleol a gaiff eu paratoi o dan Gynllun Datblygu Strategol a fabwysiadwyd yn fwy penodol eu natur, gan ymdrin â materion a pholisiau lleol, a byddant yn nodi dyraniadau safle-benodol, wedi'u paratoi gan gydymffurfio'n gyffredinol â'r Cynllun Datblygu Strategol a fabwysiadwyd. Byddant yn fyrrach ac yn fwy penodol ac yn cael eu paratoi a'u mabwysiadu o fewn tua dwy flynedd. At y diben hwn, bydd angen rheoliadau newydd. At ddibenion gwahaniaethu yn y ddogfen hon ac mewn canllawiau yn y dyfodol, cyfeirir at y Cynlluniau Datblygu Lleol a gaiff eu paratoi o dan Gynllun Datblygu Strategol fel Cynlluniau Datblygu Lleol Cryno.

3.6 Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd gwaith yn dechrau ar y rheoliadau hyn yn ystod gwanwyn 2021 gan anelu at ddod â'r rheoliadau i rym erbyn gwanwyn/haf 2022. Cynhelir ymgynghoriad penodol a gwaith ymgysylltu ag Awdurdodau Cynllunio Lleol ar reoliadau'r Cynlluniau Datblygu Lleol Cryno cyn cwblhau'r rheoliadau.

4. Beth rydym yn ei gynnig? Y bwriad polisi, cwmpas eang ac egwyddorion rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol

4.1 Diben yr ymgynghoriad hwn yw cael sylwadau am fwriad polisi Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol. Bydd yr holl sylwadau a ddaw i law yn ein helpu i lunio a chwblhau'r Rheoliadau hynny.

4.2 Ystyrir bod y broses statudol bresennol yn gweithio'n effeithiol ac, yn gyffredinol, mae holl ddefnyddwyr y system yn ei deall yn dda. Y safbwynt polisi yw ei bod yn briodol y dylai Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol adlewyrchu i raddau helaeth (ac eithrio'r rheini a gynhwysir ym mharagraff 4.4) y camau allweddol a gofynion paratoi cynlluniau Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Lleol cysylltiedig, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol gwneud hynny. Darparwyd dolen i reoliadau'r Cynlluniau Datblygu Lleol ar dudalen 2. Y gwahaniaeth allweddol rhwng Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Datblygu Strategol yw maint, a chaiff yr egwyddor hon ei hadlewyrchu yn Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol.

4.3 Yn ogystal, mae Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n cynnwys Asesiad o'r Gymraeg ac Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ofynion statudol o fewn y broses llunio cynlluniau. Mae pob cynllun yn ddarostyngedig i egwyddorion a ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y darpariaethau hyn yr un mor gymwys i Gynllun Datblygu Strategol ag i Gynllun Datblygu Lleol.

Darpariaethau yn Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Lleol na fwriedir iddynt gael eu cynnwys yn Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol

4.4 Oherwydd natur strategol Cynllun Datblygu Strategol, ni chaiff camau canlynol y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol eu rhoi ar waith:

- Cynigir na ddylid defnyddio gweithdrefn ffurf gryno sy'n cyfateb i'r weithdrefn a nodir yn Rhan 4A o Reoliadau'r Cynlluniau Datblygu Lleol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol. Ystyrir bod y weithdrefn hon yn briodol lle ceir dewisiadau amgen cyfyngedig iawn o ran strategaeth cynllun, opsiynau, polisiau ac ati. Fodd

bynag, oherwydd natur strategol Cynllun Datblygu Strategol, ei gymhlethdod, graddau dylanwadu, ehangder opsiynau, strategaethau a lleoliadau newid posibl, ni fyddai'r dull gweithredu hwn yn briodol.

- Ni chaiff darpariaethau ar gyfer cynlluniau ar y cyd sy'n cyfateb i'r rheini yn Rhan 6 o Reoliadau'r Cynlluniau Datblygu Lleol eu cymhwyso at Gynllun Datblygu Strategol, gan fod Cynllun Datblygu Strategol, yn ôl ei natur, yn cynnig dull cynllunio strategol sy'n cwmpasu ardaloedd sawl Cynllun Datblygu Lleol.

4.5 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r camau allweddol arfaethedig a'r gofynion o ran paratoi cynlluniau ar gyfer rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol ac yn gofyn cwestiynau perthnasol. Wrth ymateb i'r cwestiynau, a allech nodi'n glir pam eich bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau rydych yn eu cynnig.

C1

A ydych yn cytuno y dylai Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol adlewyrchu'n fras y camau allweddol a'r gofynion o ran paratoi cynlluniau a nodwyd yn Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Lleol, yn ddarostyngedig i'r eithriadau y cyfeirir atynt?

Os nad ydych, esboniwch pam

Cam 1: Y Cynllun Cynnwys Cymunedau (gan gynnwys amserlen ar gyfer paratoi cynlluniau)

4.6 Un o nodau craidd y system cynlluniau datblygu yng Nghymru yw sicrhau y caiff cymunedau eu cynnwys mewn ffordd effeithiol ac ystyrlon ar gam cynnar o'r broses, gan anelu at gael cytundeb eang mewn perthynas â'r strategaeth ofodol, y polisïau a'r cynigion. Mae'r egwyddor hon yn gymwys i Gynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Datblygu Strategol.

4.7 Cyn dechrau gwaith ffurfiol ar y Cynllun Datblygu Strategol, rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ymgysylltu â'i gymunedau, gan gynnwys cyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol, ar gynnwys Cynllun Cynnwys Cymunedau ac amserlen ar gyfer paratoi cynlluniau, y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel y Cytundeb Cyflenwi. Dyma fydd y prif gyfrwng ar gyfer nodi sut a phryd y caiff cymunedau eu cynnwys yn y broses ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol er mwyn iddynt allu llywio a dylanwadu ar eu hardal yn effeithiol. Ceir rhestr arfaethedig o'r cyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol yn Atodiad 1. Caiff yr egwyddorion canlynol eu hadlewyrchu yn Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol:

- Rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gytuno ar y Cytundeb Cyflenwi ac unrhyw ddiwygiadau dilynol a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Ni all Cyd-bwyllgor Corfforedig ddechrau'r broses ffurfiol o baratoi'r cynllun hyd nes y bydd wedi cytuno ar Gytundeb Cyflenwi. Bydd y rheoliadau yn dynodi bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ymateb o fewn 4 wythnos i gais i gytuno ar y Cytundeb Cyflenwi. Unwaith y cytunnir ar y Cytundeb Cyflenwi, bydd y broses paratoi / diwygio'r cynllun yn dechrau'n ffurfiol. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ymrwymedig i'r terfynau amser a'r prosesau ymgynghori a nodir.

- Rhaid i'r Cytundeb Cyflenwi nodi sut, pryd a ble y gall cymunedau gymryd rhan yn y broses ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol, gan gynnwys cymryd rhan yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r gweithdrefnau monitro.
- Bydd y Cytundeb Cyflenwi yn nodi'r terfynau amser ar gyfer pob cam yn y broses o baratoi'r cynllun. Caiff y camau a gynigir eu hesbonio yn y ddogfen ymgynghori hon.
- Rhaid i'r Cytundeb Cyflenwi nodi sut y caiff unrhyw ymatebion a sylwadau a geir ar bob cam ymgysylltu / ymgynghori eu cyhoeddi a'u hystyried gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.
- Trefniadau cyhoeddi ar gyfer y Cytundeb Cyflenwi a ble y gellir cael gafael arno.
- Bydd pwyslais drwy'r rheoliadau ar ddefnyddio gohebiaeth electronig. Fodd bynnag, gwneir darpariaeth o hyd i sicrhau bod dogfennau allweddol ar gael ar ffurf copiaù caled yn y prif swyddfeydd a'r lleoliadau allweddol a ddynodir gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn y Cynllun Cynnwys Cymunedau.

C2 A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig yn y Cynllun Cynnwys Cymunedau a'r Cytundeb Cyflenwi?

Os nad ydych, esboniwch pam

C3 A ydych yn cytuno â'r rhestr o gyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol a restrir yn Atodiad 1?

Os nad ydych, pwy arall y dylid ystyried ei gynnwys a pham?

Beth yw'r camau ymgysylltu allweddol mewn perthynas â'r cynllun sy'n cael ei baratoi?

4.8 Cynigir y dylai Cynllun Datblygu Strategol allu cael ei baratoi a'i fabwysiadu o fewn 4 blynedd, sy'n debyg i'r broses bresennol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol. Yr unig wahaniaeth yw maint y materion dan sylw. Y nod allweddol yw llunio proses ddeddfwriaethol nad yw'n rhy hir na chymhleth, ac sy'n cynnig cyfleoedd i gymunedau a rhanddeiliaid ddylanwadu ar gamau allweddol o'r Cynllun Datblygu Strategol sy'n cael ei baratoi a chyflwyno sylwadau arno.

4.9 Yn ogystal, bydd y gofynion o ran datblygu cynaliadwy y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) hefyd yn greiddiol i'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Strategol. Bydd gofynion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, sy'n cynnwys Aseiad Amgylcheddol Strategol ac effeithiau datblygiadau ar y Gymraeg, yn rhan annatod o'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Strategol ac unrhyw waith ymgysylltu. Cynigir y dylid integreiddio'r gofynion statudol o ran Arfarniad o Gynaliadwyedd/Aseiad Amgylcheddol Strategol yn llawn ym mhroses y Cynlluniau Datblygu Strategol ac y byddant yn darparu'r fframwaith, yr opsiynau a'r dystiolaeth angenrheidiol i helpu i lywio strategaeth ofodol a dewisiadau polisi'r Cynllun Datblygu Strategol.

4.10 Ystyrir bod pedair blynedd yn gyfnod rhesymol i baratoi sail dystiolaeth gadarn a chynnig cyfleoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn profi a gofyn am farn ar y materion a'r opsiynau, y strategaeth ofodol, y dyraniadau arfaethedig a'r dystiolaeth ategol mewn ffordd gadarn a thryloyw, gan gynnwys prosesau i alinio ac integreiddio'r gwaith â

gofynion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r gofynion o ran y Gymraeg. Ar y sail hon, cynigir y dylid cadw dull gweithredu dau gam fel y nodir yn rheoliadau presennol y Cynlluniau Datblygu Lleol. Bydd strategaeth a ffefrir a chynllun adneuo cyn y caiff y Cynllun Datblygu Strategol ei gyflwyno i'r cyhoedd ei archwilio.

Cam 2: Ymgysylltu Cyn Adneuo – bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gofyn i safleoedd gael eu cynnwys ac yn ystyried amrywiaeth o strategaethau ac opsiynau

4.11 Mae cynnwys y cyhoedd yn effeithiol ar y cam strategaeth a ffefrir yn hanfodol ar gyfer sicrhau bod y gymuned a rhanddeiliaid yn chwarae rhan ystyrion. Bydd trafodaeth gynnar am y sail dystiolaeth, opsiynau strategol, strategaeth a chynigion cysylltiedig, gan gynnwys lleoliadau a safleoedd strategol, yn hollbwysig er mwyn creu consensws a sicrhau nad oes unrhyw rwystrau mawr o ran cyflawni'r strategaeth a ffefrir. Mae'n hanfodol ymgynghori â chyrff ymgynghori penodol a chyffredinol. Caiff yr egwyddorion canlynol eu hadlewyrchu yn y rheoliadau:

- **Bydd y galwad am leoliadau a safleoedd strategol** yn ffurfio'r blociau adeiladu cychwynnol ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol. Bydd y rheoliadau yn dynodi bod yn rhaid cynnal 'galwad am leoliadau a safleoedd strategol' cyn y gall Cyd-bwyllgor Corfforedig ymgynghori'n ffurfiol ar ei Strategaeth a Ffefrir. Gall y Cyd-bwyllgor Corfforedig neu bartïon eraill â diddordeb gynnig lleoliadau a safleoedd strategol. Caiff yr holl leoliadau a safleoedd strategol a ddaw i law eu cyhoeddi mewn 'Cofrestr o Leoliadau a Safleoedd Strategol Ymgeisiol', a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir, gan alluogi pobl i gyflwyno sylwadau arnynt. Rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ystyried unrhyw leoliadau a safleoedd strategol a gyflwynir cyn penderfynu ar gynnwys y Cynllun Adneuo. Ni fydd Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol yn atal galwad pellach am leoliadau a safleoedd strategol cyn y Cam Adneuo os bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig o'r farn bod hynny'n briodol.
- **Nodi materion ac opsiynau a gwaith ymgysylltu** – Cyn i Gyd-bwyllgor Corfforedig lunio fersiwn derfynol ei Strategaeth a Ffefrir ac ymgynghori ar y strategaeth honno, bydd y rheoliadau yn nodi bod yn rhaid iddo ymgysylltu â chyrff ymgynghori penodol a chyffredinol, ac eraill fel y gwêl y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn briodol (fel y nodir yn y Cynllun Cynnwys Cymunedau) ar yr amrywiaeth o strategaethau ac opsiynau a ystyriwyd a gofyn eu barn amdanynt. Bydd y rheoliadau yn hyblyg yn hyn o beth a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd yn gyfrifol am benderfynu pa fanylion penodol y bydd yn ymgynghori arnynt ar y cam hwn o'r broses. Fodd bynnag, rhaid i gydymffurfiaeth â gofynion cyfranogi ac ymgynghori â'r cyhoedd yn Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol fodloni gofynion y Rheoliadau ar gyfer Aseidiadau Amgylcheddol Strategol hefyd er mwyn sicrhau bod dewisiadau amgen rhesymol i'r cynllun yn cael eu nodi a'u gwerthuso.

Cam 3: Y Strategaeth a Ffefrir – Ymgynghoriad Cyhoeddus Cyn Adneuo a Chrynodeb o'r Ymatebion a Ddaeth i Law

4.12 Y Strategaeth a Ffefrir yw'r cam ymgynghori statudol cyntaf yn y broses ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol. Bydd y Strategaeth a Ffefrir a'r dystiolaeth ategol yn

destun cyfnod ymgynghori statudol o 6 wythnos o leiaf. Mae'n nodi'r dull cyffredinol o ymdrin â maint a lleoliad y twf ac yn sicrhau y caiff y datblygiad ei gynllunio mewn modd cynaliadwy. Mae'n darparu'r fframwaith strategol ar gyfer polisïau, cynigion a dyraniadau defnydd tir penodol manylach, a gaiff eu cynnwys wedyn yn y Cynllun Datblygu Strategol Adneuo. Bydd y rheoliadau yn dynodi bod yn rhaid iddo gynnwys strategaeth ofodol a ffefrir, opsiynau a chynigion ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol a'u goblygiadau, gan nodi dewisiadau amgen cynharach a'u goblygiadau yn glir (Gweler hefyd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a Cham 2). Caiff yr egwyddorion canlynol eu hadlewyrchu yn y rheoliadau:

- Trefniadau cyhoeddi a lleoliadau lle y gall pobl gael gafael ar ddogfennau h.y. ar ffurf electronig neu ar ffurf copi caled ym mhrif swyddfeydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ardal ddaearyddol y Cyd-bwyllgor Corfforedig.
- Gofynion sylfaenol o ran cynnwys a dogfennaeth, gan gynnwys; y Strategaeth a Ffefrir, y dystiolaeth ategol yr ystyrir ei bod yn briodol ym marn y Cyd-bwyllgor Corfforedig, adroddiad cychwynnol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, y gofrestr lleoliadau a safleoedd strategol ac unrhyw adroddiad adolygu. Bydd y Strategaeth a Ffefrir yn cynnwys polisïau a chyfiawnhad rhesymegol.
- Rhestr o ymgynghoreion cyffredinol a phenodol y dylid ymgysylltu â nhw (gweler Atodiad 1) yn ogystal ag unrhyw gorff ymgynghori cyffredinol y mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig o'r farn y bydd ganddo ddiddordeb mewn materion sy'n ymwneud â datblygu ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Bydd hyn hefyd yn cynnwys ymgynghori gorfodol ag unrhyw Gyd-bwyllgor Corfforedig ac Awdurdod Cynllunio Lleol cyfagos.
- Manylion ynghylch sut i gyflwyno ac ymdrin â sylwadau y mae'n rhaid eu cyflwyno o fewn y terfynau amser a nodwyd gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'u hanfon i'r cyfeiriad a ddynodwyd, naill ai ar ffurf copi caled neu ar ffurf electronig.
- Rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ystyried unrhyw sylwadau a wneir mewn perthynas â'r Strategaeth a Ffefrir cyn penderfynu ar gynnwys y Cynllun Adneuo.
- Ar ôl ymgynghori ar y Strategaeth a Ffefrir, rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig baratoi Adroddiad Ymgynghori yn nodi nifer y sylwadau a gafwyd, gan gynnwys pwy y gwnaeth ymgysylltu â nhw a'u hysbysu, a chrynhoi'r prif faterion a godwyd yn ystod yr holl ddigwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori hyd yn hyn a'r ymatebion iddynt. Rhaid i'r Adroddiad Ymgynghori nodi i ba raddau yr ymdriniwyd â'r materion a godwyd cyn llunio cynnwys terfynol y Cynllun Adneuo. Mae hyn yn sicrhau y bydd llwybr archwilio tryloyw ar gael i gymunedau ddeall sut y cafodd eu sylwadau eu hystyried fel rhan o'r broses ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol.

Cam 4: Y Cynllun Adneuo – Ymgynghoriad Cyhoeddus a Chrynodeb o'r Ymatebion a Ddaeth i Law

4.13 Y Cynllun Adneuo yw'r cynllun y mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ei ystyried yn 'gadarn' ac y mae'n bwriadu ei gyflwyno i'w archwilio yn dilyn yr ymgynghoriad ac y gellir ei fabwysiadu. Rhaid ymgynghori am o leiaf chwe wythnos ar y Cynllun Adneuo. Bydd yn cynnwys y strategaeth ofodol derfynol ar gyfer pob math o ddefnydd tir, gan gynnwys dyraniadau safle strategol. Caiff ei ategu gan fap / mapiau cynigion. Cyflwynir sail tystiolaeth ategol ac adroddiadau terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol hefyd. Caiff unrhyw bolisïau a chynigion â goblygiadau gorfodol

eu hadlewyrchu ar fap / mapiau cynigion yn seiliedig ar yr Arolwg Ordnans. Bydd y Cynllun Adneuo yn cynnwys polisïau a chyfiawnhad rhesymegol dros yr amrywiaeth o feysydd pwnc sy'n berthnasol i ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Caiff yr egwyddorion canlynol eu hadlewyrchu yn y rheoliadau:

- Trefniadau cyhoeddi a lleoliadau lle y gall pobl gael gafael ar ddogfennau a'r sylwadau a ddaeth i law, h.y. ar ffurf electronig neu ar ffurf copi caled ym mhrif swyddfeydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n rhan o'r ardal.
- Y gofynion sylfaenol o ran cynnwys a dogfennaeth, gan gynnwys y Cynllun Adneuo, y dystiolaeth ategol yr ystyrir ei bod yn briodol ym marn y Cyd-bwyllgor Corfforedig, adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, gwybodaeth wedi'i diweddarau am leoliadau a safleoedd strategol, yr adroddiad ymgynghori ac unrhyw adroddiad adolygu.
- Manylion ynghylch sut i gyflwyno ac ymdrin â sylwadau y mae'n rhaid eu cyflwyno o fewn y terfynau amser a nodwyd gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig, a'u hanfon i'r cyfeiriad a ddynodwyd, naill ai ar ffurf copi caled neu ar ffurf electronig.
- Ar ôl ymgynghori ar y Cynllun Adneuo a chyn cyflwyno'r cynllun i'w archwilio, rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ddiweddarau'r Adroddiad Ymgynghori gan nodi pa gyrrff y mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi ymgysylltu â nhw, wedi ymgynghori â nhw neu wedi'u hysbysu yn ystod y cam Adneuo. Crynodeb o'r prif faterion a godwyd, yr ymatebion a'r sylwadau a wnaed o ganlyniad i'r gwaith ymgysylltu, ymgynghori neu hysbysu. Cyfanswm nifer y sylwadau a ddaeth i law ac argymhellion y Cyd-bwyllgor Corfforedig o ran sut y cred y dylid neu na ddylid ymdrin â'r prif faterion a godwyd drwy bob un o'r sylwadau a ddaeth i law yn y Cynllun Datblygu Strategol. Caiff hyn ei ystyried yn ystod y broses archwilio. Bydd yr adroddiad yn nodi a fu unrhyw achos o wyro o'r cynllun cynnwys cymunedau ac yn cynnig esboniad a chyfiawnhad cadarn dros wneud hynny.

C4 A ydych yn cytuno â'r dull paratoi ac ymgynghori dau gam a gynigiwyd yn y Strategaeth a Ffefirir a'r Cynllun Adneuo?

Os nad ydych, esboniwch pam a pha ddull amgen y byddech yn ei awgrymu?

C5 A ydych yn cytuno ag elfennau penodol y gweithdrefnau a'r gofynion a gynigiwyd ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol, gan gynnwys cynigion o'r cam cyn adneuo a'r cam adneuo?

Os nad ydych, esboniwch pam

Cam 5: Cyflwyno'r Cynllun Adneuo i'r Cyhoedd ei Archwilio a'i Fabwysiadu

4.14 Ni ddylai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gyflwyno'r Cynllun Datblygu Strategol i Weinidogion Cymru oni fydd wedi ystyried yr holl sylwadau a ddaeth i law yn ystod y Cam Adneuo. Caiff ymateb y Cyd-bwyllgor Corfforedig i'r sylwadau a ddaeth i law yn ystod y cam adneuo eu dogfennu yn yr Adroddiad Ymgynghori wedi'i ddiweddarau.

4.15 Caiff yr Adroddiad Ymgynghori ei ystyried yn rhan o'r broses archwilio, ac fel rhan o'r broses honno, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn ystyried y cynllun a'r dystiolaeth ategol ar ran Gweinidogion Cymru. Pan gaiff cynllun ei gyflwyno i'w archwilio, mae'r cynllun o fewn cylch gwaith yr Arolygiaeth Gynllunio.

4.16 Bydd rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol yn dynodi'r gofynion o ran hysbysu, cyhoeddi a dogfennaeth ar gyfer cyflwyno'r cynllun i'w archwilio. Bydd hyn yn sicrhau bod pob parti â diddordeb yn ymwybodol o'r gweithdrefnau archwilio, enw'r arolygydd penodedig a'r terfynau amser a'r lleoliad/au ar gyfer y gwrandawiaidau archwilio. Mae'r dogfennau penodol y dylid eu cyflwyno i'w harchwilio fel a ganlyn:

- Y Cynllun Adneuo a'r map/iau cynigion ategol
- Yr holl dystiolaeth ategol berthnasol sy'n ymwneud â pharatoi'r Cynllun Datblygu Strategol
- Adroddiad Ymgynghori wedi'i ddiweddarau sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd a'r sylwadau a ddaeth i law yn ystod Camau 2-4 ac ymateb y Cyd-bwyllgor Corfforedig (gweler paragraffau 4.12 - 4.13)
- Adroddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'u diweddarau
- Unrhyw Adroddiad Adolygu perthnasol
- Cofrestr 'lleoliadau a safleoedd strategol'
- Copi o'r sylwadau a ddaeth i law yn ystod y Cam Adneuo
- Y Cytundeb Cyflenwi

4.17 Rhaid i'r arolygydd penodedig ystyried pob sylw 'a wnaed yn briodol' a phenderfynu a yw'r Cynllun Datblygu Strategol yn 'gadarn'. Swyddogaeth yr archwiliad yw asesu a ddilynwyd y gofynion paratoi ac a yw'r Cynllun Datblygu Lleol a gyflwynwyd yn bodloni'r profion cadernid. Nodir y profion cadernid yn Nhabl 37 y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu a byddant yn parhau'n berthnasol ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol, er y byddant yn cael eu diweddarau yn y canllawiau a gynhyrchir mewn perthynas â pharatoi Cynllun Datblygu Strategol.

4.18 Pan fydd y broses archwilio wedi dod i ben, bydd yr Arolygydd yn gwneud argymhellion cyfrwymol (yn Adroddiad yr Arolygydd), gan nodi naill ai y dylid mabwysiadu'r cynllun fel ag y mae neu ar ôl gwneud y newidiadau a nodwyd. Gall y Cyd-bwyllgor Corfforedig fabwysiadu'r cynllun, yn seiliedig ar newidiadau'r Arolygydd, o fewn 8 wythnos i dderbyn yr adroddiad. Rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gyhoeddi adroddiad yr Arolygydd (ar ei wefan ac mewn prif leoliadau) ar y diwrnod y caiff y Cynllun Datblygu Strategol ei fabwysiadu neu cyn hynny.

4.19 Ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Strategol, rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig baratoi Datganiad Mabwysiadu a fydd yn nodi'r dyddiad y caiff y Cynllun Datblygu Strategol ei fabwysiadu ac a fydd yn nodi'n glir, os bydd person yn gwrthwynebu'r Cynllun Datblygu Strategol y gall wneud cais i'r Uchel Lys o dan Adran 113 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae'r adran hon yn nodi y gall person gyflwyno her gyfreithiol yn ystod y cyfnod o 6 wythnos ar ôl dyddiad mabwysiadu'r cynllun. Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r dyddiad mabwysiadu ac yn hysbysu pawb sydd wedi gofyn am gael eu hysbysu ac yn nodi pa ddogfennau allweddol sydd ar gael. Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn sicrhau bod y dogfennau

canlynol ar gael ar-lein ac yn y lleoliadau allweddol a nodwyd gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig:

- Y Cynllun Datblygu Strategol a Map/iau Cynigion
- Datganiad Mabwysiadu
- Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd
- Adroddiad yr Arolygydd

4.20 Rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig anfon un copi caled o'r Cynllun Datblygu Strategol a'r Datganiad Mabwysiadu at Weinidogion Cymru.

C6 **A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig ar gyfer cyflwyno, archwilio a mabwysiadu Cynllun Datblygu Strategol?**

Os nad ydych, esboniwch pam

Cam 6: Monitro, Adolygu a Diwygio

4.21 Mae monitro yn broses barhaus ac nid yw'n dod i ben pan gaiff cynllun ei fabwysiadu. Mae'n ddolen adborth hanfodol o fewn y broses gylchol o gyflawni datblygu cynaliadwy. Dylai gwaith monitro ac adolygu fod yn swyddogaeth barhaus y system a arweinir gan y cynllun ac mae'n agwedd hanfodol ar lunio polisiau ar sail tystiolaeth.

Adroddiadau Monitro Blynyddol

4.22 Rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (ar ôl gwneud penderfyniad) gyhoeddi ac anfon Adroddiad Monitro Blynyddol at Weinidogion Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn ar ôl mabwysiadu. Bydd rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol yn nodi'r canlynol:

- Bod yn rhaid i'r Adroddiad Monitro Blynyddol nodi pa bolisiau na chânt eu rhoi ar waith, gan gynnwys unrhyw gamau adfer er mwyn ymdrin ag unrhyw ddiffygion.
- Y bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn dod i gasgliad o ran a oes angen diwygio'r Cynllun Datblygu Strategol.
- Y dylid cyhoeddi'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar wefan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Y Broses Adolygu a Diwygio

4.23 Dylai'r Adroddiad Monitro Blynyddol asesu i ba raddau y mae strategaeth a pholisiau, safleoedd a gofynion seilwaith allweddol y cynllun yn cael eu cyflawni. Bydd pob Adroddiad Monitro Blynyddol yn seiliedig ar ganlyniadau a sylwadau'r flwyddyn ariannol flaenorol. Bydd hyn yn galluogi tueddiadau i ddod yn glir, gyda sylwadau a dadansoddiadau mwy manwl. Bydd hyn yn helpu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gan y bydd ganddo ddogfennaeth i lywio'r broses o adolygu a diwygio'r Cynllun Datblygu Strategol. Bydd rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol yn dynodi'r canlynol:

- Bod yn rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig adolygu ei Gynllun Datblygu Lleol o fewn pedair blynedd i ddyddiad ei fabwysiadu fan bellaf. Gall Cyd-bwyllgor Corfforedig benderfynu adolygu ei gynllun yn gynharach os bydd tystiolaeth o'r

Adroddiad Monitro Blynyddol, neu'r broses o gyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, yn awgrymu mai dyma'r cam gweithredu mwyaf priodol i ymdrin â'r materion, neu i sicrhau bod y Cynllun Datblygu Strategol yn cydymffurfio â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

- Pan fydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dechrau adolygu ei Gynllun Datblygu Strategol, rhaid iddo gyflwyno Adroddiad Adolygu i Weinidogion Cymru o fewn 6 mis i ddechrau adolygiad. Rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gytuno ar yr Adroddiad Adolygu cyn ei gyflwyno i Weinidogion Cymru.
- Caiff cynnwys yr Adroddiad Adolygu ei nodi mewn canllawiau, sef y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu ar hyn o bryd.

C7 A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig ar gyfer monitro, adolygu a diwygio Cynllun Datblygu Strategol?

Os nad ydych, esboniwch pam

Materion gweithdrefnol ac ystyriaethau eraill

Tynnu Cynllun Datblygu Strategol yn ôl

4.24 Bydd rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol yn cynnwys manylion am y gweithdrefnau gwneud cais, hysbysu a chyhoeddi mewn perthynas â thynnu Cynllun Datblygu Strategol yn ôl.

Tynnu Cynllun Datblygu Strategol yn ôl heb gyfarwyddyd

4.25 Gall Cyd-bwyllgor Corfforedig dynnu Cynllun Datblygu Strategol sy'n cael ei baratoi yn ôl cyn iddo gael ei gyflwyno i'w archwilio. Rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig hysbysu Gweinidogion Cymru o'i fwriad i dynnu'r cynllun yn ôl cyn iddo wneud hynny. Bydd Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol yn nodi, os bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn bwriadu tynnu ei Gynllun Datblygu Strategol yn ôl a rhoi'r gorau i weithio arno, fod yn rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ddarparu'r canlynol i Weinidogion Cymru o fewn 7 diwrnod i'w benderfyniad i dynnu'r cynllun yn ôl:

- Rhesymau cynllunio dros dynnu'r Cynllun Datblygu Strategol yn ôl
- Copi o'r adroddiad i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn argymhell y dylid tynnu'r cynllun yn ôl
- Copi o'r penderfyniad i dynnu'r Cynllun Datblygu Strategol yn ôl

4.26 Gall Gweinidogion Cymru, drwy gyfarwyddyd, ofyn am wybodaeth ychwanegol os na fydd y wybodaeth a ddarperir yn ddigonol neu os na fydd yn cydymffurfio â'r gofynion, ac ymestyn y cyfnod amser ar gyfer ymateb y tu hwnt i'r 6 wythnos a ddynodir.

4.27 Os caiff Cynllun Datblygu Strategol ei dynnu'n ôl, bydd Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol hefyd yn dynodi'r trefniadau hysbysu a chyhoeddi ar gyfer tynnu cynlluniau yn ôl er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymwybodol bod y cynllun wedi cael ei dynnu'n ôl. Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i Gynllun Datblygu

Strategol gael ei dynnu'n ôl, rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith honno a dileu pob dogfen a gyhoeddwyd i'r cyhoedd sy'n ymwneud â'r cynllun.

C8 **A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig ar gyfer tynnu Cynlluniau Datblygu Strategol yn ôl?**

Os nad ydych, esboniwch pam

Ymyriad gan Weinidogion Cymru

4.28 Bydd Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol yn nodi'r gweithdrefnau a'r trefniadau cyhoeddi a hysbysu ar gyfer cymhwyso pwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru. Os caiff pwerau ymyrryd eu defnyddio fel rhan o'r broses ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol, o dan amgylchiadau eithriadol, bydd Gweinidogion Cymru yn gweithredu mewn ffordd dryloyw a bydd y rheoliadau yn nodi darpariaethau mewn perthynas â'r canlynol:

- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhesymau a'r rhesymeg dros ddefnyddio pwerau ymyrryd
- Y gweithdrefnau i'w dilyn yn ystod y rhannau o'r broses sy'n weddill
- Ble a sut y gall pobl wneud sylwadau a'r terfynau amser ar gyfer gwneud hynny
- Sut a ble y gellir cael gafael ar ddogfennaeth
- Rhaid i Weinidogion Cymru roi ystyriaeth ddyladwy i unrhyw sylwadau a ddaw i law
- Os bydd angen penodi person i archwilio'r cynllun, caiff proses dryloyw ei rhoi ar waith, a fydd yn debyg i'r gweithdrefnau archwilio presennol, a chyhoeddir adroddiad yn nodi'r casgliadau a'r rhesymeg dros benodi'r person hwnnw.

C9 **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol, rhowch wybod amdanynt**

Atodiad 1: Diffiniad Arfaethedig o Gyrff Ymgynghori Penodol a Chyffredinol

Bydd Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Strategol yn diffinio'r cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol sylfaenol y dylid eu cynnwys fel rhan o broses y Cynlluniau Datblygu Strategol. Noder mai dim ond y gofynion sylfaenol yw'r gofynion hyn ac y bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig, drwy ei Gynllun Cynnwys Cymunedau, yn dynodi cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol a grwpiau eraill â diddordeb fel y gwêl yn briodol ac yn berthnasol i ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae'r diffiniad arfaethedig fel a ganlyn:

Cyrff Ymgynghori Penodol:

- Unrhyw Gyd-bwyllgor Corfforedig arall y mae ei ardal yn cydffinio ag ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig
- Unrhyw Awdurdod Cynllunio Lleol y mae ei ardal yn rhan o ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig neu'n cydffinio â'r ardal honno
- Corff Adnoddau Naturiol Cymru – Cyfoeth Naturiol Cymru
- Network Rail Infrastructure Limited – lle y bo'n berthnasol
- Gweinidogion Cymru
- Unrhyw Gyngor Cymuned y mae ei ardal yn rhan o ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig neu'n cydffinio â'r ardal honno
- Person y rhodddwyd trwydded iddo o dan adran 6(1)(b) neu (c) o Ddeddf Trydan 1989
- Person y rhodddwyd trwydded iddo o dan adran 7(2) o Ddeddf Nwy 1986
- Bwrdd Iechyd Lleol
- Ymgymwrwr Carthffosiaeth
- Ymgymwrwr Dŵr

Cyrff Ymgynghori Cyffredinol:

- Cyrff gwirfoddol, y mae rhai o'u gweithgareddau, neu bob un ohonynt, o fudd i unrhyw ran o ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig
- Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau hiliol, ethnig neu genedlaethol yn ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig
- Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau crefyddol yn ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig
- Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl anabl, o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2006, yn ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig
- Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n ymgymryd â busnes yn ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig
- Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymru yn ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig

ADRODDIAD GWEITHGOR AELODAU A GYNHALIWDYD AR 2 Medi, 2020

PRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Freya Bentham, Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Edgar Owen, John Pughe Roberts;

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Wyn Ellis Jones (Cadeirydd), Ifor Glyn Lloyd;

Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru

Mr. Brian Angell, Mr. Neil Martinson, Mr. Tim Jones, Mr. Owain Wyn

Swyddogion

Emyr Williams, G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Naomi Jones, Helen Pye, Angela Jones, Catrin Glyn, Anwen Gaffey;

Yn bresennol

Martin Higgitt, Alistair Kirkbride, Rhian Lewis.

1. **Ymddiheuriadau**

Cynghorwyr Philip Capper, Annwen Hughes, Elfed Roberts, Gethin Williams; Tracey Evans; Dafydd Edwards, Swyddog Adran 151.

2. **Datgan Budd**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion Gweithgor yr Aelodau a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2020 a llofnododd y Cadeirydd hwy fel gwir gofnod.

Yn codi ar hynny,

4. Eryri a'r Normal Newydd

Argymhelliad 2 - Dywedodd aelod nad oedd yn cytuno bod y Gweithgor wedi cefnogi'r egwyddor o sefydlu treth dwristiaid i Gymru, nac unrhyw argymhelliad penodol o'r fath. Ni chafwyd tystiolaeth ei gyflwyno i'r Aelodau wneud penderfyniad o'r fath a dim ond trafodaeth gyffredinol a gafwyd. Roedd y Prif Weithredwr yn cofio mai'r casgliad oedd agor trafodaethau gyda thri Pharc Cenedlaethol Cymru, ac y byddai'r mater yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod i gael penderfyniad ffurfiol. Cytunodd Cadeirydd yr Awdurdod hefyd mai hwn oedd ei atgof o'r drafodaeth. Atgoffodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr Aelodau nad oes gan y Gweithgor Aelodau unrhyw awdurdod i wneud penderfyniadau, ac roedd y Swyddog Gwasanaethau Aelodau wedi gwirio cywirdeb y cofnodion trwy wrando yn ôl ar y recordiad.

4. **Cynllun Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Arduw**

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol i ofyn am gymeradwyaeth Aelodau i ddatblygu a chyflawni'r cynllun.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol yr adroddiad a'r cefndir a rhoi trosolwg i'r Aelodau o'r cynllun peilot. Gallai'r cynllun arwain at gynllun mwy sylweddol a chaniatáu i'r Awdurdod weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill fel Cyngor Gwynedd i roi'r gydnabyddiaeth y mae'n ei haeddu i ardal Harlech ac Ardudwy, ardal o bwysigrwydd rhyngwladol.

Ystyriodd yr aelodau yr adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn:-

- mewn ymateb i gwestiwn ynghylch enwau lleoedd Cymru, cyngorodd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol bod Cynllun Adnabod Ardudwy wedi bod yn gwneud y gwaith hwn ers 2007, ac roeddent yn cefnogi'r cynllun peilot. Nid oedd unrhyw fwrriad i greu unrhyw ddyblygu, yn hytrach y bwriad oedd ychwanegu at y gronfa ddata o wybodaeth.
- cefnogi'r prosiect yn llawn a chrosawu cytundeb Llywodraeth Cymru i ailbwrpasu'r cyllid grant.
- gofynnodd Aelod ai'r Gweithgor hwn oedd y fforwm cywir i gymeradwyo'r cynllun. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y gofynnir i'r Aelodau roi cymeradwyaeth gyffredinol fel y gallai'r Prif Weithredwr fynd ymlaen i ddatblygu'r cynllun.
- roedd Aelod yn teimlo y dylai'r pwrpas fod yn ehangach o ran canlyniadau na dim ond rhoi gwell dealltwriaeth i bobl Ardudwy o'r rhinweddau arbennig, ac y dylai fod yn agored i'r cyhoedd yn ehangach. Mewn ymateb, cytunodd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol fod y mater hwn eisoes wedi'i godi ac y byddai'n cynnwys twristiaid i'r ardal a'r elfen dwristiaeth mewn unrhyw gynlluniau yn y dyfodol sy'n dilyn ymlaen o'r peilot.
- mewn ymateb i bryder Aelod na ddylai'r Awdurdod weithio ar ei ben ei hun, dywedodd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol mai'r bwriad oedd gweithio gyda phartneriaid fel Cadw, Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, y Comisiwn Brenhinol ar Henebion a Hynafol Cymru a Chasgliad y Wein Cymru. Teimlai swyddogion fod brys, yng ngoleuni Brexit ac effaith Covid-19, i sicrhau bod defnydd tir hanesyddol yn cael ei gofnodi ac amlinellwyd rôl y Swyddog Prosiect newydd i ddod â'r holl elfennau cymunedol a threftadaeth ynghyd a diweddarau a chydlynu'r data.
- gellir defnyddio'r cynllun peilot fel model ar gyfer ardaloedd eraill yn y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol.
- codwyd pryderon ynghylch cydnerthedd yr Awdurdod ar yr adeg hon o risg uchel. Roedd sawl prosiect unigol ar y gweill a dylai swyddogion gynnal gwerthusiad ffurfiannol ar bob prosiect yn y dyfodol. Cadarnhaodd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol nad oedd swyddogion yn gofyn i'r Aelodau ymrwymo i gynllun ehangach ar hyn o bryd, gan nad oedd tystiolaeth i gefnogi cynllun pellach ar yr adeg hon. Byddai'r cynllun peilot yn darparu model i'r Awdurdod weithredu cynlluniau tebyg ledled y Parc Cenedlaethol heb orfod defnyddio gormod o adnoddau, gan fod y buddsoddiad eisoes wedi'i wneud ar ffurf y Swyddog Prosiect ar gyfer y cynllun hwn.
- nododd y Prif Weithredwr ei fod yn hyderus bod gan ei swyddogion y gallu a'r profiad i gyflawni'r cynllun, ac y bydd angen i'r Aelodau yn y dyfodol fod yn glir ynghylch y math o brosiectau y byddant yn eu cefnogi fel rhan o'r gwaith o baratoi Cynllun Corfforaethol newydd. Roedd mwy o waith yr Awdurdod yn dod yn seiliedig ar brosiectau a byddai'n rhaid addasu strwythurau'r Awdurdod i baratoi ar gyfer hyn.

PENDERFYNWYD

1. **nodi'r adroddiad.**
2. **cefnogi Menter Treftadaeth Treflun Harlech ac Ardudwy a rhoi chymeradwyaeth i swyddogion symud ymlaen â'r cynllun a datblygu cynlluniau pellach yn seiliedig ar y peilot.**

5. **Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth – Yr Wyddfa & Ogwen**

Cyflwynwyd - Adroddiad ar y cyd gan y Rheolwr Partneriaethau a Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa i'r Aelodau ystyried yr egwyddorion a'r argymhellion y mae'r tîm ymgynghori wedi'u cyrraedd, Martin Higgitt Associates, ac i ystyried rôl yr Awdurdod yn y dyfodol wrth gyflawni'r canlyniadau.

Adroddwyd - Cyflwynodd Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa yr adroddiad a chefnidir cysylltiedig â'r astudiaeth a nododd briodoldeb yr adroddiad yng ngoleuni digwyddiadau diweddar. Dywedwyd wrth yr aelodau nad oedd yr holl ddata cefndir wedi'i gynnwys gyda'r adroddiad oherwydd maint pur, ond ei fod ar gael ar gais.

Cynghorodd y Rheolwr Partneriaethau ar natur gynhwysfawr ac uchelgeisiol yr adroddiad terfynol, a'r camau nesaf a awgrymwyd, a chyflwynodd Martin Higgitt a'i dîm i'r cyfarfod i gyflwyno eu canfyddiadau.

Rhoddodd Martin Higgitt gyflwyniad i'r Aelodau ar yr adroddiad a chyflwynodd ei dîm i'r Aelodau. Cynghorodd ar y dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r strategaeth a darparodd asesiad o'r materion. Dywedodd fod consensws cryf ymhlith yr holl sectorau ar gyfer "dull twristiaeth gynaliadwy" yn y gweithdy rhanddeiliaid, a'r angen i newid normau a disgwyliadau cymdeithasol yn fwy cyffredinol o ymgynghoriadau manwl a gynhaliwyd. Cyflwynwyd y weledigaeth a throsolwg o'r model twristiaeth gynaliadwy gyda phroses weithredu a awgrymir yn fanwl. Esboniwyd, er mwyn sicrhau llwyddiant y dull gweithredu hwn, byddai angen trefniadau llywodraethu newydd a model economaidd newydd. Argymhellodd yr adroddiad y dylid creu Partneriaeth ffurfiol rhwng y sefydliadau allweddol (APCE, Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) i ffurfio corff cyflawni priodol.

Yna gofynnwyd i'r aelodau ystyried y camau nesaf o ran trefniadau llywodraethu diwygiedig a datblygu model economaidd newydd. O ran gweithredu, y camau nesaf fyddai dechrau treialu gwahanol fodolau o reolaethau parcio a gwell gwasanaethau gwennol i ddatblygu rhaglen strategol.

Croesawodd yr aelodau y cyflwyniad ac yn codi yn sgil hynny, gwnaethant y sylwadau a ganlyn: -

- gan y bu deialog eisoes gyda Phartneriaeth Ogwen, roedd cyrff tebyg eraill a allai fod â diddordeb mewn cyfrannu, megis Siop Griffiths Dyffryn Nantlle, Antur Nantlle ac Antur Waunfawr. Hefyd, roedd cyfeiriad yn yr adroddiad at Mull ac Iona - sut roedden nhw'n rhagweld hyn ar gyfer Eryri a beth fyddai'r camau nesaf? Yn olaf, a fyddai hwn yn gyfle delfrydol i ail-frandio 'Snowdonia' fel Eryri, a defnyddio Yr Wyddfa yn lle 'Snowdon', fel y gwnaed yn Ayres Rock, a elwir bellach yn Uluru. Mewn ymateb, byddai Martin Higgitt yn croesawu unrhyw wybodaeth bellach ac yn teimlo y byddai'r dull gweithredu hwn yn gofyn am frand y gellir ei adnabod ar lefel Genedlaethol a Rhyngwladol. Mae'r

adroddiad yn argymhell strategaeth ail-frandio a chynllun cyfathrebu llawn i gyflawni ei lawn botensial.

- mae'r adroddiad yn cyfeirio at gymunedau sy'n dioddef o aflonyddwch sylweddol ar eu bywydau beunyddiol oherwydd problemau parcio a thagfeydd oherwydd nifer uchel o ymwelwyr. Teimlai Aelod na ddylid annog twristiaeth bellach gan nad oedd yr Awdurdod eisoes yn gallu ymdopi â nifer yr ymwelwyr ar hyn o bryd. Croesawodd yr Aelod yr adroddiad, ond nododd nad oedd cyfeiriad at y Gymraeg nac effaith twristiaeth ar brisiau tai lleol. Mewn ymateb, dywedodd Martin Higgitt fod y berthynas rhwng cymunedau a thwristiaeth y tu allan i gwmpas yr adroddiad. Nid yw'r adroddiad yn awgrymu mwy o dwristiaeth, ond gwell rheolaeth a rheoleiddio safleoedd prsyur 'pot mêl' i wasgaru twristiaid i ardaloedd eraill a chreu math o dwristiaeth a oedd yn parchu'r amgylchedd sy'n cyfrannu at yr economi leol. Mae'r adroddiad yn awgrymu'n gryf mai sesiynau cynllunio meistr cymunedol fyddai man cychwyn y cam gweithredu.
- gofynnodd Aelod beth oedd wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â'r problemau parcio yn y tymor byr rhwng nawr a'r Pasg, ac a oedd yr Awdurdod yn cynnig gofyn i ffermwyr / tîrffeddiawyr lleol agor eu caeau i greu parcio dros dro? Bu cynnydd hefyd mewn problemau sbwriel ac er bod yr adroddiad yn cael ei groesawu, nid oedd unrhyw arwydd o sut y byddai'r gwaith yn cael ei ariannu. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r Awdurdod yn parhau â'r trefniadau a sefydlwyd dros yr ychydig fisoedd diwethaf a chadarnhaodd y Rheolwr Partneriaethau, unwaith y bydd yr Aelodau'n dod i gytundeb ar yr egwyddorion, yna byddai swyddogion mewn sefyllfa i symud ymlaen a cheisio'r cyllid angenrheidiol. Roedd ffynonellau potensial buddsoddiad cychwynnol eisoes wedi'u nodi.
- cefnogodd Aelod y syniad o roi cynnig ar rhywbeth gwahanol a chael mwy o werth o dwristiaeth, am lai o gost i seilwaith y Parc Cenedlaethol. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at y rheilffordd o Gyffordd Llandudno i Flaenau Ffestiniog - a oedd opsiwn i ddefnyddio'r seilwaith gan ddarparwyr preifat fel Rheilffordd Ucheldir Cymru a Rheilffordd Ffestiniog? Opsiwn arall ar gyfer y dyfodol fyddai edrych i mewn i'r potensial o gael sefydliadau i noddi ceir trydan i'w defnyddio yn y Parc Cenedlaethol i hyrwyddo eu busnesau. Cadarnhaodd Martin Higgitt fod cyfle i gryfhau coridor yr A470 yn y dyfodol, o bosibl trwy integreiddio'r gwasanaeth bysiau a threnau yn well, ond roedd yn teimlo bod Rheilffyrdd Ucheldir a Ffestiniog Cymru yn atyniadau twristiaid i raddau helaeth a bod eu prisiau, eu hamseroedd a'u hamleddau ddim yn addas i'w ddefnyddio fel gwasanaeth cyfleustodau. Byddai'r holl syniadau ar gyfer nawdd yn cael eu hystyried wrth i'r bartneriaeth symud ymlaen.
- croesawyd yr adroddiad, a chodwyd y cwestiwn a ddylai Beddgelert fod yn borth neu a ddylid ymestyn hwn i Borthmadog? Roedd yn anodd cyrraedd Beddgelert ac roedd natur y pentref ei hun hefyd yn bryder. Byddai uchelgais tymor hir o 5 mlynedd angen ymrwymiad gwleidyddol i gefnogi'r cyllid a darparu mecanweithiau i sicrhau nad oedd y dull gweithredu yn cyrraedd y nod. Pryder arall oedd yr angen i integreiddio'r strategaeth dwristiaeth gynaliadwy â mesurau trafniadaeth gynaliadwy.
- roedd Aelod yn teimlo bod hwn yn adroddiad cynhwysfawr ond cytunodd fod angen iddo fod yn rhan o strategaeth dwristiaeth gynaliadwy. Roedd digon o ardaloedd o amgylch y Parc Cenedlaethol nad ydyn nhw'n profi'r un faint o dwristiaeth â'r Wyddfa ac Ogwen. Roedd materion yn ymwneud â gwasgaru a lledaenu y mae angen eu hystyried yn ofalus, ac ar ben hynny, cytunodd yr Aelod y dylid ailystyried materion mynediad m Meddgelert, fel y dylai'r seilwaith rheilffyrdd, gyda'r rheilffyrdd yno eisoes, fod yn bosibl cychwyn deialog, yn enwedig gyda'r prif ddarparwyr. Roedd yr Aelod yn cefnogi cynlluniau peilot a gofynnodd a allai'r Awdurdod wneud mwy o ran rhwydweithiau beicio a fyddai'n gost isel, yn effaith isel ac yn gymharol hawdd i'w wneud. Roedd llwybr bws o

Fangor i Fethesda, a oedd 5 munud o Ogwen, a'r llinell reilffordd ym Mangor, a oedd i gyd yn enillion syml. Gofynnodd yr Aelod am enghraifft o ble roedd y model Partneriaeth wedi cael ei ddefnyddio ac a oedd wedi gweithio, fel arfer mae angen arweinyddiaeth wleidyddol glir ar newidiadau trafniadaeth mawr, yn aml yn cael eu harwain gan naill ai Faer neu gorff trafniadaeth strategol, tra gall fod gwrthdaro yma.

- mewn ymateb, cytunodd Martin Higgitts fod y dull teithio cynaliadwy yn ategu mater twristiaeth gynaliadwy ehangach, a'r cadwyni cyflenwi ac ati. Teimlai hefyd ei bod yn hanfodol clymu i mewn a dysgu o'r ffordd y mae atyniadau ymwelwyr o'r sector preifat yn marchnata eu hunain o gymharu â sut mae trafniadaeth gyhoeddus yn gwneud hynny. Byddai'r mater ynghylch gwasgaru twristiaid, unwaith y bydd y marchnata'n iawn, yn helpu i godi ymwybyddiaeth o gyrchfannau eilaidd. Wrth i'r bartneriaeth symud ymlaen, byddai cyfleoedd ymarferol i roi gwasanaethau newydd ar waith ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Gwynedd a darparu gwell cysylltiadau lleol heb ddyblygu'r gwasanaethau presennol. Efallai y byddai hefyd yn bosibl ystyried yr opsiwn rheilffyrdd eto wrth i'r bartneriaeth ddatblygu. Fodd bynnag, roedd natur y cysylltiadau rheilffyrdd twristiaeth yn golygu eu bod yn araf ac yn anaml yn ogystal â bod yn fusesau proffidiol fel ag y maent.
- Mewn ymateb i'r ddau gwestiwn diwethaf, atebodd Alistair Kirkbride rai o'r pryderon llywodraethu.
 - roedd yna risg o fod yn or-bryderus gyda'r manylion, ac mai'r cam pwysicaf oedd cytuno ar yr uchelgais strategol ar gyfer nod tymor hir i ganolig, a rannwyd gan y sefydliadau partner.
 - nid oedd unrhyw enghreifftiau yn y DU lle roedd y model hwn wedi gweithio, ond roedd angen rhoi cynnig arno, ac ar ôl y cyfnod clo roedd archebu parcio ymlaen llaw ac ati, wedi rhoi cyfle i wneud pethau'n wahanol. Roedd hwn yn gyfle i fod yn arloesol yma yng Nghymru. Roedd y tîm wedi edrych ar enghreifftiau o dramor, ond y prif bwynt yw bod angen amdano, ac yn ail mae angen ymrwymiad ('prynu i mewn') ar lefel uchel ar draws sefydliadau ac ymgysylltu â'r Llywodraeth. Gall uchelgais a newid yr hyn rydych chi'n gofyn amdano newid graddfa'r cyllid sydd ar gael.
 - yn absenoldeb Maer neu gorff trafniadaeth strategol, mae angen i Awdurdod y Parc Cenedlaethol agor y sgwrs ar y gwahanol fodolau posibl ac mae angen iddo hefyd gyfleu i Lywodraeth Cymru yn bennaf, ac i bartneriaid, bod ffordd o weithredu fel corff trafniadaeth strategol.
 - o ran cyllid, roedd angen derbyn trefniadau tymor byr i ganolig ac yna'n raddol greu model economaidd gwahanol ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hir. Yn hytrach nag edrych ar gollu refeniw parcio, cael symudiad meddwl o gyllid ariannu i gyllid.
- roedd ardaloedd sydd ag ardoll twristiaeth yn gallu rheoli eu twristiaid gan fod ganddynt yr arian ar gael. Mae angen newid y model economaidd er mwyn i ni lwyddo.
- croesawyd yr adroddiad, ynghyd â'r uchelgais ar gyfer y ffordd ymlaen. Atgoffwyd yr aelodau o'r diffiniad o or-dwristiaeth "y sefyllfa lle mae effaith twristiaeth ar adegau penodol ac mewn rhai lleoliadau, yn fwy na throthwyon capsaiti corfforol, ecolegol, cymdeithasol-economaidd, seicolegol a / neu wleidyddol". Roedd hefyd yn bwysig bod yr Awdurdod yn glir yn y gwersi y mae am eu dysgu o wledydd eraill, megis y cynllun Perllau Alpaidd, a oedd ar raddfa fawr iawn. Mae angen cynlluniau rheoli cyrchfan gwell ar yr Awdurdod a chan fod y Parc Cenedlaethol ei hun wedi'i rannu'n ddaearyddol rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, roedd angen trafodaeth strategol er mwyn datblygu cynlluniau rheoli ac amcanion sy'n gweddu i anghenion y Parc Cenedlaethol

- nodi ei bod yn bwysig o'r cychwyn, fel rhan o'r strategaeth ehangach, i addysgu a chodi ymwybyddiaeth o'r ardal, cydnabod Eryri fel ardal unigryw o sensitifrwydd diwylliannol, ieithyddol ac ecolegol.
- dywedodd y Rheolwr Partneriaethau fod y cyd-destun gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd cyfredol yng Nghymru, yn rhoi cyfle unigryw i fwrw ymlaen ag uchelgais y strategaeth, i ddechrau ar yr ail-frandio a chodi mwy o ymwybyddiaeth o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Roedd swyddogion yn barod i ddechrau ar y gwaith a nodwyd ar sylwadau Aelodau.
- cytunwyd bod gwasgaru ymwelwyr yn gwestiwn ar gyfer y dyfodol. Mae swyddogion eisoes yn gweithio'n agos gyda Phartneriaethau Rheoli Cyrchfan Conwy a Gwynedd i hwyluso'r trafodaethau hyn.
- mewn cyfarfod blaenorol roedd aelod wedi gofyn i'r Crynodeb Gweithredol fod yn glir a tharo'r naws a'r cynnwys cywir.
- cytunodd Martin Higgitt fod rhyw fath o daliadau twristiaeth yn gyffredin y tu allan i'r DU ac y byddai model economaidd newydd yn edrych ar y gwahanol fathau o gyllid. Hefyd, i egluro, roedd y rhwydwaith Perlau Alpaidd yn darparu gwarant marchnata a symudedd cyffredin ac er nad oedd yn gynhwysfawr, fel y nodwyd, gellid datblygu rhai agweddau fel rhan o'r strategaeth hon. Cytunodd y byddai angen i gynlluniau rheoli cyrchfannau ar gyfer Eryri fod yn wahanol i Ogledd Cymru yn gyffredinol ac i bartneriaid eraill y sector cyhoeddus a thwristiaeth, a hefyd, bod angen i'r ffordd y byddai'r strategaeth yn cael ei hyrwyddo gael ei halinio ag eraill. Teimlai fod hwn yn gyfle gwyb i gefnogi'r diwydiant twristiaeth a helpu cymunedau lleol i wella.
- gan fod gwahanol bobl eisiau pethau gwahanol o'r crynodeb gweithredol, mae swyddogion yn ystyried ysgrifennu crynodebau gweithredol amgen fel y penderfynir gan y gynulleidfa.
- atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau nad oes gan y Parc Cenedlaethol awdurdod i weithredu ond bod ganddo rôl i ddod â phobl ynghyd, a dyna mae'r adroddiad yn ei wneud. Roedd gan y Prif Weithredwr un pryder yn yr ystyr bod y tri phartner a enwir yn yr adroddiad, yr un partneriaid a oedd wedi bod yn ceisio llwyddo mewn cynllun trafniadaeth gynaliadwy ers blynyddoedd lawer ac roedd angen dadansoddi pam mae hyn wedi methu. Roedd y Prif Weithredwr wedi argymhell y dylid cyflwyno'r adroddiad yn uniongyrchol i Gabinetau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Gwynedd i ennill cefnogaeth wleidyddol, yr oedd y Prif Weithredwr yn teimlo fod hyn wedi bod yn brin dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.
- gofynnodd Aelod am drafodaethau cynnar gyda Llywodraeth Cymru. Nododd hefyd, er bod twristiaeth wedi cynyddu eleni, y bydd pobl sydd fel arfer yn treulio eu gwyliau dramor yn dychwelyd i wneud hynny unwaith y bydd y pandemig drosodd ac nad oedd am weld concrit a tharmac yn ymddangos yn ddiangen yn y Parc Cenedlaethol. Mae angen i'r Awdurdod gadw'r momentwm i fynd nawr bod y gwaith wedi dechrau a dylai weithio gyda Chynghorau Conwy a Gwynedd i sicrhau grantiau o wahanol ffynonellau.
- nid oedd Aelod yn cefnogi'r syniad o baratoi Crynodebau Gweithredol gwahanol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd oherwydd byddai hyn yn arwain at ddryswch. Roedd un crynodeb gweithredol yn bosibl.
- diolchodd y Pennaeth Ymgysylltu â'r Aelodau am y drafodaeth a theimlai fod y gwaith yn gyfle i Eryri arwain y ffordd ledled Prydain. Roedd yna lawer o ddi-ddordeb a momentwm yn dilyn yr haf prysur ac mae Llywodraeth Cymru wedi cadw mewn cysylltiad, ac yn gweld gwerth cynlluniau peilot o'r fath. Diolchodd y Pennaeth Ymgysylltu hefyd i Martin Higgitt a'i dîm am eu gwaith a diolchodd i Angela Jones a Catrin Glyn am y gwaith y maent eisoes wedi'i wneud ar y prosiect hwn.

- diolchodd y Cadeirydd hefyd i Martin a'i Dîm a diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith. Roedd yn sicr y byddai'r Aelodau'n fwy na pharod i gynorthwyo swyddogion a cheisio cefnogaeth gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar ran yr Awdurdod.

PENDERFYNWYD

- 1. ar ôl ystyried y strategaeth gyffredinol a'r argymhellion a gyflwynwyd gan y tîm ymgynghori, i gytuno ar y canlyniadau fel yr amlinellwyd.**
- 2. bod yr Awdurdod yn cytuno i'r rôl o ddod yn un o lysgenhadon y strategaeth i'w hyrwyddo o fewn eu rhwydweithiau eu hunain a chefnogi datblygiad gweledigaeth uchelgeisiol y dull gweithredu Twristiaeth Gynaliadwy.**

Daeth y cyfarfod i ben am 16.00

ADRODDIAD GWEITHGOR AELODAU A GYNHALIWDYD AR 21 HYDREF, 2020

PRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cyng Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Judith Humphreys, Edgar Owen, John Pughe Roberts;

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyng Philip Capper, Wyn Ellis Jones, Ifor Glyn Lloyd;

Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru

Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Mr. Owain Wyn

Swyddogion

Emyr Williams, G. Iwan Jones, Naomi Jones, Bethan Hughes, Anwen Gaffey;

Yn bresennol

Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg, yng nghwmni Eleri James.

- Ethol Cadeirydd**
PENDERFYNWYD ethol Cyng Annwen Hughes fel Cadeirydd ar y Gweithgor Aelodau.
- Ymddiheuriadau**
Cyng Freya Bentham, Elfed Roberts, Gethin Williams; Mr. Neil Martinson.
Dafydd Edwards, Swyddog Adran 151.
Jonathan Cawley, Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir.
- Datgan Budd**
Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.
- Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion y Gweithgor yr Aelodau a gynhaliwyd ar 2 Medi 2020 a llofnododd y Cadeirydd nhw fel gwir gofnod.
Yn codi ar hynny,
5. Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth -Yr Wyddfa & Ogwen
Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i gyfarfod anffurfiol o Gabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac y byddai'n cael ei gyflwyno i Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd ymhen pythefnos. Ar ôl ennill eu cefnogaeth mewn egwyddor, byddai'r adroddiad wedyn yn cael ei ryddhau i gynulleidfa ehangach. Dywedodd y Prif Weithredwr fod Ken Skates AS, y Gweinidog dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru hefyd wedi dangos diddordeb yn y gwaith. Yn codi ar hynny, dywedodd Cadeirydd yr Awdurdod fod yr adroddiad wedi cael derbyniad da gan Aelodau Craffu Cyngor Conwy a diolchodd i swyddogion yr Awdurdod am eu cyflwyniad rhagorol.
- Cynllun Treftadaeth Ddiwylliannol: Enwau Lleoedd Eryri**
Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol i Aelodau ddechrau'r drafodaeth ffurfiol i lywio'r Cynllun Treftadaeth Ddiwylliannol a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn 2021.

Adroddwyd - Croesawodd y Cadeirydd Mr Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg i'r cyfarfod. Diolchodd Mr. Roberts i'r Aelodau am y gwahoddiad i annerch y cyfarfod a chyflwynodd Eleri James, a oedd yn arbenigo yn y maes gwaith hwn.

Anerchodd Mr. Roberts y cyfarfod a thrafod:-

- y persbectif Cenedlaethol cyfredol.
- y diddordeb cynyddol dros yr ychydig fisoedd diwethaf, a oedd wedi ail sbarduno trafodaethau.
- yr angen i sefydlu beth yn union y gellir ei wneud.
- yr angen i ddarganfod maint y broblem oherwydd diffyg data cadarn a thystiolaeth.
- yr angen i nodi pa gategori o "enwau" oedd yn cael ei ystyried, p'un a oeddent yn enwau tai / ffermydd, defnyddio enwau gan asiantaethau mapio a sefydliadau eraill neu'r defnydd o enwau gan rai Awdurdodau Lleol ac ati.
- Amlinellodd Ms. James gyfrifoldebau Swyddfa'r Comisiynydd:-
 - gweithio ar safoni enwau lleoedd ar gyfer dinasoedd, trefi a phentrefi, gyda chefnogaeth Panel o arbenigwyr, sy'n dilyn canllawiau cenedlaethol.
 - bod y gwaith safoni yn cael ei wneud mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol sy'n darparu persbectif lleol a hysbysu am unrhyw enwau newydd.
 - cyhoeddwyd yr enwau lleoedd ar-lein.
 - ar ôl cyrraedd cam mawr gyda'r gwaith hwn, roedd swyddogion bellach mewn sefyllfa i ehangu hynny i brosiectau eraill, megis enwau tirwedd.
- yn hanesyddol, mae cyngor cyfreithiol wedi nodi y byddai'n anodd dylanwadu ar enwau preifat eiddo oherwydd goblygiadau hawliau dynol.
- y berthynas â'r O.S. bellach yn un adeiladol gydag ychydig iawn o enwau heb eu rhestru.
- trafodwyd enghreifftiau lle'r oedd cymdeithas wedi newid enwau hanesyddol, e.e. Cadair / Cader Idris eu trafod.
- roedd y dirwedd wleidyddol yn newid, roedd pedair o'r pleidiau seneddol yn trafod yr heriau a'r rhwystrau yn hytrach na'r egwyddor yn unig, a oedd yn gam pwysig ymlaen.
- gallai unrhyw ddeddfwriaeth newydd gymryd 3 i 4 blynedd i'w sefydlu, ac er mwyn sicrhau na chollir enwau tirwedd, cynigiodd y Comisiynydd ddynodi ardal Parc Cenedlaethol Eryri fel prosiect peilot i greu cofrestr a nodi enwau tirwedd.
- byddai'r Comisiwn yn hapus i weithio gyda'r Awdurdod neu arwain ar y peilot dros y 12 mis nesaf. Y gwaith hwn fyddai ymchwilio a chasglu tystiolaeth a modelau o wledydd eraill, er enghraifft Canada, sydd â deddfwriaeth debyg iawn i'r Deyrnas Unedig, ac yr oedd swyddogion gwaith y Comisiwn yn teimlo ei fod ymhlith y gorau.

Hefyd rhoddodd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol gyflwyniad manwl i'r Aelodau, ac amlinellir ei brif bwyntiau isod

- mae enwau lleoedd yn rhan bwysig o'n treftadaeth ac yn haeddu cael eu gwarchod.
- mae yna wahanol ffyrdd y gellir gwneud hyn, e.e. trwy bolisiau ac annog y defnydd o enwau lleoedd.
- yr angen i ystyried defnyddwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg a sut y gallwn sicrhau eu bod yn cefnogi amddiffyn enwau lleoedd cynhenid.
- bu trafodaeth hefyd ar amddiffyn a / neu ddefnyddio enwau lleoedd Saesneg mewn rhai achosion.
- roedd hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd yn bwysig, yn ogystal â'u hamddiffyn.

- roedd consensws y dylid amddiffyn enwau lleoedd, ac er bod gan yr Awdurdod brosiectau parhaus a'i fod hefyd yn cefnogi hyn yn ei waith o ddydd i ddydd, nid oedd polisi penodol ar y mater.

Croesawodd yr aelodau'r cyflwyniadau a gwnaethant y sylwadau canlynol:-

- Roedd yr aelodau'n ymwybodol o'r angen i fod yn realistig yn yr hyn y gellir ei gyflawni.
- nes bod deddfwriaeth genedlaethol ar waith, roedd Aelod yn teimlo y dylai'r Awdurdod, fel mesur ataliol, gynyddu'r ffi am newid enw tŷ o'r Gymraeg i'r Saesneg.
- roedd cymunedau lleol yn datblygu ac yn gweithredu prosiectau er budd eu heconomïau lleol a darparu gwell dealltwriaeth i dwristiaid. Ystyriwyd Cadwyn Clwyd yn enghraifft dda o sut i ddarparu cefnogaeth a helpu grwpiau cymunedol i ddatblygu.
- nododd Aelod fod NCT 20 wedi bod yn aneffeithiol ac y dylai'r Gymraeg fod yn ffactor cynllunio, fel yn achos cenedloedd fel Catalwnia.
- Nododd yr aelodau bwysigrwydd rôl y Comisiynydd wrth sicrhau, o ran yr iaith Gymraeg, bod sicrwydd sydd wedi'i gynnwys mewn maniffesto yn cael ei gynnwys mewn unrhyw raglen newydd i'r Llywodraeth.
- gan fod twristiaeth yn rhan bwysig o'r economi, yn y cyd-destun hwnnw, er budd y rhai di-Gymraeg, mae angen hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd yn well a rhoi gwell esboniad o'r hyn y mae'r enwau'n ei olygu.
- Cytunodd yr aelodau fod defnyddio'r enw Cymraeg yn hanfodol ac fel enghraifft, nodwyd bod y defnydd o'r gair "Senedd" wedi'i dderbyn ar unwaith.
- yn dilyn awgrym y dylai'r Awdurdod ddefnyddio "Eryri" ac nid "Snowdonia" yn y dyfodol, cytunwyd y dylid sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i drafod y mater. Byddai hyn yn caniatáu amser i swyddogion werthuso ac asesu'r posibilïadau a rhoi cyfle i'r Aelodau gyflwyno adroddiad, gydag ystod o argymhellion, i'r Awdurdod eu hystyried.
- y cylch gorchwyl ar gyfer y Grŵp Tasg a Gorffen i'w gytuno ar ôl i'r briff gael ei ystyried. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai hyn yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad craffu a gyflwynwyd i gyfarfod o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 18fed Tachwedd 2020. Gwahoddodd yr Aelodau i anfon awgrymiadau, ato fo ei hun neu i'r Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol, o ran beth yr hoffent i glych gorchwyl y Grŵp Tasg a Gorffen fod.
- argymhell y dylai fod gan y Grŵp aelodaeth o chwech, - i'w dewis ar ôl cytuno ar y cylch gorchwyl, er mwyn elwa o arbenigedd yr Aelodau. Dylai'r Grŵp Tasg a Gorffen gyflwyno ei argymhellion ar ddiwedd cyfnod penodol o 6 mis.
- cytuno y dylai'r Prif Weithredwr gynnal trafodaethau gyda'r Comisiynydd ar y prosiect Peilot i sefydlu ar ba sail i symud ymlaen.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Aled Roberts a Ms Eleri James am eu cyflwyniad a diolchodd i'r Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol am ei hadroddiad a'i chyflwyniad.

PENDERFYNWYD

- 1. nodi cynnwys yr adroddiad a'r cyflwyniad i'w ddefnyddio i ddatblygu'r Cynllun Treftadaeth Ddiwylliannol ac i drafod polisiau'r Awdurdod ymhellach o ran enwau lleoedd.**
- 2. bod yr Aelodau'n derbyn cyflwyniad pellach gan Swyddfa Comisiynydd yr Iaith Gymraeg, y Comisiwn Brenhinol ar Henebion Hynafol Cymru a Cadw ar y Rhestr o Enwau Lleoedd Safonedig a Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol.**

3. y dylai'r Aelodau dderbyn drafft o'r Cynllun Treftadaeth Ddiwylliannol yn gynnar yn 2021.
4. bod yr Aelodau'n darparu arweiniad ar y camau nesaf wrth gadarnhau polisi'r Awdurdod ar enwau lleoedd yn y Parc Cenedlaethol.
5. argymhell y dylid sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen, y cylch gorchwyl a'r aelodaeth i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 18 Tachwedd 2020.
6. y dylai'r Prif Weithredwr drafod sefydlu prosiect Peilot gyda'r Comisiynydd Cymraeg a sefydlu ar ba sail i symud ymlaen.

6. **Amcanion Strategol a Llesiant a'r Cynllun Corfforaethol 2021-26**

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Prif Weithredwr i'r Aelodau ystyried a thrafod yr ymateb i'r ymgynghoriad anffurfiol ac i'r Aelodau argymhell amcanion strategol / lles i'w hystyried gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau at ddibenion ymgynghoriad ffurfiol â rhanddeiliaid a phartneriaid.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a'r cefndir a gofynnodd i'r Aelodau gadarnhau eu bod yn derbyn yr amcanion drafft fel yr amlinellwyd. Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr ymateb i'r ymgynghoriad anffurfiol wedi bod yn siomedig, er bod yr hyn a ddaeth i law yn ddefnyddiol iawn.

Dywedodd y Prif Weithredwr hefyd fod y Dirprwy Weinidog wedi cadarnhau anghymwysu'r Mesur Llywodraeth Leol, a fydd yn galluogi aliniad gwell i'r Awdurdod adrodd a dangos sut mae'n cwrdd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, roedd y Prif Weithredwr yn fodlon bod digon o hyblygrwydd o fewn yr amcanion i fynd i'r afael â materion a allai godi o ganlyniad i bandemig Covid.

Yn ddarostyngedig y diwygir 2.3.2 Ffyrdd cydnerth o weithio i ddarllen "Datblygu a 'hyrwyddo' arfer gorau", Cadarnhaodd yr aelodau eu bod yn fodlon â'r tri maes canlyniad fel y'u cyflwynwyd.

PENDERFYNWYD

1. **nodi'r adroddiad a thrafod ymatebion yr ymgynghoriad anffurfiol.**
2. **yn ddarostyngedig i'r diwygiad uchod, argymhell yr Amcanion Strategol / Lles i'w hystyried gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 18fed Tachwedd 2020 at ddibenion ymgynghoriad ffurfiol gyda rhanddeiliaid a phartneriaid.**

Daeth y cyfarfod i ben am 16.10

EITEM RHIF 15 (1)



CYFARFOD
O
WEITHREDIA
Y PARCIAU
CENEDLAETH
DYDD IAU,
7 MAI 2020
CYFARFOD
RHITHWIR,

2.00pm –
3.50pm

 Parciau National
Cenedlaethol Parks

Yn bresennol:

| | | |
|-------|---------------------------|--|
| (PH) | Y Cyngh. Paul Harries | Cadeirydd Parciau Cenedlaethol Cymru (PCC) + APC Arfordir Penfro (APCAP) |
| (DC) | Y Cyngh. Di Clements | Is-gadeirydd, APCAP |
| (TJ) | Tegryn Jones | Ysgrifenyddiaeth PCC, Prif Weithredwr APCAP |
| (OW) | Owain Wyn | Cadeirydd APC Eryri (APCE) |
| (WEJ) | Y Cyngh. Wyn Ellis-Jones | Is-gadeirydd APCE |
| (EW) | Emyr Williams, | Prif Weithredwr APCE |
| (GR) | Y Cyngh. Gareth Ratcliffe | Cadeirydd APC Bannau Brycheiniog (APCBB) |
| (JA) | Julian Atkins | Prif Weithredwr APCBB |

Yn bresennol:

Caroline Llewellyn APCAP

1. CROESO GAN Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU:

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol.

2. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF 12.11.19:

Nodwyd bod y cofnodion yn gywir.

Materion yn codi

a) Briff am yr Astudiaeth Economaidd (Cofnod 3):

Dywedodd EW y cysylltwyd â Chyngor Sir Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ond y bu'n rhaid rhoi'r gorau i'r gwaith am y tro oherwydd Covid-19. Byddai'r gwaith hwn yn ailddechrau a soniwyd y byddai dealltwriaeth o'r economi sylfaenol hyd yn oed yn bwysicach ar ôl y pandemig.

b) Tanysgrifiad PCC i Gyngor y Parciau Cenedlaethol (Cofnod 7):

Dywedodd TJ fod tanysgrifiad 2019/20 wedi'i dalu. Ychwanegodd OW ei fod i fynychu cyfarfod nesaf y Cyngor fel Sylwedydd, ond roedd hwnnw wedi'i ohirio.

c) Adolygiad Glover o Barciau Cenedlaethol Lloegr (Cofnod 9):

Dywedodd JA nad oedd yn gwybod am unrhyw oedi gyda'r Adolygiad hwn, dim ond ei fod yn cymryd mwy o amser yn yr amgylchiadau presennol.

d) Casglu Profiadau (Cofnod 10):

Dywedodd EW ei fod wedi cysylltu â'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, oherwydd y cytunwyd i gymryd rhan yn y prosiect ar y cyd, ac roeddent wedi gofyn, yn ogystal â mynd i'r afael ag anabledau corfforol a meddyliol, a ellid cynnwys y cymunedau difreintiedig. Soniwyd am hyn wrth y Swyddog Arweiniol yn Lloegr, ond nid oeddent yn gallu derbyn cais o'r fath. Ychwanegodd TJ fod twristiaeth wedi newid yn sylweddol o ganlyniad i Covid-19, ac y gallai cyfleoedd godi yn ystod y misoedd nesaf i gynnal menter gyda Croeso Cymru ar hyd y llinellau yr oedd PCC wedi bod yn gobeithio amdanynt.

e) Newyddion o ardaloedd PCC - Aelodaeth APCBB/APCE (Cofnod 15)

Dywedodd GR fod 33 o geisiadau wedi dod i law am y ddwy swydd yn APCBB a bod Liz Davies ac Aled Edwards wedi'u penodi. Crëwyd rhestr wrth gefn pe bai swyddi gwag yn codi yn y dyfodol agos. Ychwanegodd fod Diwrnod Cynhwysiant wedi'i gynnal cyn yr hysbyseb fel y gallai darpar ymgeiswyr drafod yr hyn a oedd yn gysylltiedig â'r rôl, a soniwyd y bu hynny'n ddefnyddiol.

Dywedodd OW fod 11 cais wedi dod i law am swydd APCE a bod Tim Jones wedi'i benodi. Roedd eu Diwrnod Cynhwysiant wedi'i gynnal ychydig cyn y Nadolig ac nid fu'n llwyddiannus iawn.

Yn dilyn trafodaeth ynghylch y broses benodi, awgrymwyd y gellid codi'r mater o sut i ehangu'r sylfaen ymgeiswyr ar gyfer penodiadau yn y dyfodol gyda'r Dirprwy Weinidog fel rhan o drafodaeth ehangach ynghylch defnyddioldeb neu fel arall proses fentora cyn y rownd nesaf o recriwtio, sy'n debygol o fod yn 2025.

3. CYLLIDEB PCC 2019/20:

Cyflwynwyd sefyllfa'r gyllideb fel yr oedd ym mis Mawrth 2020. Oherwydd lefel y cronfeydd wrth gefn yn y blynyddoedd blaenorol ni ofynnwyd am gyfraniad gan bob un o'r APCau, ond mae'n debyg y byddai angen gwneud cyfraniad yn y flwyddyn sydd i ddod. Roedd tri phrif faes gwariant: Seminar yr Aelodau ar Dirweddau Dynodedig, nawdd yn Sioe Frenhinol Cymru a phresenoldeb yn yr Eisteddfod Genedlaethol os oedd honno mewn un o'r Parciau Cenedlaethol neu'n agos atynt.

4. CYLLIDEB PCC 2020/21:

Cyflwynwyd y gyllideb ar gyfer 2020/21. Nodwyd, er bod arian wedi'i ddyrannu (er nad oedd wedi'i dalu) ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru 2020, fod hwnnw wedi'i ganslo. Awgrymodd GR y dylid ystyried cefnogi'r Ffair Aeaf yn lle hynny fel arwydd o gefnogaeth i Gymdeithas Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a'r gymuned leol, a chytunwyd ar hyn.

CAM GWEITHREDU: Cytunodd y Cyfarfod o Weithrediaeth PCC ar y gyllideb ar gyfer 2020/21

5. CYNLLUN BUSNES PCC:

Roedd adroddiad cynnydd wedi'i ddarparu ar gyfer Cynllun Busnes 2019 - 21. Yn gyffredinol, lle na wnaed cynnydd, y rheswm am hynny oedd bod trydydd partion heb weithredu. Dywedodd EW fod "Gwerthfawr a Chydnerth" ond yn berthnasol dros dymor cyfredol y Senedd, ac roedd i fod i gael ei adnewyddu. Roedd yn bwysig bod cyfleoedd yn cael eu cymryd i sicrhau bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ddiwylliant a threftadaeth yn y ddogfen a bod y ddealltwriaeth o'r Economi Sylfaenol yn cael ei chryfhau.

Nodwyd y byddai'r Datganiad Sefyllfa o ran Cynhwysiant Cymdeithasol yn cael ei ystyried yn ddiweddarach yn y cyfarfod o dan "Lleoedd Gwerthfawr", a bod y cynnydd wedi bod yn araf o dan "Amgylcheddau Cydnerth" gan fod yr Awdurdodau'n ddibynnol ar Ddatganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru nad oedd wedi cael eu cyhoeddi tan yn ddiweddar.

6. Y BLAENORIAETHAU AR GYFER CYNLLUN BUSNES 2020 – 21:

Cyflwynwyd Cynllun Busnes 2020/21, a nodwyd bod blaenoriaethau'r Awdurdodau wedi newid o ganlyniad i bandemig Covid-19. Cynigiwyd tri chanlyniad:

- 1) Ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r Parciau Cenedlaethol o ganlyniad i Covid-19, Brexit a ffactorau eraill sy'n effeithio ar y dulliau presennol o weithio;
- 2) Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i weithredu canlyniadau strategol fel y'u nodwyd ym mhapur blaenoriaethau Llywodraethau Cymru - "Gwerthfawr a Chydnerth";
- 3) Mwy o ddealltwriaeth gyhoeddus a gwleidyddol o werth Parciau Cenedlaethol Cymru.

Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog yn ystod yr wythnosau nesaf er mwyn trafod Covid-19 a materion eraill.

Gofynnodd OW, gan fod "Gwerthfawr a Chydnerth" ond yn gymwys yn nhymor cyfredol y Senedd, ym mha ffyrdd y byddai PCC yn gallu dylanwadu ar Fanifestos y Pleidiau ar gyfer y tymor nesaf. Cytunodd TJ fod rhinwedd mewn cynhyrchu awgrymiadau lefel uchel a chwrdd â'r rhai a fyddai'n drafftio'r Manifestos. Awgrymodd y dylai'r Prif Weithredwyr ddsbarthu drafft i'r Cadeiryddion i gytuno arno. Awgrymwyd hefyd bod angen rhywfaint o ymgysylltu ag Aelodau'r Awdurdodau, ond roedd angen rheoli hyn.

Gofynnodd WE am y cynnydd o ran adfywio'r Grŵp Trawsbleidiol Materion Gwledig. Atebodd TJ fod trafodaethau yn parhau ynghylch Cadeirydd y Grŵp yn y dyfodol, ond roedd gan y gwleidyddion lawer o flaenoriaethau cystadleuol ar hyn o bryd.

1) Yr ysgrifenyddiaeth i gysylltu â swyddfa'r Dirprwy Weinidog i drefnu cyfarfod i drafod effaith Covid-19 a materion eraill.

2) Y Prif Weithredwyr i ddrافتio awgrymiadau lefel uchel i'w cynnwys mewn Manifestos ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2021 a'u dosbarthu i'r Weithrediaeth.

7. HERIAU'R ARGYFWNG COVID-19 A'R BROSES ADFER:

Amlinellodd pob un o'r Prif Weithredwyr y prif heriau yr oedd eu Awdurdodau wedi bod yn eu hwynebu, ac roedd yna lawer o themâu cyffredin – yn bennaf rheoli'r pwysau o du ymwelwyr ac, o ganlyniad, cau rhannau o'r Parciau / llwybrau troed a safleoedd i'r cyhoedd. Roedd hon yn broblem barhaus ac roedd swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a chyrrff eraill i gyfleu neges gyson nad oedd y Parciau Cenedlaethol ar agor. Roedd rheolau gwahanol yn gymwys yn Lloegr ac roedd hynny'n drysu'r darlun a byddai angen atgyfnerthu'r neges yn ystod yr wythnosau nesaf. Roedd gwaith hefyd wedi bod yn mynd rhagddo i alluogi staff i weithio o bell; a threfnu rhith-gyfarfodydd yr Awdurdod a'i Bwyllgorau (a oedd ond yn bosibl ers cymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 ddiwedd mis Ebrill). Y pryder mwyaf, fodd bynnag, oedd colli incwm yn sgil cau'r cyfleusterau. Yn dilyn cyngor gan Lywodraeth Cymru, roedd APCE wedi rhoi nifer o staff ar ffyrlo ac roedd hyn yn cael ei ystyried yn APCBB ac APCAP hefyd, ond gwnaed penderfyniad i dalu 100% o'u cyflog i'r mwyafrif o staff.

Ar ran eu Haelodau, talodd y Cadeiryddion deyrnged i waith y Prif Weithredwyr a oedd wedi gweithio gyda'i gilydd i gyfleu'r un neges ac am y ffordd yr oeddent wedi delio â sefyllfa anodd.

8. HERIAU ARIANNOL YN Y DYFODOL:

Cytunodd pob Awdurdod eu bod yn wynebu problemau tymor byr ynghylch incwm a'u bod yn poeni am gyllid tymor hwy oherwydd y pwysau a wynebir gan bartneriaid a hefyd yr ofnau am ostyngiad yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru oherwydd cost y pandemig a'r dirwasgiad a ragwelir. Dyma fyddai un o'r prif eitemau i'w trafod gyda'r Dirprwy Weinidog pe bai modd trefnu cyfarfod yn yr wythnosau nesaf. Dywedodd OW fod angen dealltwriaeth dda o'r economi sylfaenol fel y gallai'r Awdurdodau gefnogi twristiaeth, yr economi wledig a llesiant yn well dros y misoedd anodd nesaf.

9. SEMINAR AELODAU PCC 2020:

Atgoffwyd y Weithrediaeth fod disgwyl i'r Seminar eleni gael ei chynnal gan APCBB, a bod angen barn y Parciau Cenedlaethol eraill ynghylch a ddylid parhau i gynllunio ar gyfer y Seminar ym mis Hydref ac a fyddai'r Aelodau eisiau bod yn gorfforol bresennol neu mewn gweminar.

Holwyd a fyddai cyfleusterau, fel y gwesty, ar agor, ond cytunodd Cadeiryddion APCAP ac APCE i gefnogi APCBB ym mha bynnag benderfyniad y bydd yn ei wneud. Nodwyd y byddai Seminar gorfforol yn well nag un rithwir, ond y byddai digwyddiad digidol byr hefyd yn arbrawf diddorol. Pe bai'r Seminar yn cael ei gohirio tan 2021, cytunodd APCAP eu bod yn hapus i APCBB barhau i drefnu'r digwyddiad nesaf.

Gan ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniad, dywedodd APCBB y byddai'n trafod gyda'u lleoliad pa mor ymarferol fyddai cynnal digwyddiad a gweld pa gyngor a ddeuai i'r amlwg yn ystod yr wythnosau nesaf cyn dod i benderfyniad.

10. ETHOLIADAU'R SENEDD 2021:

Nodwyd bod hyn wedi'i drafod o dan y Cynllun Busnes.

11. TIRWEDDAU I BAWB:

Soniwyd bod Parciau Cenedlaethol Cymru yn ymdrechu, wrth gyflawni eu dibenion, i gysylltu pobl â'u treftadaeth naturiol a diwylliannol. Trwy ymgysylltu'n rhagweithiol roeddynt yn hybu cynhwysiant cymdeithasol ac yn lleihau effaith negyddol tlodi ar allu pobl i gael mynediad at y Parciau Cenedlaethol a chael budd ohonynt. Roedd y datganiad sefyllfa hon a chmau gweithredu cysylltiedig yn dangos sut y byddai Parciau Cenedlaethol Cymru yn cyflawni'r dibenion a'r ddyletswydd a oedd yn greiddiol i'w gwaith wrth fodloni gofynion datganiad "Gwerthfawr a Chydnherth" Llywodraeth Cymru. Eglurodd TJ fod y ddogfen wedi'i llunio ar y cyd a gofynnwyd i bob Awdurdod gymeradwyo'r drafft terfynol hwn.

Awgrymodd OW y gallai ychydig eiriau ynglŷn â gwersi'r pandemig Covid-19 gael eu cynnwys yn y cyflwyniad. Soniodd hefyd fod problem gyda rhifau'r paragraffau ar dudalennau 39/40 o'r fersiwn Gymraeg.

Cytunodd TJ i sôn am hynny wrth y rhai a oedd wedi llunio'r ddogfen.

CAM GWEITHREDU: TJ i ofyn i'r rhai a oedd wedi llunio'r ddogfen a oeddent yn dymuno cynnwys cyfeiriad at bandemig Covid-19. Byddai'r ddogfen wedyn yn cael ei chyflwyno i bob Awdurdod i'w chymeradwyo.

12. PARTNERIAETH TIRWEDDAU CENEDLAETHOL:

Atgoffwyd y Weithrediaeth fod Llywodraeth Cymru, yn ei datganiad "Gwerthfawr a Chydnerth", wedi galw am Dirweddau Dynodedig Cymru i hyrwyddo cydweithio rhwng yr ardaloedd dynodedig, ac am sefydlu Partneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol i ddatblygu diwylliant o gydweithredu a chraffu ar y blaenoriaethau a'r ddarpariaeth a'u herio.

Roedd gwaith i ddatblygu'r Partneriaeth yn parhau, er bod y cynnydd wedi arafu oherwydd pandemig Covid-19. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar raglen gyfalaf o £5 miliwn (£1m ar gyfer pob Parc Cenedlaethol a'r gweddill i'w rannu rhwng yr AHNE), gyda 10% o'r cyllid yn gallu cael ei ddefnyddio i gyflawni prosiectau trwy gyfrwng amser y staff. Cytunwyd hefyd y byddai Swyddog Polisi yn cael ei gyflogi. Dyfarnwyd y contract i APCAP i wneud yr apwyntiad, ac er bod recriwtio yn anodd ar hyn o bryd, byddai'r gwaith hwn yn cael ei symud ymlaen yn ystod y misoedd nesaf.

13. NEWYDDION O ARDALOEDD PCC:

APC Bannau Brycheiniog:

- Gostyngwyd aelodaeth yr Awdurdod i 18 ar 1 Ebrill a oedd yn gam cadarnhaol.
- Roedd Rhaglen Newid (ailstrwythuro) yr Awdurdod yn cael ei gohirio ar hyn o bryd oherwydd Covid-19 ac roedd yn debygol o gael ei rhoi ar waith yn wahanol gan fod y Cyfarwyddwr Darparu wedi gadael yr Awdurdod.
- Roedd yn debygol y byddai'n rhaid i'r Awdurdod symud o'i swyddfeydd presennol yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.
- Roedd Cynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn mynd rhagddynt, ond disgwyliwyd cyngor gan Lywodraeth Cymru ynghylch y newidiadau i'r Cytundeb Darparu o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud yn sgil Covid-19.

APC Eryri:

- Roedd Cynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod wedi cael ei fabwysiadu yn 2019 ac roedd disgwyl i'r Cynllun Rheoli gael ei fabwysiadu ym mis Mehefin, ond byddai hyn yn cael ei ohirio oherwydd y sefyllfa bresennol.
- Byddai cais cynllunio mawr ar gyfer y prosiect Darpariaeth Effaith Weledol a oedd â'r nod o leihau effaith weledol llinell drydan y Grid Cenedlaethol uwchben Aber yr afon Dwyrdd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ym mis Gorffennaf.
- Nodwyd bod nifer y ceisiadau cynllunio a ddaeth i law ym mis Ebrill 2020 yn debyg i'r nifer ym mis Ebrill 2019.

APC Arfordir Penfro:

- Derbyniwyd drafft o Adroddiad yr Arolygydd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ar gyfer gwirio ffeithiau, a disgwyliwyd copi terfynol o'r Adroddiad yn fuan. Fodd bynnag, ni allai'r Awdurdod fabwysiadu'r CDLI newydd nes bod copïau o Adroddiad yr Arolygwyr ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio, ac roedd hynny'n golygu efallai na fyddai'r cynllun yn cael ei fabwysiadu o fewn y cyfnod arferol o wyth wythnos. Roedd Llywodraeth Cymru wedi caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ar y pwynt hwn.
- Roedd Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol wedi'i gymeradwyo ar ddiwedd 2019.
- Roedd rhai Aelodau wedi nodi pan fyddai Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 yn dod i ben (1 Mai 2021), na fyddai Aelodau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn gallu mynychu cyfarfodydd o bell mwyach. Felly gofynnwyd i swyddogion llobio Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a fyddai'n caniatáu presenoldeb o bell yn y dyfodol. Gofynnodd TJ a oedd y Weithrediaeth yn hapus iddo wneud sylwadau o'r fath ar ran Parciau Cenedlaethol Cymru, a chytunwyd ar hyn.

CAM GWEITHREDU: Swyddogion i lobïo Llywodraeth Cymru ar ran Parciau Cenedlaethol Cymru am welliant i'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) i ganiatáu presenoldeb o bell yng nghyfarfodydd y Parciau Cenedlaethol yn barhaol.

14. UNRHYW FATER ARALL:

Nid oedd unrhyw fater arall.

15. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF:

Nodwyd y byddai'r cyfarfod fel arfer yn cael ei gynnal yn union cyn y Seminar i Aelodau ar Dirweddau Dynodedig y bwriedir ei chynnal ar 13/14 Hydref 2020. Gofynnwyd i'r Weithrediaeth gadw'r dyddiad hwn yn rhydd yn eu dyddiaduron pa un a gynhelir y Seminar ai peidio.





Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro
 ac Eryri yn gweithio mewn partneriaeth
 Brecon Beacons, Pembrokeshire Coast and Snowdonia
 National Parks, working in partnership

Rydym yn croesawu cael goheblaeth yn Gymraeg,
 a byddwn yn ateb goheblaeth yn Gymraeg.
 Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
 We welcome receiving correspondence in Welsh,
 and will respond to any correspondence in Welsh.
 Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY
 Ffôn / Tel: 01646 624800
 e-bost / e-mail:
gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk

**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU
DYDD MERCHER 15fed GORFFENNAF 2020**

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Gwynedd) (Cadeirydd)

PRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cyng Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Gethin Glyn Williams;

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyng Philip Capper, Wyn Ellis Jones;

Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru

Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mr. Tim Jones, Mr. Neil Martinson, Mr. Owain Wyn;

Swyddogion

Mr. E. Williams, Mr. G.I. Jones, Mr. J. Cawley, Mr. D. Edwards, Mr. E. Roberts, Ms. B. Hughes, Mrs. J. Worrall, Mrs. A. Gaffey;

Yn bresennol

Luned Fon Jones – Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Ymddiheuriadau

Cyng Freya Bentham, Judith Humphreys, Ifor Glyn Lloyd; Ms. Elinor Gwynn.

1. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd fod y cyfarfod yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau newydd Covid19 ar sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes, a :-

- bod Rhybudd o'r Cyfarfod wedi'i gyhoeddi, hefyd, roedd yr Agenda ac adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
- nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
- roedd y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gyda'r gwaith o wirio'r cofnodion.

2. Datgan Budd

Cyhoeddodd Mr Emyr Williams, Mr G. Iwan Jones, Mr Jonathan Cawley, Mr Emyr Roberts, a Ms Bethan Hughes ddiddordeb yn eitem 9 ar yr Agenda a gadawsant y cyfarfod wrth i'r mater gael ei drafod. Cyhoeddodd Mrs. Jo Worrall a Mrs. Anwen Gaffey ddiddordeb yn eitem 9 ar yr Agenda, ond fe wnaethant aros yn y cyfarfod.

3. Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 20fed Tachwedd 2019 a llofnododd y Cadeirydd nhw fel gwir gofnod.

Yn codi ar hynny,

6. Pwysau Cyllido Diwedd Blwyddyn Llywodraeth Cymru

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r Aelodau'n cael gwybod am gynigion cyllido pan gyflwynir yr adroddiad chwe mis nesaf.

10. Craffu Strategol ar gyfer 2020/21

Gofynnodd Cadeirydd yr Awdurdod am ddiweddariad ar Graffu Strategol yr Awdurdod ar gyfer 2020/21. Dywedodd y Prif Weithredwr, er bod y pandemig wedi effeithio ar y llinell amser, y byddai'r Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Trafnidiaeth yn cael ei wahodd i ystyried Adroddiad yr Ymgynghorwyr ar yr Adolygiad o Barcio a Thrafnidiaeth, cyn ei gyflwyno i gyfarfod nesaf o'r Gweithgor Aelodau.

16. Maniffesto Ieuentid Europarc - Adroddiad Cynnydd

Teimlai Cadeirydd yr Awdurdod y dylid dwysáu'r maes gwaith hwn mewn ymateb i'r pandemig a dywedodd y Prif Weithredwr fod y llinell amser ar gyfer datblygu Maniffesto Ieuentid Europarc wedi'i ohirio oherwydd effaith y pandemig ar argaeledd staff.

4. **Adroddiad Blynyddol Pennaeth yr Archwiliad Mewnol 2019/20**

Cyflwynwyd - Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn amlinellu barn y 'Gwasanaethau Archwilio Mewnol' ar reolaethau mewnol o fewn yr Awdurdod a'r Cynllun Archwilio Mewnol arfaethedig ar gyfer 2020/21.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yr adroddiad a chadarnhaodd ei bod yn fodlon â safon gyffredinol dda rheolaethau mewnol yr Awdurdod yn y meysydd yr ymchwiliwyd iddynt yng Nghynllun Archwilio 2019/20.

Ystyriodd yr aelodau yr adroddiad a gofyn am fanylion pellach fel a ganlyn:-

- cwestiynodd Aelod sut y gallai'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol roi sicrwydd bod data incwm Plas Tan y Bwlch yn "foddhaol", pan roedd yn amlwg bod cyfres o fethiannau y cyfeiriwyd atynt yn eu hadroddiad. Cofnodwyd y methiannau yn gyson yng nghofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch dros nifer o flynyddoedd, gan gynnwys diwedd y flwyddyn hon, ac yr oedd y ffigurau incwm yn dal i fod yn anghywir. Dywedodd Mr. Neil Martinson nad oedd, o ran llywodraethu, yn cefnogi'r canfyddiadau hyn, a gofynnodd i hyn gael ei gofnodi yn y cofnodion.
- mewn ymateb, dywedwyd wrth yr Aelodau mai pwrpas yr archwiliad oedd canfod cywirdeb y data incwm yn yr adroddiadau a dilyn y data a gyflwynwyd yn ôl i'r ffynonellau perthnasol. Roedd cyfnod o 5 i 7 diwrnod wedi'i ddyrannu ar gyfer y gwaith, a byddai angen llawer mwy o adnoddau ar gyfer archwiliad manylach o Blas Tan y Bwlch. Gan fod y ffocws ar y Data Incwm, roedd y sicrwydd "boddhaol" yn adlewyrchu barn yr archwilydd bod rheolaethau ar waith.
- mewn ymateb i roi sicrwydd ar sut i symud ymlaen o ran y datblygiad ym Mhlas Tan y Bwlch, para. 5.5 o Atodiad 2, amlinellodd hyn farn yr Archwiliad Mewnol ar y costau a'r amcanion incwm ychwanegol a gynhwyswyd yn adroddiad "Cynnig Datblygu Plas Tan y Bwlch", roedd yn ymddangos bod yr amcangyfrifon yn rhesymol ac roedd rhesymeg y tu ôl i'r amcanion yn yr adroddiad, er, fe welir dro arall pa mor gywir ydynt.
- Gofynnir i'r aelodau awgrymu meysydd i'w hystyried gan Archwilio Mewnol, fel rhan o ddull sy'n seiliedig ar risg i ystyried y risgiau mwyaf i'r Awdurdod. Roedd adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod yn ddiweddarach heddiw, sy'n argymhell trosglwyddiadau i ac o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd o £3.2 miliwn. Wrth nodi y derbyniwyd peth o'r arian yn hwyr gan Lywodraeth Cymru, yr oedd oddeutu £2.4 miliwn yn parhau i fod heb ei wario. Ni allai'r mater hwn fod oherwydd aflonyddwch Covid-19 a chynigiodd yr Aelod fod hwn yn faes i'w ystyried gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i ddarganfod pam nad yw'r arian wedi'i wario, a beth sydd angen ei newid.

- mewn ymateb i'r cais i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol archwilio'r tanwariant sy'n cael ei ddwyn ymlaen yn 2019/20, gofynnodd y Prif Swyddog Cyllid i'r mater hwn gael ei ystyried yng nghyfarfod yr Awdurdod sydd ar ddod, o dan yr adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2019/20 , a phe bai'r Aelodau'n penderfynu bwrw ymlaen, yna byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda'r Pennaeth Archwilio Mewnol.
- gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch pam yr oedd Yr Ysgwrn wedi'i gynnwys yng Nghynllun Archwilio Mewnol 2020/21. Mewn ymateb, dywedwyd wrth yr Aelodau fod Yr Ysgwrn wedi cael ei ddewis i'w gynnwys gan fod y prosiect bron wedi'i gwblhau a gallai'r archwiliad ddarparu mewnwelediad defnyddiol i'r hyn a oedd wedi mynd yn dda a'r hyn nad oedd wedi mynd yn dda, ac i ddysgu gwersi ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio Mewnol y byddai'r Cynllun Archwilio Mewnol, yn y dyfodol, yn cynnwys datganiad yn amlinellu pwrpas yr archwiliad yn y golofn reswm.
- Gofynnodd yr aelodau hefyd am arweiniad ar sut y byddai'r archwiliad yn cael ei gynnal, a fyddai angen i'r Tîm Archwilio gael mynediad i Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, ac effaith bosibl Covid-19 ar gwmpas y gwaith ac ar yr amserlen. Mewn ymateb, dywedwyd wrth yr Aelodau na fyddai'r gwaith yn dechrau tan fis Medi gan fod gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol rwymedigaethau blaenorol gyda sefydliadau eraill. Cytunwyd ar yr amserlen gyda swyddogion ymlaen llaw, a gallai argaeledd gwybodaeth electronig a gweithio o bell trwy Zoom a MTeams fod yn fwy effeithlon yn y tymor hir.

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran yr Aelodau, i'r Pennaeth Archwilio Mewnol am ddod i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol.

PENDERFYNWYD

1. **derbyn yr adroddiad fel “Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol” yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20.**
 2. **derbyn y Cynllun Archwilio Gweithredol ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu 2020/21, yn amodol ar ei newid mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Archwilio Mewnol, y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Cyllid, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a / neu'r Pennaeth Cyllid.**
5. **Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch**
Cyflwynwyd - Cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 16 Hydref a 20fed Tachwedd 2019, a 5ed Chwefror 2020, er gwybodaeth.

PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion.

6. **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2019/20**
Cyflwynwyd - Y pedwerydd Adroddiad Cynnydd ar gyfer chwarter olaf 2019/20.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad yn manylu ar Gynnydd yr Awdurdod yn erbyn amcanion am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2020. Adroddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar gynnydd mewn dangosyddion coch, rhai ohonynt oherwydd effeithiau Covid-19 ar waith yr Awdurdod yn ystod y chwarter hwn.

Ein Cymunedau

Yn codi ar hynny, cododd aelod bryder bod y mesur cyntaf (tudalen 38 o'r adroddiad) yn cyfeirio at brosiect a ddylai fod wedi'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2019. Ni ellid

defnyddio'r rheswm na chafodd ei gyflawni i Covid-19, a gofynnwyd i'r swyddogion fod yn fwy agored a gonest am unrhyw anawsterau, fel y gallai'r Aelodau ddeall yn well beth yw'r problemau. Mewn ymateb, esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod swyddogion wedi cael problemau wrth gyflawni yn ystod chwarteri 1-3 y disgwylid iddynt gael eu datrys erbyn chwarter 4.

Cytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol bod angen darparu gwell esboniadau a chytuno i gyfleu'r angen i swyddogion ddarparu mwy o eglurder yn y dyfodol.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fanylion pellach ar "Fesur budd economaidd i economi leol gweithgareddau seiliedig ar Brosiect yr Awdurdod" (tudalen 38) a dywedodd fod ymgynghorwyr allanol bellach wedi'u comisiynu i gyflawni'r gwaith hwn, a oedd wedi cael ei oedi gan nad oedd swyddogion wedi gallu cyfarfod â'r ymgynghorwyr cyn diwedd 2019. Roedd y gwaith bellach ar y gweill a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ym mis Hydref / Tachwedd 2020.

Mewn ymateb i gwestiwn ar geisiadau am fastiau telathrebu (tudalen 40 o'r adroddiad), cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod swyddogion yn pwysleisio'r angen i ddarparwyr ganiatáu i'r cymunedau lleol ddefnyddio'r mastiau ar gyfer band eang ac ati, lle mae hyn yn bosibl.

Wrth "ddiffinio ein rhanddeiliaid a'r ffyrdd a'r dulliau mwyaf effeithiol o gyfathrebu â nhw" (tudalen 41), roedd aelod yn teimlo na ddylai swyddogion roi gormod o bwyslais ar ymchwil Prifysgol Caergrawnt gan nad oedd yn seiliedig ar dystiolaeth. Roedd yr Aelod wedi codi'r mater mewn cyfarfod blaenorol, ac yn pryderu bod yr ymchwil yn ddiffygiol. Nid oedd yn sampl ar hap nac yn sampl gynrychioliadol, gan fod 47% o'r holl ymatebwyr wedi gwneud gwaith gwirfoddol yn y Parc Cenedlaethol. Roedd yn dderbyniol cyfeirio at yr ymchwil, ond gofynnwyd i swyddogion wirio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd a hefyd sefydlu methodoleg ar gyfer arolygon yn y dyfodol.

Cydbwysu ein Adnoddau a'n hymdrechion

Gofynnodd Aelod pam mai dim ond 75% o staff yr Awdurdod a gafodd eu gwerthuso yn ystod y 12 mis diwethaf (tudalen 66 o'r adroddiad). Dywedodd swyddogion fod gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â'r broblem gyda'r Penaethiaid Gwasanaethau perthnasol. Awgrymodd Aelod, yn ogystal â gweithio gyda'r Penaethiaid Gwasanaethau, y dylai uwch swyddogion asesu'r broses i sicrhau ei bod yn hawdd ei defnyddio.

Yn codi ar hynny, atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau eu bod hefyd yn destun Adolygiadau Datblygiad Personol (tudalen 67 o'r adroddiad) a gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau ystyried ffyrdd y gallai'r Awdurdod ddarparu Datblygiad Aelodau yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad terfynol ar y Rhaglen Waith Gorfforaethol 2019/20, fel y'i cyflwynwyd.

7. Dangosyddion Perfformiad 2019/20: Pedwerydd Chwarter a Chanlyniadau Blynyddol

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i drafod canlyniadau Dangosyddion Perfformiad 2019/20.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad, a ystyriodd yr Aelodau hwn yn fanwl.

Dangosyddion Perfformiad Lleol:

Iechyd a Lles (3ch)

Gofynnodd aelod am wybodaeth bellach am berthynas yr Awdurdod â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai adroddiad diweddar yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a chadarnhaodd fod y dangosyddion, sy'n cyfeirio at y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi'u tynnu o'r Rhaglen Waith Gorfforaethol eleni, ar wahân i un maes, sef y Gymraeg. Cytunodd y Prif Weithredwr y dylai'r Rhaglen Waith Gorfforaethol yn y dyfodol gynnwys dangosyddion y gall yr Awdurdod eu cyflawni yn unig.

Dangosyddion Corfforaethol (CHR/002)

Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion y cynnydd yn nifer yr absenoldebau salwch tymor hir o'i gymharu â 2018/19. Dywedodd y Pennaeth Personél fod hyn yn ymwneud â nifer fach o staff ar absenoldebau salwch tymor hir, pob un ohonynt yn cael eu cefnogi gan dystysgrifau meddygol gan eu meddyg teulu. Dywedodd y Pennaeth Personél ymhellach fod absenoldebau salwch yr Awdurdod ar gyfer chwarter cyntaf 2020/21 wedi gostwng yn sylweddol, gan fod llawer o staff yn gweithio gartref oherwydd pandemig Covid-19 a hefyd oherwydd y cynllun seibiant.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad ac aros am adroddiad diweddar ar berthynas yr Awdurdod â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

8. **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24**

Cyflwynwyd - Adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Personél a'r Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer i gyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020/24.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer yr adroddiad ac, mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd nad oedd gan yr Awdurdod unrhyw ddylanwad ar broses benodi Llywodraeth Cymru. Wrth nodi bod angen i'r Awdurdod fod yn rhagweithiol, roedd Cynllun Mentora cynharach wedi nodi ac annog ceisiadau gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol - ni chafodd hyn unrhyw ddylanwad ar y broses benodi.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar, ac wedi newid, y broses benodi ar gyfer rhai cyrff cyhoeddus. Er bod penodiadau i'r Awdurdod am ddau gyfnod o 4 blynedd ar hyn o bryd, efallai na fydd hyn yn wir bellach, a dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol nad oedd unrhyw sicrwydd ar gyfer y dyfodol.

Cytunodd yr aelodau a'r swyddogion y dylai'r Awdurdod weithio tuag at gael mesurau ar waith i annog demograffig iau, ac i barhau gyda'r gwaith i fabwysiadu Maniffesto Ieuentid.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24.

9. **Datganiad Polisi Tâl 2020/21**

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Pennaeth Personél i Aelodau gymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2020/21 a derbyn yr Adroddiad Polisi Tâl ar gyfer 2019/20.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Personél yr adroddiad a'r cefndir a nododd gywiriad i adroddiad Cymru gan fod Adroddiad Blynyddol y Polisi Tâl ar gyfer 2019/20 ac nid 2018/19 fel y nodwyd yn yr argymhelliad. Dywedwyd wrth yr aelodau nad oedd y dyfarniad cyflog ar gyfer 2020/21 wedi'i gytuno eto, a bod yr Undebau Llafur yn trafod cynnig o 2.75% ar hyn o bryd.

Yn codi ar hynny, ac mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, dywedodd y Pennaeth Personél fod manylion pellach am nifer y staff sy'n derbyn pob gradd tâl wedi'u cynnwys fel rhan o adroddiad blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

PENDERFYNWYD

1. cymeradwyo'r Datganiad Polisi Cyflogau ar gyfer 2020/21.

2. cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Polisi Cyflog ar gyfer 2019/20.

10. Safonau'r Iaith Cymraeg

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer ynghyd ag Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg 2019/20 yr Awdurdod.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer yr adroddiad ac mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd fod holl staff yr Awdurdod yn cael cyfleoedd i fynychu cyrsiau gwella iaith Cymraeg (Gloywi Iaith).

Cytunodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer hefyd i drafod dyluniad posteri ac arwyddion yr Awdurdod gyda'r tîm dylunio graffig i sicrhau bod yr iaith Gymraeg i'w gweld yn glir.

Gofynnodd aelod am wybodaeth bellach ar sut mae'r Awdurdod yn Hyrwyddo Safonau'r Gymraeg (para. 5.1). Dywedodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer fod gan yr Awdurdod strategaeth a chynllun gweithredu i annog a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg trwy weithgareddau yn y gymuned, ond nid oes ganddo unrhyw ddylanwad uniongyrchol. Gosodwyd y targed fel gofyniad gan Gomisiynydd y Gymraeg.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad ac awdurdodi'r Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer i gyhoeddi Adroddiad Monitro Safonau Iaith Cymru 2019/20 ar wefan yr Awdurdod.

11. Ymgynghoriad Cynllun Eryri

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Rheolwr Partneriaethau ar ymgynghoriad cyhoeddus terfynol Cynllun Eryri (Cynllun Rheoli newydd y Parc Cenedlaethol) ynghyd â chyflwyniad fideo.

Adroddwyd - Amlinellodd y Rheolwr Partneriaethau ganlyniad yr ymgynghoriad trwy gyflwyniad fideo. Rhoddwyd crynodeb o'r prif ganfyddiadau i'r aelodau a chynghorwyd hwy ar yr ychwanegiadau a'r diwygiadau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad. Hefyd, byddai'r adborth o ymateb yr Aelodau i adroddiad y Cadeirydd "Eryri a'r Normal Newydd" yn cael ei ymgorffori ac os oedd gan Aelodau unrhyw gwestiynau pellach, dylid eu hanfon ymlaen drwy'r Swyddog Gwasanaethau Aelodau i'r Rheolwr Partneriaethau ymateb.

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn:-

- roedd angen prawf ddarllen y ddogfen ymhellach i gywiro gwallau gramadegol.

- codwyd pryderon bod enwau lleoedd Cymreig yn cael eu cyfieithu a chytunodd yr aelodau y dylid trafod y mater mewn cyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn fuan.
- roedd Aelod o'r farn y dylid cael cyfle pellach i drafod canlyniadau mesuradwy cyn i'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod ym mis Medi. Teimlai'r Prif Weithredwr y byddai'n anodd rhoi canlyniadau mesuradwy i Gynllun Eryri oherwydd natur y ddogfen a chynghorodd y byddai'n trafod y mater ymhellach gyda'r Rheolwr Partneriaethau.
- roedd Aelod yn teimlo ei bod yn ddiangen sefydlu grŵp tasg a gorffen trafndiaeth pellach yn 2022 gan y gallai'r Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Trafnidiaeth barhau i edrych ar faterion trafndiaeth ehangach. Nodwyd bod aelodaeth o'r Grŵp Tasg a Gorffen yn destun penodiadau yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD

- 1. nodi cynnydd ar gynhyrchu'r Cynllun.**
- 2. cyflwyno adroddiad i gyfarfod buan o Weithgor yr Aelodau mewn perthynas â chyfieithu enwau lleoedd Cymreig.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45

**PWYLLGOR SAFONAU
DYDD MERCHER 16 HYDREF 2020**

PRESENNOL:

Aelod wedi'i benodi gan Gyngor Gwynedd

Cyng Alwyn Gruffydd;

Aelod wedi'i benodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyng Philip Capper;

Aelod wedi'i benodi gan Lywodraeth Cymru

Swydd wag;

Aelodau Annibynnol

Mrs Rachael L.J. Davies, Mr. Martin J. Hughes, Mrs. Sharon Warnes (Cadeirydd);

Yn bresennol

Cyng Annwen Hughes, ex-officio.

Swyddogion

Mr. G. Iwan Jones, Ms. Bethan Hughes, Mrs. Anwen Gaffey.

1. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r Swyddogion i'r cyfarfod, a oedd yn cael ei gynnal o bell oherwydd pandemig Covid-19.

Yn codi ar hynny, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r Awdurdod yn penodi Aelod o Lywodraeth Cymru i lenwi swydd wag ar y Pwyllgor Safonau yn eu cyfarfod ar 9 Rhagfyr 2020.

2. Datgan Budd

Datganodd y Cyng. Alwyn Gruffydd a'r Cyng. Philip Capper fuddiant personol yn eitem 7 ar yr Agenda, o dan baragraff 10 (2) (a) (ix) (aa) o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

3. Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 6 Medi 2019 a llofnododd y Cadeirydd nhw fel gwir gofnod.

Yn codi ar hynny,

Eitem 8 - Cynhadledd Safonau 2018

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod Cynhadledd Safonau 2020 wedi'i gohirio oherwydd y pandemig. Roedd y Gynhadledd yn cael ei threfnu gan siroedd Gogledd Cymru a byddai'n cael ei hail-drefnu tua diwedd 2021, er y gellir ei chynnal o bell o hyd, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Yn codi ar hynny, dywedodd Mr Martin Hughes ei fod wedi mynychu'r Gynhadledd Safonau yn 2018, a'i fod wedi ei chael yn ddefnyddiol iawn ac y byddai'n croesawu'r cyfle i fynychu eto yn y dyfodol.

4. Enwebu aelodau ar gyfer y Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar gyfer penodi tri Aelod a dau aelod dirprwyol ar y Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r cefndir a chadarnhaodd nad oedd y Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl wedi cyfarfod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

PENDERFYNWYD

1. **nodi'r adroddiad.**
2. **penodi'r Cyngorydd Philip Capper, Mrs. Rachael L.J. Davies a Mr. Martin J. Hughes fel Aelodau o'r Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl gyda'r Cyngorydd Alwyn Gruffydd a Mrs. Sharon Warnes yn cael eu penodi fel aelodau dirprwyol.**

5. **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i gynghori'r Pwyllgor ar y datblygiadau sy'n berthnasol i'r Awdurdod hwn.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad ac roedd yn falch o gadarnhau, fel mewn blynyddoedd blaenorol, na chyfeiriwyd unrhyw gwynion at yr Ombwdsmon i'w hymchwilio. Diolchodd y Cadeirydd i swyddogion a llongyfarchodd yr Awdurdod am ei record ragorol.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

6. **Adroddiad Monitro Cwynion**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ar gwynion ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer yr adroddiad a rhoi manylion pellach i'r Aelodau.

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn:-

- Roedd yr aelodau'n dawel eu meddwl bod yr Awdurdod wedi cynnal asesiadau effaith trylwyr cyn gweithredu unrhyw bolisi i gau toiledau cyhoeddus. Cytunodd yr aelodau fod darpariaeth toiledau'r Awdurdod yn rhagorol o'i gymharu â llawer o Gynghorau eraill.
- canmolwyd swyddogion am wrando ac ymdrin â chwynion yn brydlon er mwyn atal cwynion pellach rhag codi.
- nid oedd y Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer yn rhagweld cynnydd mewn cwynion o ganlyniad i effaith Covid-19 ac roedd yn hyderus y byddai'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan y staff ar ran yr Awdurdod.
- Diolchodd yr aelodau i'r Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer am ei gwaith.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

7. **Caniatáu Goddefebau**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn argymhell bod y Pwyllgor Safonau yn caniatáu goddefeb cyffredinol i Aelodau Cynghorau Bwrdeistref Sirol Gwynedd a Chonwy.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a chadarnhaodd fod goddefebau a roddwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Safonau wedi gweithio'n dda. Yn codi ar hynny, roedd Aelod yn teimlo ei bod yn bwysig cael y goddefeb ar waith a nododd pe bai gan unrhyw Aelod unrhyw fuddiant rhagfarnol arall y byddent yn cael eu hatal. Bu aelodau a swyddogion hefyd yn trafod sut roedd Eryri yn cymharu â'r ddau Awdurdod y Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru.

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad a chytunwyd i gymeradwyo goddefeb cyffredinol, yn unol â'r telerau a amlinellir yn yr adroddiad, er mwyn sicrhau y gallai'r Awdurdod gynnal ei fusnes yn effeithiol.

PENDERFYNWYD

- 1. caniatáu goddefeb i Aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd gan eu galluogi i gymryd rhan lawn wrth benderfynu ar faterion yn ymwneud â Chyngor Gwynedd hyd at 31ain Rhagfyr 2021, oni bai ei fod yn cael ei estyn ymhellach trwy benderfyniad y Pwyllgor hwn cyn 31ain Rhagfyr 2021.**
- 2. caniatáu goddefeb i Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gan eu galluogi i gymryd rhan lawn wrth benderfynu ar faterion yn ymwneud â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hyd at 31ain Rhagfyr 2021, oni bai eu bod yn cael eu hymestyn ymhellach trwy benderfyniad y Pwyllgor hwn cyn y 31ain Rhagfyr 2021.**

8. Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru

Derbyniwyd - Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2019 ynghyd ag adroddiad llafar gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau, er gwybodaeth.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, yn dilyn problemau diweddar, ei fod yn obeithiol bod aelodaeth o'r Fforwm bellach wedi'i gadarnhau ac y bydd Cadeirydd Pwyllgor Safonau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Swyddog Monitro yn y dyfodol yn cael eu gwahodd i fynychu holl gyfarfodydd Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru.

Gan fod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi bod yn bresennol pan ystyriodd Pwyllgor Safonau Ynys Môn gofnodion y Fforwm, roedd hi mewn sefyllfa i adrodd mai'r prif fater a drafodwyd oedd rhinweddau sefydlu Cydbwyllgor Safonau ar gyfer Gogledd Cymru. Ystyriodd yr aelodau a oedd hi'n amserol trafod y mater yn y cyfarfod hwn neu aros am wybodaeth bellach. Cytunodd yr aelodau i alw cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Safonau pan gyflwynir cynnig mwy ffurfiol.

Yn codi ar hynny, roedd y Cadeirydd yn teimlo, er bod Agendâu ar gyfer cyfarfod Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru yn rhoi penawdau i'w trafod i'r Aelodau, nad oedd ganddynt adroddiadau manwl cysylltiedig, a fyddai ar yr achlysur hwn wedi caniatáu i'r Aelodau ddod i farn wybodus. Cytunodd yr aelodau y dylai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, os yw'n teimlo ei fod yn angenrheidiol, fynd â'r mater ymhellach ar ôl derbyn yr Agenda ar gyfer cyfarfod nesaf o gyfarfod Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru.

PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion er gwybodaeth a diolch i'r Cadeirydd am ei hadroddiad llafar.

Diolchodd y Cadeirydd a'r Aelodau i swyddogion a staff am drefnu'r cyfarfod rhithwir, a oedd, yn eu barn hwy, wedi gweithio'n dda iawn.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.55